

# BAROD I DDARLLEN

Cau'r bwloch mewn sgiliau darllen cynnar er mwyn  
i bob plentyn yng Nghymru allu darllen yn dda



DARLLENA  
DATBLYGA

## **Llun Clawr: Regan yn darllen adref gyda'i dad Damien.**

(Llun: Elizabeth Dalziel/Achub y Plant)

*Dymuna Clymblaid Darllena.* Datblyga ddiolch i bawb, o fewn yr ymgyrch a thu hwnt, am eu cyfraniad gwerthfawr i'r adroddiad hwn. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Jerome Finenegan, Rhea Stevens a Hollie Warren, gyda chymorth gan Sara Drysdale, Kayte Lawton a Catherine Rees.

Mae'r adroddiad wedi elwa ar arbenigedd clymblaid o aelodau ar draws y DU. Yng Nghymru, hoffem ddiolch yn arbennig i'r: Athro Chris Taylor (Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd a'r Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)), Helen Wales (Booktrust Cymru) a Jane Purdie (Cymru Gyfan – Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd). Hoffem hefyd ddiolch yn arbennig i Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac laith yng Nghymru a'r Athro Karen Graham (Prifysgol Glyndŵr) am eu hadborth. Yn olaf, hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu dadansoddiadau data pwysig i'r adroddiad. Diolch i Emla Fitzsimons a Samantha Parsons yn sefydliad Addysg UCL am eu dadansoddiad o astudiaeth Carfan y Mileniwm. Diolch hefyd i Philip Nye a Dave Thompson yn yr Education Datalab am ddadansoddi data o gronfa ddata Genedlaethol y Disgyblion.

Cyhoeddwyd gan  
Achub y Plant ar ran Ymgyrch *Darllena.Datblyga*  
1 St John's Lane  
London EC1M 4AR  
UK  
+44 (0)20 7012 6400  
savethechildren.org.uk

Cyhoeddwyd yn gyntaf yn 2015

© The Save the Children Fund 2015

Mae Cronfa Achub y Plant yn elusen gofrestrdedig yng Nghymru a Lloegr (213890)  
Yr Alban (SC039570) Rhif cofrestrdedig y cwmni 178159

Mae'r cyhoeddiad hwn yn hawlfraint, ond gellir ei atgynhyrchu drwy unrhyw ddull heb ffi neu ganiatâd o flaen llaw at ddibenion dysgu, ond nid i'w ailwerthu. Ar gyfer copio mewn unrhyw amgylchiadau eraill, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth y cyhoeddwr, a gall ffi fod yn daladwy.

Typset gan Grasshoper Company Design

# CYNNWYS

<b>Rhagair</b>	v
<b>Crynodeb gweithredol</b>	vi
<b>Cyflwyniad</b>	1
<b>Pennod 1. Tlodi a sgiliau iaith plant ifanc</b>	3
Datblygiad iaith Plant yn ystod pum mlynedd cyntaf bywyd	3
Anghydraddoldebau yn sgiliau iaith plant ifanc	5
Effaith dwyieithrwydd ar ddatblygiad iaith plant ifanc	6
Anghydraddoldebau yn sgiliau iaith cynnar plant yn ôl rhyw a lle	8
Datblygiad iaith plant rhwng tair a phump oed: effaith tlodi	10
Her tlodi plant parhaus	10
<b>Pennod 2. Pam mae datblygiad iaith cynnar yn hanfodol ar gyfer dysgu darllen?</b>	12
Sut mae gallu ieithyddol yn dylanwadu ar sgiliau darllen plant?	12
Dadansoddiad newydd o sgiliau iaith a darllen plant	13
Buddion ehangach gallu ieithyddol da yn y blynyddoedd cynnar i blant	18
<b>Pennod 3. Beth sy'n dylanwadu ar ddatblygiad iaith plant ifanc?</b>	19
Pwysigrwydd datblygiad cynnar	20
Effaith tlodi ar ddatblygiad iaith plant ifanc	24
Addysg gynnar a gwasanaethau eraill y blynyddoedd cynnar	26
<b>Pennod 4. Pa gymorth y mae rhieni a phlant yn ei gael ar hyn o bryd?</b>	28
Gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar: o enedigaeth i'r ysgol	28
Iechyd y cyhoedd, yn cynnwys ymweliadau iechyd	29
Therapi lleferydd ac iaith	29
Canolfannau Plant Integredig	30
Dechrau'n Deg	30
Addysg gynnar	32
Llyfrgelloedd	33
Teuluoedd yn Gyntaf	34

<b>Pennod 5. Tair blaenoriaeth ar gyfer bodloni'r heriau</b>	35
Datblygiadau polisi	35
Meysydd ar gyfer gweithredu	36
Casgliad	40
<b>Atodiad 1 – Astudiaeth Carfan y Mileniwm</b>	41
<b>Atodiad 2 – Tablau atchweliad llawn ar gyfer pennod 2</b>	43
<b>CYFEIRIADAU</b>	47

# RHAGAIR

## DARLLEN. DATGBLYGA.

Mae “darllen” yn fwy nag edrych ar air a gallu ei ddweud neu ei ysgrifennu. Mae “darllen” yn golygu “deall” a “dehongli”. Os na fyddwn i’n annog ein plant o oedran ifanc i ymdrechu i ddeall a dehongli’r byd, yna rydan ni’n cyfyngu eu dyfodol.

Dwi wedi bod yn lwcus iawn yn fy magwraeth. Roedd fy rhieni’n mwynhau darllen ac roeddau nhw’n mwynhau straeon ac roedd rhannu hynny gyda’r nos cyn mynd i’r gwely yn hollbwysig i ni. Roedd ein teulu ni hefyd yn llefarwyr eisteddfodol brwd, ac roedd darllen, dadansoddi a deall darn o lenyddiaeth yn rhywbeth yr oeddau ni’n ei wneud yn gyson o oedran ifanc iawn. Heddiw, yn fy ngwaith fel cyflwynydd teledu mae derbyn sgript, gallu ei ddarllen a’i ddeall a’i addasu i ngoslef naturiol i yn sydyn, yn sgil na fyddwn i wedi ei meithrin oni bai am fy magwraeth. Yn fy ngwaith fel awdur, rwyf yn hyderus fy mod yn gallu mynegi fy hun yn effeithiol ac yn ddifyr drwy eiriau. Mae darllen yn annog geirfa eang sy’n golygu bod ganddoch chi’r amrywiaeth er mwyn gwneud yn siwr bod yr hyn yr ydych yn ceisio ei ddweud yn cael ei drosglwyddo.

Sanau drwg sy’n tyfu i fod yn onesie ac yn dy lyncu. Chwaraewr tenis gorau’r byd, sydd ond yn gallu chwarae tenis pan mae’n cysgu. Anifeiliaid gwyllt yn goresgyn ysgol ac yn bwyta’r llyfra i gyd. Dyma’r math o straeon a chymeriadau dwi wedi dod ar eu traws wrth weithio gyda phlant. Mewn gweithdy, y peth cynta dwi’n ceisio ei sefydlu yw nad oes ’na ffiniau ar ddychymyg. Mae’n wir fod hyn yn gallu mynd â chi ar drywydd hollol wallgo sy’n gwneud dim synnwyr o gwbwl. Ond mae’n bwysig eu bod nhw’n cael ymestyn ac ystwytho eu dychymyg, cyn i resymeg aeddfedrwydd eu mygu.

Ar ôl tanio’r plant, mae pob un yn barod i gyfrannu eu syniadau gwallgo gan nad oes unrhyw beth yn anghywir. Mae hyn yn brofiad gwych, cael pob un ohonynt i gyfathrebu. Ond pan mae hi’n amser ceisio rhoi trefn ar bethau a chanolbwyntio ar fynegiant, mae ambell un yn dechrau tawelu. Mae rhoi trefn ar eiriau, meddwl am sut i ddechrau, hyd yn oed ysgrifennu unrhyw air i lawr, yn gallu bod yn anodd iawn. O’r holl blant yr wyf i wedi gweithio â nhw, mae hyn yn wir am bob oed mewn ysgol gynradd, ac yn wir am fwy na’r disgwyl mewn ysgolion uwchradd. Alla i ddim peidio â phoeni am yr anallu sydd gan gynifer o blant i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig. Alla i ddim peidio chwaith â chredu mai y prif arf i wella hyn yw darllen, a darllen o oedran ifanc. Darllen yn annibynnol a gydag oedolyn. Mae cyddarllen yn hanfodol, fel eu bod yn cael y cyfle i holi os nad ydynt yn deall, cael y cyfle i glywed cystrawen mewn tôn sy’n mynegi’r ystyr, cael y cyfle i glywed camgymeriadau a chywiros, a chael cefnogaeth i ganolbwyntio.

Mae “darllen” yn fwy nac edrych ar air a gallu ei ddweud neu ei ysgrifennu. Mae “darllen” yn golygu “deall” a “dehongli”. Os na fyddwn i’n annog ein plant o oedran ifanc i ymdrechu i ddeall a dehongli’r byd, yna rydan ni’n cyfyngu eu dyfodol. Darllenwch yr adroddiad hwn ac ystyriwch beth allwch chi ei wneud i helpu.

**Anni Llŷn**  
Bardd Plant Cymru

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae gallu darllen yn dda yn hanfodol i ragolygon plentyn yn yr ysgol ac mewn bywyd. Ond mae un ym mhob pedwar plentyn sy'n cael eu magu mewn tloidi yng Nghymru yn gadael yr ysgol gynradd yn methu darllen yn dda, ac mae'r bwlch hwn yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn helpu i esbonio'r bwlch addysgol parhaus yng Nghymru sydd, bob blwyddyn, yn atal miloedd o'n plant tlotaf rhag cyflawni eu potensial.

Mae sicrhau bod bob plentyn yn gadael yr ysgol gynradd yn gallu darllen yn dda yn rhan hanfodol o'r ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Mae bob plentyn yn haeddu cyfle cyfartal i lwyddo, waeth beth fo'u cefndir. Dyma pam y mae ymgyrch clymblaid *Darllena. Datblyga* wedi gosod nod bod pob plentyn yng Nghymru'n gallu darllen yn dda erbyn eu bod yn 11 oed. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cenhadaeth genedlaethol i fynd i'r afael â thangyflawni mewn darllen, gan ddefnyddio egni, ymrwymiad ac arbenigedd ar draws cymdeithas.

## SGILIAU IAITH CYNNAR AC YMGYRCH DARLLENA. DATBLYGA

Mae dysgu darllen yn dda yn dechrau'n gynnar, a sgiliau iaith cynnar da yw'r cerrig camu hanfodol. Os nad yw plant yn dysgu deall geiriau, siarad, a gwrando yn gynnar, byddant yn cael anhawster yn dysgu darllen yn dda pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Mae ymgyrch *Darllena. Datblyga* felly wedi gosod nod interim y bydd gan bob plentyn yng Nghymru sgiliau iaith da erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Yng Nghymru, rydym yn disgwyl gallu mesur sgiliau iaith plant yn pedwar i bump oed wrth iddynt ddechrau'r cyfnod sylfaen o fis Medi 2015.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth bresennol sy'n esbonio pam y mae sgiliau iaith cynnar plant mor bwysig ar gyfer dysgu darllen. Rydym hefyd

yn dangos mai plant sy'n byw mewn tloidi sydd â'r perygl mwyaf o fod ar eu hôl hi. Dengys y dystiolaeth, heb fwy o ymrwymiad i ddatblygiad iaith cynnar plant, yn arbennig y plant tlotaf, na fyddwn byth yn cyflawni ein nod bod pob plentyn sy'n gadael yr ysgol gynradd yn gallu darllen yn dda. Mae rhoi hwb i sgiliau iaith cynnar plant yn hanfodol i leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad a gwella cyfleoedd bywyd ein plant tlotaf.

Mae gan Gymru nod uchelgeisiol sy'n cael ei groesawu ar gyfer ei phlant: i gael dechrau teg mewn bywyd. Ceir cefnogaeth wleidyddol eang dros fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anfantais cymdeithasol ac addysgol, cyn ei fod yn cael effaith ddramatig ar gyfleoedd bywyd plant. Mae cynnydd yn cael ei wneud trwy weithredu a buddsoddi cadarn, ond nid yn ddigon cyflym. Mae heriau sylweddol yn parhau. Mae angen mwy o ffocws ar sgiliau iaith cynnar sy'n cyrraedd pob plentyn, yn arbennig y rheiny sydd mewn tloidi.

Mae ffocws yr adroddiad hwn ar rôl Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau lleol yng Nghymru yn darparu cymorth i blant a rhieni. Fodd bynnag, gwyddom nad yw hwn yn rhywbeth y gall y llywodraeth ei unioni ar ei phen ei hun. Mae ymgyrch *Darllena. Datblyga* yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu ymgyrch newid mewn ymddygiad sylweddol gyda'r nod o rymuso rhieni i ddeall yr hyn y gallan nhw ei wneud.



## MAE SGILIAU IAITH PLANT TLAWD AR EI HÔL HI AR DRAWS CYMRU

Erbyn cyrraedd pump oed, dylai'r rhan fwyaf o blant allu siarad mewn brawddegau llawn a defnyddio'r rhan fwyaf o'r geiriau bob dydd y mae oedolion yn eu defnyddio. Dylent fod yn gofyn cwestiynau 'pam?' cryn dipyn er mwyn deall y byd o'u hamgylch. Dylent allu siarad yn hyderus am y gorffennol a'r dyfodol. Mae gan nifer fach o blant anabled neu nam sy'n golygu na fyddant byth yn datblygu'r sgiliau iaith a ddisgwylir o'u hoed, ond gall y rhan fwyaf o blant wneud hynny gyda'r cymorth iawn.

Ond eto, yng Nghymru, mae bwlch parhaus mewn sgiliau iaith rhwng plant tlotach a'u cyfoedion mwy cefnog. Dengys ein dadansoddiad newydd o ddata Carfan y Mileniwm (MCS) ar gyfer Cymru fod plant sy'n byw mewn tlodi parhaus ddwywaith yn fwy tebygol o gael sgôr islaw'r cyfartaledd ar gyfer datblygiad iaith yn bump oed. Mae hefyd wedi dangos bod plant sy'n profi tlodi a chanddynt lefel dda i ddechrau o ran datblygiad iaith yn dair oed lawer mwy tebygol o syrthio islaw'r lefel gyfartalog erbyn cyrraedd pump oed na'u cyfoedion mwy cefnog.

## MAE BOD AR EU HÔL HI YN Y BLYNYDDOEDD CYNNAR YN CAEL EFFAITH SYLWEDDOL AR ALLU I DDARLLEN YN II OED

Mae bod ar ei hôl hi mor gynnar mewn bywyd yn creu canlyniadau sylweddol o ran gallu plentyn i ddod ymlaen yn yr ysgol. Gall yr anfantais hwn ymestyn ymhell i fywyd fel oedolyn.

Mae dadansoddiad newydd o ddata MCS Cymru ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos rôl hanfodol sgiliau iaith cynnar o ran gallu plentyn i ddysgu darllen, yn arbennig i'n plant tlotaf:

- Mae plentyn â sgiliau iaith gwan yn bump oed yn llawer llai tebygol o fod yn ddarllenwr cryf yn II oed na phlentyn pump oed â sgiliau iaith cryf
- Mae sgiliau iaith cynnar da yn bwysicach fyth i blant sy'n cael eu magu mewn tlodi. Mae plentyn sydd wedi cael profiad o dlodi yn barhaus ac sydd â sgiliau iaith islaw'r cyfartaledd yn cael sgôr o 35% yn llai mewn profion darllen yn saith oed a 22% yn llai mewn profion darllen a deall yn II oed na phlentyn sydd erioed wedi profi tlodi ac sydd â sgiliau iaith uwchlaw'r cyfartaledd.

## PWYSIGRWYDD Y BLYNYDDOEDD CYNNAR AC EFFAITH TLODI

Mae gan etifeddiaeth enetig plant a'u gallu cynhenid rôl ddylanwadol o ran y ffordd y mae eu sgiliau iaith cynnar yn datblygu. Ond y tu hwnt i'r gwaddolion hyn, rydym wedi nodi pedwar set o ffactorau sy'n rhyngweithio â'i gilydd er mwyn helpu i lunio sgiliau iaith plant ifanc erbyn eu bod yn bump oed:

1. **Sgiliau iaith yn dair oed:** mae sgiliau iaith plant yn ystod y blynyddoedd cyntaf yn cael effaith enfawr ar eu sgiliau iaith erbyn cyrraedd pump oed. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gweithredu'n gynnar i gefnogi datblygiad iaith plant o'u genedigaeth.
2. **Yr hyn y mae rhieni'n ei wneud:** mae'r cwlwm rhwng rhiant a phlentyn, a'r ffordd y mae rhieni'n defnyddio iaith yn y cartref, yn hanfodol. Mae gan rieni hefyd rôl hanfodol yn creu cyfleoedd dysgu cynnar, fel rhannu straeon, canu rhigymau, neu chwarae gemau geiriau.
3. **Tlodi:** gall tlodi roi rhieni o dan straen, eu gwneud i boeni neu fod â diffyg hyder, a all ei wneud yn fwy anodd iddynt greu llawer o gyfleoedd dysgu cynnar. Mae mwy o gymorth a gwybodaeth i rieni yn allweddol. Yn arbennig yng nghyd-destun cyfraddau tlodi plant sy'n ystyfnig o uchel yng Nghymru.
4. **Dysgu cynnar a gofal plant:** gall dysgu cynnar a gofal plant o ansawdd uchel fod o fudd sylweddol, yn arbennig ar gyfer plant cyn-ysgol hyn ac ar gyfer y rheiny sy'n byw mewn tlodi. Addysg y blynyddoedd cynnar sy'n cael yr effaith fwyaf ar sgiliau iaith pan gaiff ei arwain gan athro cymwys neu rywun â gradd yn y blynyddoedd cynnar.

## PA GYMORTH Y MAE PLANT A THEULUOEDD YN EI GAEL AR HYN O BRYD?

Mae gweithredu'n gynnar a chefnogi rhieni i ymgysylltu â dysgu cynnar eu plant yn allweddol i roi hwb i sgiliau iaith plant ifanc a mynd i'r afael â'r tangyflawniad disymud o ran darllen. Mae ystod o wasanaethau ar gael i gefnogi teuluoedd yng Nghymru. Yn yr adroddiad hwn rydym yn ystyried yn arbennig rôl ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith, Canolfannau Plant Integredig, Dechrau'n Deg, addysg gynnar, llyfrgelloedd a Theuluoedd yn Gyntaf. Mae'r dirwedd i rieni gael cymorth ar gyfer datblygiad iaith cynnar eu plant yn eang, ac yn wasgaredig mewn

mannau. Yr her sylweddol o hyd yw ymgysylltu ymdrechion yr holl bartneriaid a sicrhau bod plant a rhieni sydd angen cymorth ychwanegol o ran iaith gynnar yn gallu ei gael.

## TAIR BLAENORIAETH I'R LLYWODRAETH

Mae'n hanfodol, fel cenedl, ein bod yn gwneud mwy i sicrhau bod plant yn datblygu sgiliau iaith cryf erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Mae'r effaith ar ddysgu a chyfluoedd bywyd plant sydd mewn perygl o fynd ar ei hôl hi, ac ar anghydraddoldeb addysgol yng Nghymru, yn debygol o fod yn sylweddol.

Mae ein ffocws ar beth arall y gellir ei wneud i gefnogi plant sy'n byw mewn tlodi, am mai nhw sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fod ar ei hôl hi o ran iaith gynnar ac yn llai tebygol o ddal i fyny. Ond bydd cyflawni nodau ein hymgyrch yn gofyn am gymorth i bob plentyn sydd ei angen, waeth beth yw eu cefndir. Bydd hyn yn gofyn am gymysgedd o wasanaethau cyffredinol sy'n cefnogi pob plentyn, a chymorth ychwanegol i'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fod ar ei hôl hi.

Rydym wedi nodi tri maes blaenoriaeth i lywodraeth Cymru eu hystyried, wedi eu cynllunio i helpu rhieni a gweithwyr proffesiynol i wneud mwy hyd yn oed i gefnogi'r plant ifancaf, yn arbennig y rheiny sy'n byw mewn tlodi.

### 1. Buddsoddi mwy yn ansawdd gweithlu addysg gynnar

- a) Sicrhau bod gan staff a rhieni ym mhob lleoliad y blynyddoedd cynnar fynediad i o leiaf un aelod o staff â chymhwyster ar lefel gradd, gydag arbenigedd yn natblygiad iaith gynnar, erbyn 2020.

- b) Mabwysiadu dull cadarn, systematig a chyson o asesu'r galw am ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau cyflenwad digonol o ddarpariaeth i fodloni galw gan rhieni. Dylai'r dull systematig hwn gynnwys asesu a oes digon o staff gyda'r sgiliau Cymraeg gofynnol i fodloni anghenion teuluoedd.

### 2. Cryfhau cymorth i rhieni

- a) Sicrhau bod gan staff y sgiliau angenrheidiol i gefnogi rhieni o ran datblygiad iaith gynnar eu plant, yn arbennig y rhieni hynny sy'n byw mewn tlodi. Gellir cyflawni hyn trwy sefydlu fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer y blynyddoedd cynnar a'r gweithlu gofal plant sydd yn cynnwys elfennau craidd sy'n cwmpasu datblygiad iaith gynnar a chefnogi rhieni.
- b) Asesu faint o blant sydd yn byw mewn tlodi ond y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Yna ymrwymo i weithredu i sicrhau bod y plant hyn yn gallu cael mynediad i'r cymorth o ansawdd sydd ei angen arnynt ar gyfer datblygu lleferydd ac iaith gynnar dda.

### 3. Arweinyddiaeth gref ac uchelgeisiol ar gyfer plant

- a) Penodi Gweinidog Plant i ddarparu arweinyddiaeth gref a sicrhau bod bob plentyn yng Nghymru yn gallu cyflawni eu potensial llawn.



# CYFLWYNIAD

Mae gallu darllen yn dda yn hanfodol i bob plentyn. Mae'n allweddol i ddatblygu llawer o'u potensial. Mae peidio gallu darllen yn dda yn golygu na fydd plant yn cael budd o'r holl gyfleoedd y mae addysg dda yn ei gynnig. Maent mewn perygl o adael addysg ffurfiol gyda chymwysterau gwael a chael anhawster ym myd gwaith. Eto, mae un ym mhob pedwar o'n plant tlotaf yng Nghymru yn gadael yr ysgol gynradd yn methu darllen yn dda<sup>1</sup>.

Mae sicrhau bod pob plentyn yn gallu darllen yn dda erbyn eu bod yn 11 oed yn hanfodol i wrthdroi'r sefyllfa annerbyniol hon, er mwyn i bob plentyn lwyddo waeth beth yw eu cefndir. Dyma nod *Darllena*. *Datblyga*, ymgyrch clymblaid o brif elusennau llythrennedd a chyfathrebu, llyfrgelloedd, undebau addysgu a chyhoeddwyr. Bydd plant sy'n gallu darllen yn dda erbyn cyrraedd 11 oed yn gallu deall yr ystyr y tu ôl i straeon a gwybodaeth, ac yn gallu siarad yn hyderus am yr hyn y maent wedi ei ddarllen. Mae angen y lefel hon o ddarllen **nid i fodoli yn unig, ond i ffynnu**, gan roi'r cyfle gorau i blant i adael yr ysgol gyda chymwysterau da.

Pan gafodd ymgyrch *Darllena*. *Datblyga* ei lansio ar draws y DU, fe wnaethom sefydlu pedwar ysgogwr allweddol sydd yn arwain at blant yn gallu darllen yn dda:

- cefnogi plant i ddatblygu sgiliau iaith cynnar da cyn dechrau'r ysgol
- darparu'r cymorth cywir i ysgolion cynradd
- cefnogi rhieni a gofawyr i helpu eu plant i ddarllen
- dathlu'r boddhad o ddarllen am bleser ym mhob cymuned.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y sbardun cyntaf – cefnogi plant i ddatblygu sgiliau iaith cynnar o'u genedigaeth. Gwranddo, deall geiriau, siarad, a datblygu geirfa, yw'r sylfeini hanfodol sy'n galluogi plant i ddysgu darllen: mae plant yn dysgu siarad gyntaf ac yna'n dysgu darllen. Pan fydd plant ifanc yn mynd ar ei hôl hi gydag iaith, maent yn llawer mwy

tebygol o gael anhawster yn dysgu darllen pan fyddant yn dechrau'r ysgol. A'n plant tlotaf sydd fwyaf mewn perygl o fynd ar ei hôl hi yn gynnar.

Dyma pam, fel rhan o ymgyrch *Darllena*. *Datblyga*, rydym yn benderfynol o sicrhau bod gan bob plentyn lefel dda o sgiliau iaith pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Yng Nghymru, rydym yn disgwyl gallu mesur sgiliau iaith plant yn pedwar i bump oed pan fyddant yn dechrau'r cyfnod sylfaen o fis Medi 2015. Ar hyn o bryd, nid yw un ym mhob pedwar o'n plant tlotaf yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad iaith. Erbyn pump oed, dengys ffigurau'r DU fod plant o'r teuluoedd tlotaf 15 mis y tu ôl i blant o'r teuluoedd cyfoethocaf o ran geirfa.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio pam y mae sgiliau iaith cynnar plant mor bwysig ar gyfer dysgu darllen a pham y mae plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn wynebu mwy o berygl o fod ar ei hôl hi. Mae'n nodi'r camau sydd eu hangen i sicrhau bod bob plentyn yng Nghymru, yn arbennig y rhai tlotaf, yn cael y dechrau gorau o ran datblygu eu sgiliau iaith. Mae'n hanfodol gweithredu nawr er mwyn sicrhau bod plant sy'n cael eu magu mewn tlodi'n cael y cyfleoedd dysgu cynnar gorau – gartref ac yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar.

Yng Nghymru, cydnabyddir pwysigrwydd y materion hyn a cheir cefnogaeth wleidyddol eang dros weithredu'n gynnar i fynd i'r afael ag anfantais addysgol cyn iddo gael effaith ddramatig ar fywydau plant. Ceir ymrwymiad cryf i raglenni fel Dechrau'n Deg, sy'n targedu teuluoedd â phlant ifanc yn

<sup>1</sup> Cyraeddiadau academaidd a'r hawl i brydau am ddim Llywodraeth Cymru, 2014. Gweler Ffigur 1.2 yn yr adroddiad hwn.

ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, sydd yn cynnwys elfen graidd o gefnogaeth tuag at ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Yn ogystal ceir pwyslais cadarn ar wella safonau llythrennedd yng Nghymru. Mae cynnydd yn cael ei wneud, ond mae heriau sylweddol yn parhau. Mae angen ffocws cryf ar sgiliau iaith cynnar plant er mwyn mynd i'r afael ag un o heriau mwyaf enbyd Cymru: tangyflawniad addysgol ymysg ein plant tlotaf.

Mae cyflawni ein nod bod gan bob plentyn sgiliau iaith da o fewn ein cyrraedd, ond nid heb ddatblygu'r dull presennol ymhellach a chynyddu buddsoddiad. Mae bylchau mawr yn natblygiad iaith yn agor yn gynnar iawn mewn bywyd rhwng plant o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion mwy cefnog. Heb gynyddu'r cynnydd yn sylweddol, bydd nifer fawr o blant tlotach yn parhau i fethu cael y sgiliau iaith cynnar hanfodol sydd yn sylfeini ar gyfer dysgu darllen.

Mae ein hadroddiad yn dechrau trwy gyflwyno'r data diweddaraf ar yr her sydd o'n blaenau. Ym Mhennod 1 rydym yn edrych pa blant sydd fwyaf mewn perygl o fynd ar ei hôl hi. Mae Pennod 2 yn ystyried effaith bod ar ei hôl hi o ran gallu darllen yn dda yn 11

oed. Mae Pennod 3 yn archwilio'r dylanwadau ar ddatblygiad iaith plant ifanc, gan amlygu rôl hanfodol rhieni ac effaith tlodi. Mae Pennod 4 yn nodi sut y gall gwasanaethau o ansawdd uchel a chymorth i deuluoedd helpu i oresgyn effaith tlodi. Rydym yn amlygu'r potensial ar gyfer gwasanaethau yn cynnwys rhaglenni addysg cynnar, ymweliadau iechyd a llyfrgelloedd i gefnogi datblygiad iaith plant ifanc ac yn dangos pam nad yw'r potensial hwn bob amser yn cael ei gyflawni. Yn olaf rydym yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y llywodraeth: buddsoddi ymhellach yn ansawdd y gweithlu addysg gynnar; cryfhau cymorth i rieni; ac arweinyddiaeth gref ac uchelgeisiol i blant.

Mae sylfeini cadarn wrth ddarllen yn hanfodol i dorri'r cylch o anghydraddoldeb addysgol ac i wella cyfleoedd ehangach bywyd y plant tlotaf. Byddai sicrhau bod pob plentyn yn darllen yn dda yn 11 oed yn gwneud cyfraniad enfawr i'n gwneud yn wlad decach a mwy symudol yn gymdeithasol. Fel y mae'r adroddiad hwn yn esbonio, dim ond os ydym yn ymrwymo i hybu sgiliau iaith cynnar ein plant tlotaf y gellir cyflawni hyn.

## YMGYRCH DARLLENA. DATBLYGA – CEFNOGI RHINIEN I GAEL PLANT I DDARLLEN

Fe wnaeth ymgyrch *Darlleena. Datblyga* a lansiwyd ym mis Hydref 2014, ddatgan yr uchelgais o gael bob plentyn i ddarllen yn dda yn 11 oed erbyn 2025. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd angen i ni gyd chwarae rôl, rhieni, neiniau a theidiau, busnesau, gwirfoddolwyr, athrawon a modelau rôl, er enghraifft pobl chwaraeon a ffigyrau cyhoeddus eraill. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar rôl benodol llywodraeth genedlaethol a gwasanaethau lleol, ond gwyddom nad yw'r broblem yn rhywbeth y gall y llywodraeth ei gwella ar ei phen ei hun.

Bydd angen cymorth a chynghor ar rieni plant

ifanc hefyd o ran datblygiad iaith eu plentyn. Gan ddatblygu'r gwaith a wnaethom o amgylch y lansiog, yn ystod haf 2015, lansiodd ymgyrch *Darlleena. Datblyga*. weithgaredd newydd i rieni â phlant ifanc. Er mwyn annog rhieni i greu a dweud straeon gyda'u plentyn, fe wnaethom ddarparu 'sbardunau stori' i'w hysbrydoli a'u cefnogi. Megis dechrau yw'r gweithgaredd hwn ar ymgyrch tymor hwy yr ydym yn ei ddatblygu gyda phartneriaid i gefnogi rhieni, yn arbennig y rheiny o gefndiroedd incwm isel, i ddarllen a siarad gyda'u plant ifanc.

# PENNOD 1. TLODI A SGILIAU IAITH PLANT IFANC

Mae tyfu i fyny mewn tloidi yn cael effaith sylweddol ar fywyd plentyn ac, fel y mae'r bennod hon yn nodi, mae'n rhoi plant mewn perygl llawer uwch o brofi oedi yn natblygiad eu hiaith. Mae plentyn sy'n profi oedi o ran iaith yn fwy tebygol o gael anhawster yn ymateb i gwestiynau gan rieni neu ofalwyr ac yn dysgu geiriau newydd. Gall yr anhawsterau hyn barhau hyd at ddechrau'r ysgol, gyda rhai plant yn cael anhawster yn siarad â'u cyfoedion a'u hathrawon a gwranddo arnynt. Gall hyn arwain at ganlyniadau sylweddol o ran datblygiad eu sgiliau darllen cynnar.

Dengys tystiolaeth newydd yn y bennod hon fod plant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig bron dwywaith mor debygol â'u cyfoedion mwy cefnog o gael anhawster o ran datblygiad iaith erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Bydd y cynnydd a ragwelir yn nifer y plant sy'n byw mewn tloidi yn rhoi mwy o blant mewn perygl o brofi oedi o ran iaith.

Mae'r bennod hon yn dechrau trwy nodi datblygiad iaith nodweddiadol plentyn yn ystod pum mlynedd cyntaf bywyd. Yna rydym yn cyflwyno dadansoddiad newydd o gyrhaeddiad plant ifanc o ran iaith a chyfathrebu yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldebau rhwng plant sy'n tyfu i fyny mewn tloidi a'u cyfoedion mwy cefnog. Rydym hefyd yn archwilio'r ffordd y mae cyrhaeddiad yn amrywio ar gyfer plant tlawd yn dibynnu ar ryw a lle.

## DATBLYGIAD IAITH PLANT YN YSTOD PUM MLYNEDD CYNTAF BYWYD

Ein nod interim yw sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru sgiliau iaith da erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Yng Nghymru, rydym yn disgwyl gallu mesur sgiliau iaith plant yn pedwar i bump oed wrth iddynt ddechrau'r cyfnod sylfaen o fis Medi 2015.

Mae'r term 'iaith' yn cwmpasu ystod o sgiliau, yn cynnwys y gallu corfforol i siarad a chlywed, y gallu i lyncu a deall gwybodaeth lafar, a'r gallu i fynegi ein teimladau a'n syniadau ein hunain ar lafar. Mae hefyd yn ymgorffori iaith y corff, mynegiant yr wyneb ac

ystumiau. Ac mae'n cynnwys y gallu i ryngweithio gydag eraill mewn deialog dwy ffordd, gan fyfyrto ar yr hyn y mae pobl eraill wedi ei ddweud ac ymateb yn briodol.

Erbyn pump oed, dylai fod gan blant allu cymharol ddatblygedig ym mhob un o'r meysydd iaith hyn. Dylai plentyn allu siarad â phobl newydd (nid person cyfarwydd fel rhiant yn unig) a chael eu deall ganddynt, defnyddio brawddegau llawn a gofyn llawer o gwestiynau 'pam?'. Dylent allu deall a siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol, a defnyddio'r rhan fwyaf o'r geiriau bob dydd y mae oedolyn yn eu defnyddio (I CAN 2009).

Mae datblygiad arferol iaith plentyn wedi ei nodi'n fanylach ym Mlwch 1.1. Yn nodweddiadol, dylai plentyn ddechrau siarad yn un oed, creu brawddegau syml yn ddwy oed, dweud straeon syml yn dair oed, a mynegi eu meddyliau mewn ffyrdd mwy cymhleth yn bedair oed. Mae'r rhain yn gamau hanfodol am eu bod yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plant yn nes ymlaen. Mae datblygiad iaith yn parhau trwy'r blynyddoedd ysgol wrth i blant ddod yn gyfathrebwyr cynyddol gymwys.

Nid yw bob plentyn yn gallu cyflawni'r llwybr nodweddiadol hwn o ddatblygiad iaith. Mae graddau namau ac anabledau iaith ymysg plant ifanc yn golygu nad yw'n bosibl i bob un plentyn yng Nghymru gael lefel dda o ddatblygiad iaith erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Fodd bynnag, nifer cymharol fach o blant sydd ag anawsterau iaith sydd mor ddifrifol nad ydynt yn gallu cyrraedd y safon ddisgwyliedig, neu gael cymorth i ddal i fyny yn yr ysgol gynradd.

Mae ffocws yr adroddiad hwn ar y grŵp o blant sydd heb nam neu anabledd sy'n eu hatal rhag datblygu

sgiliau iaith da, ond sydd serch hynny yn methu cyrraedd y lefel ddisgwyliedig erbyn iddynt ddechrau'r ysgol. Gellir disgrifio'r plant hyn fel rhai sy'n profi 'oedi o ran iaith'. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn oherwydd 'ffactorau amgylcheddol' fel yr amgylchedd a ddarperir gan rieni, cyfleoedd dysgu cynnar yn y cartref, ac effaith addysg gynnar ffurfiol.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn dadlau bod plant sy'n cael eu magu mewn tloidi yn llai tebygol o elwa ar brofiadau cadarnhaol cynnar ym mhob un o'r meysydd hyn, sy'n ei wneud yn fwy tebygol y byddant yn mynd ar ei hôl hi yn gynnar ac yn llai tebygol o ddal i fyny. Rydym felly'n rhoi mwy o sylw i blant sydd yn tyfu i fyny mewn tloidi. Ond nid yw tloidi'n ei wneud yn amhosibl i fwyafrif helaeth y plant ifanc wneud cynnydd o ran iaith, cyhyd â bod y cymorth cywir yno ar gyfer rhieni a phlant. Hyd yn oed heb brofi tloidi, bydd rhai plant yn cael anhawster i ddatblygu sgiliau iaith da. I gyflawni ein nod, mae angen i ni sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer y plant hyn hefyd.

### BLWCH 1.1 DATBLYGIAD NODWEDDIADOL SGILIAU IAITH

Babanod (12 mis)	Plant bach (2 oed)	Oed meithrin (4 oed)	Oed ysgol (5 oed)
Dealltwriaeth o eiriau syml yn dechrau cynyddu	Dechrau rhoi 2 neu 3 gair at ei gilydd ac ymateb i frawddegau syml fel "dangos dy drwyn i mi"	Dechrau dysgu ystyr mwy cymhleth geiriau ac yn gofyn llawer o gwestiynau am yr hynny mae geiriau'n ei olygu	Gallu deall a siarad â phobl newydd, gan ddefnyddio brawddegau wedi eu ffurfio'n dda
Cyfathrebu trwy barablu, chwarae gyda synau, crio ac estyn am wrthrychau	Mae'r geiriau cyntaf yn ymddangos a geirfa ehangach yn dechrau datblygu	Mynegi eu meddyliau a'u teimladau yn glir i oedolion a phlant	Gofyn llawer o gwestiynau 'pam?'
Cyfnod o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i siarad a deall	Mae plant 2 oed yn dysgu dau neu dri gair y dydd	Gwneud dewisiadau gofalus am y geiriau y maent yn eu defnyddio ac yn defnyddio gramadeg fel amser y ferf a'r lluosog	Deall brawddegau mwy cymhleth a hwy
Gallant ddechrau defnyddio geiriau syml	Dechrau gofyn llawer o gwestiynau i'w helpu i ddysgu a chofio geiriau	Yn dal i gael rhai synau'n anodd eu defnyddio ond yn cael eu deall gan y rhan fwyaf o bobl	Defnyddio a deall y rhan fwyaf o eiriau bob dydd y mae oedolion yn eu defnyddio
Gallu ymateb i eiriau cyfarwydd fel "fyny" neu "ta"	Cynnydd sylweddol mewn sgiliau iaith sy'n hanfodol i iaith plant	Gallant faglu dros eiriau a brawddegau	Esbonio'r hyn sydd wedi digwydd a pham mewn ffordd ddiddorol

Addaswyd o: ICAN (2011)

## ANGHYDRADDOLDEBAU YN SGILIAU IAITH PLANT IFANC

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno tystiolaeth ar yr anghydraddoldebau yn natblygiad iaith rhwng plant sy'n profi tloidi a'u cyfoedion. Rydym yn defnyddio dadansoddiad newydd o ddata Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCS) yn bump oed (Ffigur 1.1) a data llywodraeth Cymru o asesiadau Proffil Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn saith oed (Ffigur 1.2) i ddangos y cysylltiadau rhwng tloidi a datblygiad iaith.

### DATA ASTUDIAETH CARFAN Y MILENIWM

Gallwn gael dealltwriaeth ehangach o'r berthynas rhwng tloidi a datblygiad iaith cynnar plant trwy ddefnyddio data o'r MCS. Trwy archwilio'r data hwn, gallwn weld bod y bwlch hwn o ran gallu iaith rhwng plant tlotach a'u cyfoedion mwy cefnog yn amlwg yn ifanc, ac yn parhau hyd nes y byddant yn dechrau'r ysgol.

Mae'r MCS yn olrhain cynnydd grŵp o blant a anwyd yn 2000 ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am eu datblygiad. Mae'r data hwn bellach dros ddeng mlwydd oed ac mae'n ategu data arall yn ddefnyddiol iawn.

Mae'r arolwg yn mesur incwm teulu yn uniongyrchol, yn hytrach na dibynnu ar fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim fel procsi, ym mhob cyfnod o fywyd plentyn. Mae hyn yn ein galluogi ni i gadarnhau'r berthynas rhwng tloidi a datblygiad iaith plant, ac i ystyried effeithiau gwahanol tloidi parhaus a dros dro. Mae adroddiad pellach yn seiliedig ar yr MCS,

sy'n canolbwyntio ar blant yng Nghymru yn saith oed, hefyd yn dangos bod incwm islaw'r llinell dlodi yn rhagfynegi sgorau darllen is (Llywodraeth Cymru, 2011).

Dengys dadansoddiad newydd o sampl Cymreig o'r MCS gan Sefydliad Addysg UCL fod gan blant sy'n profi tloidi ysbeidiol neu barhaus berygl llawer uwch o gael sgôr islaw sgorau geirfa cyfartalog a bod y patrymau hyn yn parhau. Gan ddefnyddio'r un prawf geirfa, mae'n dangos bod 34% o blant sydd erioed wedi profi tloidi yn cael sgôr islaw'r cyfartaledd. Mewn cymhariaeth, roedd hyn yn cynyddu i 57% o blant oedd wedi profi tloidi'n ysbeidiol ac yn cynyddu i 67% o blant oedd wedi profi tloidi'n barhaus trwy gydol y blynyddoedd cynnar.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos yr anghydraddoldebau sylweddol yn natblygiad iaith rhwng plant â phrofiadau gwahanol o dlodi. Mae'n amlwg bod plant sydd wedi profi tloidi'n barhaus trwy gydol eu blynyddoedd cynnar mewn perygl o brofi oedi o ran iaith yn nes ymlaen.

Dyma pam y mae'r adroddiad hwn, ac ymgyrch Darllena. Datblyga. yn canolbwyntio i raddau helaeth ar blant sy'n byw mewn tloidi. Yng Nghymru, mae hyn yn l ym mhob 4 plentyn. Fel y dengys y data hwn, maent yn fwy tebygol o fod ar ei hôl hi o ran gallu ieithyddol pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Byddwn yn dangos yn nes ymlaen ym mhennod 2, os yw plentyn ar ei hôl hi o ran gallu ieithyddol yn bump oed eu bod yn llawer iawn mwy tebygol o fod ar ei hôl hi yn darllen yn 11 oed.

### ESBONIO DATBLYGIAD IAITH DA YN BUMP OED


Mae datblygiad iaith da yn golygu bod plentyn yn cyrraedd y cerrig milltir cyfathrebu sy'n gysylltiedig â phlant pump oed. Mae'n gofyn bod plentyn yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ym mhob un o bedwar parth iaith: dealltwriaeth, defnydd o eiriau, datblygiad lleferydd, a'r gallu i ddefnyddio sgiliau cyfathrebu cymdeithasol priodol. Er mwyn rhoi enghreifftiau o'r hyn y mae plant â datblygiad iaith da yn bump oed yn gallu ei wneud.

Erbyn pump oed, bydd plant fel arfer yn gallu:

- deall cyfarwyddiadau llafar heb roi'r gorau i'r hyn y maent yn ei wneud i edrych ar y siaradwr
- dewis eu ffrindiau a'u cyfoedion chwarae eu hunain

- cymryd tro mewn sgysiau llawer hwy
- deall iaith fwy cymhleth fel 'cyntaf', 'olaf', 'gallai', 'efallai', 'uwch' a 'rhwng'
- deall geiriau sy'n disgrifio dilyniannau fel "yn gyntaf rydym yn mynd i'r siop, wedyn byddwn yn chwarae yn y parc"
- defnyddio brawddegau wedi eu ffurfio'n dda. Fodd bynnag, gallant gael rhai anawsterau gyda gramadeg o hyd. Er enghraifft, dweud 'sheeps' yn lle 'sheep' neu 'goed' yn lle 'went'
- meddwl mwy am ystyr geiriau, fel disgrifio ystyr geiriau syml neu ofyn beth mae gair newydd yn ei olygu
- defnyddio synau yn effeithiol. Fodd bynnag, gallant gael rhai anawsterau gyda geiriau mwy anodd fel 'sgriblo' neu 'eliffant'.

FFIGUR 1.2 PLANT PUMP OED YNG NGHYMURU ISLAW'R LEFEL EIRFA GYFARTALOG, YN ÔL PROFIAD O DLODI



Ffynhonnell: Astudiaeth Carfan y Mileniwm

## DATA LLYWODRAETH CYMRU

Mae asesiadau Proffil Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn cael eu cwblhau ar gyfer bob plentyn yng Nghymru, a chânt eu cynnal gan athrawon ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, pan fydd plant yn saith oed. Maent yn cynnwys asesiad o sgiliau iaith a chyfathrebu plentyn ac yn canolbwyntio ar sgiliau gwranddo a thalu sylw, dealltwriaeth a siarad.

Mae'r data hwn yn dangos na wnaeth tua un ym mhob deg plentyn nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim gyrraedd safon ddisgwyliedig o ran datblygiad gallu ieithyddol erbyn saith oed, wrth gael eu hasesu yn Saesneg neu Gymraeg. Mae hyn yn codi i un ym mhob pedwar plentyn sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (gweler Ffigur 1.3).

Mae'r bwlch hwn mewn cyrhaeddiad rhwng plant tlawd a'u cyfoedion wedi gostwng ychydig yng Nghymru er 2012 (Llywodraeth Cymru, 2015). Fodd bynnag ni chafwyd y gwelliannau yn natblygiad iaith a chyfathrebu plant tlawd sydd angen eu gweld er mwyn cyflawni ein nod o bob plentyn yn darllen yn dda.


## EFFAITH DWYIEITHRWYDD AR DDATBLYGIAD IAITH PLANT IFANC

Mae llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi hybu'r Gymraeg. Nod Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 (Llywodraeth Cymru, 2012) yw cynyddu'r bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. Yng Nghymru, yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2014, gall ychydig dros chwarter (27.5%) y boblogaeth siarad Cymraeg (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2014).

Mae buddion bod yn ddwyieithog a nodwyd yn y llywodraeth yn cynnwys bod yn fwy creadigol, hunanhyder, sgiliau cynllunio a datrys problemau. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod dwyieithrwydd yn ei wneud yn fwy anodd i blant â phroblemau lleferydd i ddatblygu lleferydd. (Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol). Yn ogystal, dengys y dystiolaeth fod plant dwyieithog yn gallu dysgu ieithoedd eraill yn haws. Fodd bynnag, mae ymchwil hefyd wedi dangos y gallai fod gan blant dwyieithog anghenion iaith cynnar penodol. Canfu un astudiaeth fod plant dwyieithog sy'n dysgu dwy iaith ar yr un pryd o'u genedigaeth yn cael sgôr is na phlant uniaith, sydd efallai'n dysgu ail iaith trwy addysg ddwyieithog, o ran mesurau geirfa



FFIGUR 1.3 CYFRAN Y PLANT YNG NGHYMUR SY’N CYRRAEDD Y SAFON DDISGWYLIEDIG MEWN IAITH, YN ÔL STATWS FSM (2014)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyflawniad academiaidd a hawl i brydau ysgol am ddim, 2014

ac ailadrodd brawddegau (Westman et al, 2008). Mae llawer o blant yng Nghymru’n dysgu un iaith yn bennaf yn y cartref ac yn cael sgiliau mewn ail iaith trwy addysg ddwyieithog.

Gallai fod gan y plant hynny sy’n byw mewn teuluoedd dwyieithog ac yn dysgu dwy iaith o’u genedigaeth anghenion iaith cynnar penodol. Er enghraifft, gall dysgu mwy nag un iaith o’u genedigaeth effeithio ar yr oed y mae plant yn meistroli agweddau penodol ar iaith. Gall rhai plant sy’n dysgu ail iaith yn ddilyniannol (hynny yw, yn dod i gysylltiad ag iaith ychwanegol ar ôl iaith eu cartref) ddangos cyfnod derbyngar tawel pan fyddant yn dod i gysylltiad â’r iaith newydd am y tro cyntaf.

Yng Nghymru, anogir ymarferwyr i ystyried iaith (ieithoedd) cartref plentyn wrth asesu anghenion ac i ddeall eu galluoedd yn eu holl ieithoedd (canllawiau Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, 2006). Mae llywodraeth Cymru wedi lansio adnoddau i rieni yn ddiweddar sy’n cynnwys negeseuon allweddol yn ymwneud â buddion dwyieithrwydd.

Mae’n ofynnol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant bob tair blynedd yn unol â Deddf Gofal Plant 2006. Mae’r asesiadau hyn yn ystyried galw a chyflenwad darpariaeth briodol, ac i ystyried safbwyntiau rhieni, darparwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid. Mae’r dulliau a ddefnyddir i asesu’r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn amrywio ar draws awdurdodau lleol o ran y dulliau a ddefnyddir, ehangder y data ac amllder yr asesiadau. Mae hyn yn golygu bod heriau o ran deall y graddau y mae galw gan rieni am ofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael ei fodloni.

Mae gwahaniaethau o ran amgyffrediad a dealltwriaeth rhieni o ofal plant dwyieithog hefyd yn creu heriau o ran dehongli’r data a gasglwyd ar lefel awdurdod lleol. Mae angen mwy o ymchwil i ystyried sut y gellir casglu data’n fwy systematig ar gyfer asesu cyflenwad a galw am ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac ar gyfer sicrhau bod gan y gweithlu ddigon o allu i fodloni’r anghenion hyn.



## TWF: CYMORTH I FAGU PLANT YN DDWYIEITHOG

Mae Twf yn rhoi cyngor a chymorth am ddim i rieni ar fagu plant yn Gymraeg ac yn Saesneg o'u genedigaeth. Mae gwefan Twf ([www.twfcymru.com](http://www.twfcymru.com)) yn cynnwys adnoddau wedi eu hanelu at annog rhieni i gyflwyno'r iaith Gymraeg i'w plentyn o'u genedigaeth. Mae Twf yn hybu buddion gwneud hynny yn cynnwys y canlynol:

- mae'n rhoi dechrau da i'ch plentyn ddod yn ddwyieithog
- mae'n helpu eich plentyn wrth ddysgu darllen a chyfrif
- mae'n rhoi syniad o berthyn i'ch plentyn
- mae'n helpu eich plentyn i wneud ffrindiau a chael profiadau newydd

- mae'n dod yn haws dysgu iaith arall
- mae'n agor drysau i ddiwylliannau eraill
- mae'n rhoi'r fantais i blant yn y gwaith pan fyddant yn hŷn
- byddant yn cael y gorau o ddau fyd.

Mae swyddogion Twf yn trefnu grwpiau cymorth 'Amser Twf' lleol ar gyfer rhieni â babanod hyd at 12 mis oed. Maent hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid eraill y blynyddoedd cynnar ar Ddiwrnodau Hwyllog i'r teulu a hyrwyddo cyrsiau 'Cymraeg o'r Crud' ar gyfer rhieni. Mae Twf hefyd yn rhoi adnoddau a chyngor amrywiol i rieni yn cynnwys llyfrynnau, cylchlythyrau a CD o rigymau Cymraeg. Maent hefyd yn rhoi enghreifftiau o ymchwil sy'n dangos buddion dwyieithrwydd i blant.

## ANGHYDRADDOLDEBAU YN SGILIAU IAITH CYNNAR PLANT YN ÔL RHYW A LLE

Yn ogystal â'r anghydraddoldebau rhwng plant tlawd a'u cyfoedion, gan ddefnyddio data Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, gallwn edrych yn fanylach ar anghydraddoldebau yn natblygiad iaith yn ôl rhyw a lle.

Nid yw'r ystadegau ar gyfer asesu plant yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy gydol yr adran ganlynol yn asesiad o ddwyieithrwydd na'i effaith ar ddatblygiad iaith plant. Ni ellir cymharu'r ystadegau ar gyfer pob iaith yn uniongyrchol, yn bennaf am eu bod yn ymwneud â phlant gwahanol. Mae'r ystadegau a gyflwynir yn yr adran hon hefyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

### RHYW

Mae'r data'n ategu canfyddiad sydd hefyd yn cael ei arddangos yn ein hadroddiad lansio Darllena. Datblyga. – mae bechgyn yn perfformio'n llai da na


merched. Yn yr achos hwn, yn eu gallu ieithyddol yn saith oed, ond gwyddom hefyd bod hyn yn wir gyda darllen yn dda yn 11 oed.

Mae'r data'n dangos gwahaniaeth yn sgiliau iaith yn saith oed rhwng bechgyn a merched. Cyrhaeddodd 83% o fechgyn a aseswyd yn Saesneg y lefel ddisgwyliedig o'u cymharu â 91% o ferched. Yn yr un modd, cyrhaeddodd 86% o fechgyn a aseswyd yn y Gymraeg y lefel ddisgwyliedig o'u cymharu â 94% o ferched (gweler Ffigur 1.4 isod).

### RHANBARTHAU


Dangosodd y data hwn hefyd wahaniaeth bach yn sgiliau iaith plant yn saith oed ar draws rhanbarthau gwahanol Cymru. Roedd canran y plant sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg yn amrywio o 86% yng Nghanol De Cymru i 90% yn Ne Ddwyrain Cymru. Yn yr un modd, roedd canran y plant oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg yn amrywio o 88% yng Ngogledd Cymru i 91% yng Nghanol De Cymru (gweler ffigur 1.5 isod).

FFIGUR 1.4 CYFRAN Y PLANT YNG NGHYMUR SY’N CYRRAEDD Y SAFON DDISGWYLIEDIG YN IAITH A CHYFATHREBU YN SAITH OED.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

FFIGUR 1.5 CYFRAN Y PLANT YNG NGHYMUR SY’N CYRRAEDD Y SAFON DDISGWYLIEDIG YN IAITH A CHYFATHREBU (2014) YN SAITH OED FESUL RHANBARTH



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## DATBLYGIAD IAITH PLANT RHWNG TAIR A PHUMP OED: EFFAITH TLODI

Fel y nodwyd ar ddechrau'r Bennod hon, mae sgiliau iaith yn ddeinamig. Maent yn datblygu yn ystod blynyddoedd cyntaf bywyd, a thu hwnt. Mae'r canfyddiadau yr ydym wedi eu cyflwyno hyd yn hyn yn rhoi cipolwg ar anghydraddoldebau yn sgiliau iaith plant. Dengys y dystiolaeth ganlynol, eto'n defnyddio data o'r MCS, y ffordd y mae iaith plant yn datblygu rhwng tair a phump oed – gyda gwahaniaethau mawr rhwng plant sy'n cael eu magu mewn tlodi a'u cyfoedion mwy cefnog.

Dengys Ffigur 1.6 newidiadau yng nghyrrhaeddiad iaith plant rhwng tair a phump oed ar draws y DU. Mae'n dangos bod 58% o blant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig oedd ymysg y 40% uchaf o ran gallu geirfa yn dair oed wedi gostwng o dan y 40% uchaf erbyn pump oed. Mae hyn o'i gymharu â 30% o blant o'r cefndiroedd lleiaf difreintiedig. Dengys hyn fod plant tlawd sy'n perfformio'n well yn dair oed yn fwy tebygol na'u cyfoedion o golli'r fantais hon a bod ar ei hôl hi erbyn pump oed.

Yr hyn sy'n peri mwy o bryder hyd yn oed, yw os ydych yn perfformio'n wael yn dair oed rydych yn fwy tebygol o barhau i wneud hynny na phlant o gefndiroedd mwy cefnog. Dengys Ffigur 1.7 mai dim ond un mewn pedwar (25%) o blant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig a gafodd sgôr yn y 40% isaf o ran gallu geirfa yn dair oed oedd wedi codi uwchlaw'r


40% isaf yn bump oed. Mae hyn o'i gymharu â bron dau mewn tri (61%) o blant o'r cefndiroedd lleiaf difreintiedig. Dengys hyn fod plant tlawd yn llawer llai tebygol o ennill tir o ran gallu geirfa na'u cyfoedion mwy cefnog erbyn eu bod yn bump oed.

Yr hyn sy'n syfrdanol yw nad yw'r patrymau hyn yn newydd. Canfu ymchwil yn defnyddio Astudiaeth Carfan Prydain 1970 fod plentyn sy'n cael ei fagu mewn tlodi yn y 1970au yn llawer mwy tebygol o fod ar ôl cyfoedion mwy cefnog o ran gallu ieithyddol. Ond roedd hyd yn oed y rheiny oedd â lefelau datblygiad da yn ddwy oed, lawer mwy tebygol o fod ar ôl, bryd hynny, eu cyfoedion oedd yn perfformio'n gymharol waeth, ond yn fwy cefnog (Feinstein 2003).

## HER TLODI PLANT PARHAUS


Mae'r bennod hon wedi dangos bod plentyn sy'n cael ei fagu mewn tlodi lawer mwy tebygol o brofi oedi o ran iaith na'u cyfoedion mwy cefnog. Yr anghydraddoldeb hwn yw pam y mae ymgyrch *Darlenna. Datblyga.* yn canolbwyntio ar blant sy'n byw mewn tlodi.

Mae nod ein hymgyrch yn fwy heriol hyd yn oed yng nghyd-destun cyfradd tlodi plant sydd yn ystyfnig o uchel yng Nghymru. Mae adroddiad Achub y Plant 'Dechrau Teg i Bob Plentyn'(2014) yn disgrifio'r ffordd y mae teuluoedd yn wynebu 'melltith driphlyg' o flynyddoedd o gyflogau gwastad, pwysau'n ddiweddar ar wariant ar nawdd cymdeithasol a chostau byw



Ffynhonnell: Addaswyd o dablau yn Dearden et al. 2011

FFIGUR 1.7 CYFRAN Y PLANT A GODODD UWCHLAW'R 40% ISAF O RAN GALLU GEIRFA ERBYN PUMP OED



Ffynhonnell: Addaswyd o dablau yn Dearden et al (2011)

cynyddol yn cynnwys 'premiwm tlodi'. Roedd 59% o bobl a gymerodd ran yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, Mehefin 2015) o'r farn y bydd y bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn fwy mewn 25 mlynedd. Gyda niferoedd uchel o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru, mae'n debygol y byddwn yn parhau i weld plant yn profi oedi o ran iaith oni bai bod ymrwymiad enfawr ar draws cymdeithas i dorri'r cyswllt rhwng tlodi a datblygiad cynnar plant.

Dengys y dystiolaeth yn y bennod hon fod dwy ran o dair o blant sy'n cael eu magu mewn tlodi parhaus yng Nghymru yn cael sgôr islaw'r cyfartaledd mewn profion geirfa yn bump oed. Gallai niferoedd parhaus o blant sy'n profi tlodi olygu bod mwy o blant hyd

yn oed yn cael eu rhoi mewn perygl o oedi o ran iaith. Er mwyn cyrraedd ein nod bod pob plentyn yn cyflawni lefel dda o ran datblygiad iaith, mae'n rhaid i ni wneud llawer mwy.

Mae llawer o blant tlawd yn gwneud yn dda yn y blynyddoedd cynnar ac yn yr ysgol, ac mae'n rhaid i ni barhau i gael yr uchelgais uchaf ar gyfer bob plentyn. Ond mae tlodi'n rhwystr enfawr i blant, sy'n ei gwneud hi'n llawer mwy anodd iddynt wneud cynnydd. Mae strategaeth ddeuol, sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac yn gwella canlyniadau addysgol plant tlawd, yn hanfodol i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i lwyddo.

## MATER BYD-EANG

Mae gwledydd ar draws y byd yn ceisio ymgodymu â'r perygl uwch y mae plant sy'n cael eu magu mewn tlodi'n ei wynebu o ran datblygiad eu sgiliau iaith. Ceir tystiolaeth o fylchau tebyg yng Nghanada, Awstralia, yr UD (Bradbury et al 2011), Iwerddon (Williams et al 2013), ac yn Ethiopia, India, Peru a Vietnam (Boo 2014).

Mae ymchwilwyr wedi defnyddio arolygon cenedlaethol yng Nghanada, Awstralia a'r UD sy'n dangos yr un patrymau anfantais ag yn y DU rhwng

plant mewn tlodi a'u cyfoedion mwy cefnog. Roedd y bwlch rhwng plant mewn tlodi a'u cyfoedion mwy cefnog uchaf yn yr Unol Daleithiau a'r DU, ac isaf yng Nghanada ac Awstralia (Bradbury et al 2011).

Er ein bod yn canolbwyntio ar ddatblygiad iaith cynnar yng Nghymru yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cydnabod ar draws y byd bod yr un patrymau anfantais yn bodoli, gan gyfyngu cyfleoedd plant mewn bywyd yn annheg cyn iddynt ddechrau'r ysgol hyd yn oed.

# PENNOD 2. PAM MAE DATBLYGIAD IAITH CYNNAR YN HANFODOL AR GYFER DYSGU DARLLEN?

Nod ymgyrch *Darllena. Datblyga.* yw sicrhau bod pob plentyn 11 oed yng Nghymru yn darllen yn dda erbyn 2025. Yn y bennod hon rydym yn dangos pam fod sicrhau bod bob plentyn yn cyflawni lefel dda o ran datblygiad iaith erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol yn gam hanfodol i fodloni'r nod hwn.

Rydym yn dechrau trwy esbonio sut y mae iaith gynnar yn dylanwadu ar ddatblygiad sgiliau darllen plant yn yr ysgol gynradd.

Yna rydym yn nodi ymchwil newydd a gomisiynwyd gan ymgyrch *Darllena. Datblyga.* o Sefydliad Addysg UCL. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y graddau y mae sgiliau iaith cynnar plant yn effeithio ar eu gallu i ddarllen yn nes ymlaen. Rydym hefyd yn amlygu'r dystiolaeth bresennol ar effaith hirdymor gallu ieithyddol plentyn ar eu canlyniadau cymdeithasol, emosiynol ac addysgol eraill.

## SUT MAE GALLU IEITHYDDOL YN DYLANWADU AR SGILIAU DARLLEN PLANT?

Mae gallu ieithyddol plant yn effeithio ar ddysgu darllen mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gall plant sydd ag anawsterau 'ffonolegol' (anawsterau yn adnabod synau geiriau) gael anhawster yn 'datgodio' a deall geiriau wedi eu hargraffu (Catts 1989). Mae hyn yn arbennig o glir ymysg plant ag anableddau neu namau penodol (Stackhouse 2000).

Mae plant ifanc sy'n cael anawsterau yn deall y ffordd y mae brawddegau wedi eu strwythuro, ystyr geiriau neu'r defnydd cymdeithasol o iaith hefyd wedi dangos eu bod yn cael anawsterau yn darllen (Nation & Snowling 1998). Mae'r dystiolaeth unwaith eto yn arbennig o glir ymysg plant ag anabledd neu nam

penodol. Gall fod angen cydnabyddiaeth a chymorth proffesiynol i oresgyn yr anawsterau hyn.

Gall oedi o ran iaith, yn nodweddiadol ymysg plant sydd heb anabledd neu nam penodol, hefyd greu anawsterau ymarferol i blentyn sy'n ceisio dysgu darllen. Bydd geirfa gyfyngedig yn ei gwneud hi'n fwy anodd i blentyn wneud cynnydd i destunau mwy heriol. Gall sgiliau gwrando gwael ei gwneud hi'n fwy anodd i blant ganolbwyntio ar destunau hwy neu i ganolbwyntio ar ddeall ystyr testunau mwy cymhleth. Mae sgiliau cyfathrebu gwan hefyd yn ei wneud yn fwy anodd i blant ddeall 'rheolau cymdeithasol' iaith a'r ffordd y mae cyd-destun yn rhoi ystyr i eiriau. Gallai'r holl broblemau posibl hyn olygu, er y gall plant ddeall hanfodion darllen, nad oes ganddynt y sgiliau canolbwyntio a deall hanfodol ar gyfer datblygu hyder, rhuglder a mwynhad wrth ddarllen.

## DADANSODDIAD NEWYDD O SGILIAU IAITH A DARLLEN PLANT

Mae profiadau plant yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i'w cyrhaeddiad addysgol yn nes ymlaen. Mae astudiaeth Darpariaeth Effeithiol Addysg Cynysgol (EPPE) yn Lloegr wedi dangos bod profiad plant o ofal plant ac ansawdd yr amgylchedd dysgu yn y cartref yn parhau i fod yn agos gysylltiedig â'u cyrhaeddiad yn yr ysgol gynradd (Sammons et al 2008).

Comisiynodd ymgyrch Darllena. Datblyga. Sefydliad Addysg UCL i ddadansoddi effaith benodol sgiliau iaith plant yn bump oed ar eu sgiliau darllen a deall iaith yn saith ac yn 11 oed. Mae'r dadansoddiad newydd hwn yn defnyddio data sy'n gynrychioliadol yn genedlaethol o'r MCS, yn cynnwys profion i asesu sgiliau iaith cynnar plant, eu gallu i ddarllen a deall iaith. Mae hyn wedi ei nodi'n fanylach yn ffigur 2.1.

Hyd yn hyn, mae arolygon MCS wedi cael eu cynnal gan gwmpasu'r blynyddoedd cynnar (yn naw mis, a thair oed), a dechrau, canol a diwedd ysgol gynradd (pump, saith ac 11 oed). Caiff gwybodaeth fanwl ei chasglu ar ddatblygiad corfforol plant (fel eu taldra a'u pwysau), eu hamgylchiadau teuluol (fel incwm ac addysg rhieni), agwedd ac ymddygiad rhieni (fel safbwynt ar rianta a rhyngweithio gyda'u plentyn) ac mae hyd yn oed yn cynnwys gwybodaeth gan athrawon a brodyr a chwiorydd hŷn. Am wybodaeth fanylach am yr MCS gweler Atodiad 1.

Edrychodd ymchwilyr yn Sefydliad Addysg UCL ar y ffordd y mae sgiliau iaith cynnar plant yn effeithio ar eu gallu i ddarllen neu ddeall geiriau yn nes ymlaen mewn plentynod. Mae'r dadansoddiad yr ydym yn ei gyflwyno yn yr adrannau canlynol yn defnyddio techneg ystadegol sy'n rhoi cyfrif am ffactorau fel addysg rhieni, incwm ac ansawdd amgylchedd dysgu yn y cartref. Mae'n asesu a yw gallu ieithyddol plentyn ym bump oed yn effeithio ar eu gallu i ddarllen yn saith oed a dealltwriaeth o eiriau yn 11 oed pan mae'r holl ffactorau eraill hyn yn cael eu hystyried hefyd.

FFIGUR 2.1 GRADDFEYDD GALLU PRYDEINIG – PROFION O SGILIAU IAITH A DARLLEN PLANT YN YR MCS

Enw'r prawf	Oed a brofwyd	Disgrifiad
Prawf Geirfa Enwi BAS	3 a 5	Mae'r plant yn gweld cyfres o luniau o wrthrychau (fel pluen, neu ffynnon) a gofynnir iddynt eu henwi, defnyddir fel prawf o'u gallu llafar.
Prawf Gallu i Ddarllen BAS	7	Gofynnir i'r plentyn ddarllen cyfres o eiriau ar gerdyn, gan brofi eu gwybodaeth am ddarllen.
Prawf Tebygrwydd Llafar BAS	11	Darllenir tri gair i'r plentyn a gofynnir iddynt nodi sut maent yn debyg, gan brofi eu rhesymeg a'u gwybodaeth lafar.


Ffynhonnell: Addaswyd o Connelly (2013) a Hansen (2014)

Mae'r dadansoddiad yn gyntaf yn dangos bod plant a gafodd sgôr islaw'r lefel gyfartalog o ran gallu geirfa yn bump oed hefyd wedi gwneud hynny mewn profion darllen yn saith oed a phroffion deall iaith yn 11 oed.

Mae Ffigur 2.2 yn cymharu faint o blant yng Nghymru a gafodd sgôr uwchlaw ac islaw lefel gyfartalog gallu geirfa yn bump oed a gafodd sgôr islaw'r lefel darllen cyfartalog yn saith oed yn ôl eu profiad o dlodi. Mae'n dangos bod:

- 78% o blant a brofodd **dlodi ysbeidiol** ac wedi cael sgôr islaw lefel gyfartalog gallu geirfa yn bump oed hefyd wedi cael sgôr islaw lefel gyfartalog gallu darllen yn saith oed.

- 82% o'r rheiny a brofodd **dlodi parhaus** ac wedi cael sgôr islaw lefel gyfartalog gallu geirfa yn bump oed hefyd wedi cael sgôr islaw lefel gyfartalog gallu darllen yn saith oed.
- Mae hyn o'i gymharu â 66% o blant na chafodd unrhyw brofiad o dlodi ac a gafodd sgôr islaw lefel gyfartalog gallu geirfa yn bump oed a gafodd hefyd sgôr islaw lefel cyfartalog gallu darllen yn saith oed.
- Yn hanfodol, mae hefyd yn dangos i ni fod gan blant sydd â sgiliau iaith da yn bump oed ac yn cael profiadau parhaus o dlodi â siawns tebyg o fod ar ei hôl hi yn saith oed â'r plant hynny sydd â sgiliau iaith islaw'r cyfartaledd a heb unrhyw brofiad o dlodi: 61% a 66% yn y drefn honno.



Ffynhonnell: Dadansoddiad o Astudiaeth Carfan y Mileniwm camau 3 a 4 gan Sefydliad Addysg UCL




Mae Ffigur 2.3 yn dangos yr un dadansoddiad ond mae'n canolbwyntio ar ddeall iaith yn II oed. Mae hwn yn dangos patrymau debyg i'r rheiny yn saith oed yn ôl profiad o dlodi:

- Roedd plant gafodd sgôr geirfa islaw'r cyfartaledd yn bump oed ac wedi profi tlodi lawer mwy tebygol o fod islaw'r lefel gyfartalog o ran deall iaith yn II oed na'u cyfoedion mwy cefnog.
- Roedd plant gafodd sgôr islaw'r lefel gyfartalog o ran gallu geirfa yn bump oed ac erioed wedi profi tlodi yr un mor debygol â phlant gafodd sgôr

uwchlaw lefel gyfartalog o ran gallu geirfa ac wedi profi tlodi'n barhaus o fod islaw'r cyfartaledd o ran deall iaith yn II oed.

- Mewn darlun tebyg i'r hyn a welwyd yn saith oed, mae hyn hefyd yn dangos bod gan blant â sgiliau iaith da yn bump oed ac yn profi tlodi'n barhaus siawns tebyg o fod ar ei hôl hi yn II oed i'r plant hynny sydd â sgiliau iaith islaw'r cyfartaledd a heb unrhyw bofiad o dlodi: 51% a 55% yn y drefn honno.



Ffynhonnell: Dadansoddiad o Astudiaeth Carfan y Mileniwm camau 3 a 4 gan Sefydliad Addysg UCL

Nesaf, mae'r dadansoddiad yn edrych ymhellach ar y patrymau hyn i weld sut mae gallu plant o ran geirfa a'u profiad o dlodi yn rhagfynegi eu gallu i ddarllen a deall iaith yn saith ac 11 oed.

Mae'r dadansoddiad yn defnyddio techneg ystadegol o'r enw dadansoddiad atchweliad lluosog. Mae hyn yn asesu cryfder y dylanwadau ar allu plentyn i ddarllen yn saith oed a'u gallu i ddeall yn 11 oed.

Mae'r dadansoddiad hwn yn ystyried ystod o ffactorau gwahanol yn cynnwys:

- gallu ieithyddol yn bump oed
- profiad o dlodi trwy gydol plentynod
- rhyw
- addysg rhieni
- amgylchedd dysgu yn y cartref.


Rydym yn talu sylw penodol i effaith sgorau geirfa yn bump oed a phrofiad plant o dlodi. Mae mwy o fanylion am effaith ffactorau eraill wedi eu cynnwys yn y tablau atchweliad llawn yn Atodiad 2.

Ar draws y DU, mae'r dadansoddiad yn dangos bod gallu geirfa plentyn yn bump oed yn agos gysylltiedig â'u sgiliau darllen yn saith oed. Hyd yn oed pan fydd ystod o ffactorau gwahanol yn cael eu hystyried, roedd plentyn oedd â sgôr islaw lefel gyfartalog gallu geirfa yn llawer yn llai tebygol o gael sgôr da o ran gallu i ddarllen yn saith oed.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod profiad plentyn o dlodi'n agos gysylltiedig â'u gallu i ddarllen yn saith oed. Yn arbennig, mae'n dangos bod plant oedd wedi profi tlodi'n barhaus trwy gydol y blynyddoedd cynnar yn llawer llai tebygol o wneud yn dda yn darllen na phlant eraill yn saith oed.

Mae Ffigur 2.4 yn edrych ar y canfyddiadau hyn yn fanylach trwy ddangos y cysylltiad cyfunol o allu geirfa plant a'u profiad o dlodi ar eu sgôr yn darllen yn saith oed. Mae'n dangos bod:

- Plentyn oedd â sgôr iaith uwchlaw'r cyfartaledd mewn profion geirfa yn bump oed a heb unrhyw brofiad o dlodi wedi cael sgôr, ar gyfartaledd, 16% yn uwch na phlentyn oedd hefyd wedi cael sgôr uwchlaw'r cyfartaledd, ond wedi profi tlodi parhaus.
- Plentyn oedd wedi cael sgôr iaith islaw'r cyfartaledd yn bump oed a heb unrhyw brofiad o dlodi wedi cael sgôr, ar gyfartaledd, 17% yn uwch na phlentyn oedd hefyd wedi cael sgôr uwchlaw'r cyfartaledd ond wedi profi tlodi parhaus.
- Plentyn oedd wedi cael sgôr uwchlaw'r cyfartaledd yn bump oed a heb gael unrhyw brofiad o dlodi wedi cael sgôr, ar gyfartaledd, 35% yn uwch na phlentyn oedd wedi cael sgôr islaw'r cyfartaledd yn bump oed ac wedi profi tlodi parhaus.



Ffynhonnell: Dadansoddiad o Astudiaeth Carfan y Mileniwm camau 3 a 4 gan Sefydliad Addysg UCL

Mae'r dadansoddiad hefyd yn asesu'r ffordd y mae gallu ieithyddol plant yn bump oed yn gysylltiedig â'u dealltwriaeth o iaith yn 11 oed.

Er nad yw'r prawf darllen a deall hwn yn asesu gallu plentyn i ddarllen yn uniongyrchol, mae'n profi eu dealltwriaeth o iaith sydd, fel yr ydym wedi amlygu, yn sgil hanfodol er mwyn i blentyn allu darllen yn dda.


Gan reoli ystod o ffactorau, mae'r dadansoddiad yn canfod bod gallu geirfa plant yn bump oed yn dal yn agos gysylltiedig â'u sgiliau deall yn 11 oed.

Mae hyn yn golygu bod plentyn a gafodd sgôr islaw'r cyfartaledd mewn profion geirfa yn bump oed lawer llai tebygol o wneud mor dda mewn prawf o'u sgiliau deall yn 11 oed, o'u cymharu â phlentyn a gafodd sgôr uwchlaw'r cyfartaledd yn bump oed.

Fel y canfyddiadau ar gyfer darllen, dengys y dadansoddiad fod plentyn sydd wedi profi tlodi yn barhaus yn llai tebygol hyd yn oed o wneud yn dda mewn prawf o'u sgiliau deall yn 11 oed na phlentyn sydd erioed wedi profi tlodi.

Mae Ffigur 2.5 yn edrych yn fanylach ar hyn trwy gyfuno effaith gallu iaith plentyn â'u profiad o dlodi. Mae'n dangos bod:

- Plentyn gafodd sgôr uwch na'r cyfartaledd mewn geirfa yn bump oed a heb gael unrhyw brofiad o dlodi yn cael sgôr, ar gyfartaledd, 8% yn uwch na phlentyn a gafodd hefyd sgôr uwchlaw'r cyfartaledd yn bump oed ond oedd wedi profi tlodi'n barhaus.
- Plentyn gafodd sgôr islaw'r cyfartaledd mewn geirfa a heb unrhyw brofiad o dlodi yn bump oed yn cael sgôr, ar gyfartaledd, 12% yn uwch na phlentyn a gafodd hefyd sgôr islaw'r cyfartaledd ond oedd wedi profi tlodi'n barhaus.
- Plentyn gafodd sgôr uwchlaw'r cyfartaledd mewn geirfa yn bump oed a heb unrhyw brofiad o dlodi yn cael sgôr, ar gyfartaledd, 22% yn uwch na phlentyn a gafodd sgôr islaw'r cyfartaledd yn bump oed ac oedd wedi profi tlodi'n barhaus.



Ffynhonnell: Dadansoddiad o Astudiaeth Carfan y Mileniwm camau 3 a 4 gan Sefydliad Addysg UCL

Yn olaf, mae'r dadansoddiad hefyd yn edrych ar amrywiadau yn ôl rhyw. Mae'r dadansoddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ar gyfer y DU yn hytrach na Chymru, am fod maint y sampl yn mynd yn rhy fach ar lefel genedlaethol pan gaiff ei ddadansoddi yn ôl tlodi a rhyw i fod yn gadarn yn ystadegol ar gyfer y dadansoddiad atchweliad. Fodd bynnag, er mai canfyddiadau'r DU yw'r rhain, gallwn fod yn gymharol hyderus eu bod yn dangos y sefyllfa ar gyfer bechgyn a merched yng Nghymru.

Wrth gymharu bechgyn gyda bechgyn eraill, neu ferched gyda merched eraill, nid yw'r dadansoddiad yn canfod llawer o amrywiaeth rhwng effaith tlodi a sgorau geirfa ar allu bechgyn a merched i ddarllen a deall. Er enghraifft, mae'r dadansoddiad yn dangos bod:

- Merched oedd wedi profi tlodi parhaus â sgôr islaw'r cyfartaledd mewn geirfa yn bump oed 35% yn fwy tebygol o fod y tu ôl eu cyfoedion oedd erioed wedi profi tlodi â sgôr uwch na'r cyfartaledd mewn geirfa, o'u cymharu â 32% o fechgyn.
- Roedd bechgyn a merched oedd wedi profi tlodi parhaus â sgôr islaw'r cyfartaledd o ran gallu geirfa yn bump oed 20% yn fwy tebygol o fod y tu ôl eu cyfoedion oedd erioed wedi profi tlodi â sgôr uwchlaw'r cyfartaledd o ran gallu geirfa.

Nid yw'r ffigurau hyn yn dangos llawer o amrywiad rhwng bechgyn a merched o ran y berthynas rhwng tlodi a gallu ieithyddol yn ymwneud â darllen a darllen a deall.

## BUDDION EHANGACH GALLU IEITHYDDOL DA YN Y BLYNYDDOEDD CYNNAR I BLANT

Ein nod dros dro yw i bob plentyn gyflawni lefel dda o ran datblygiad iaith erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol, er mwyn cefnogi nod gyffredinol ein hymgyrch o gael pob plentyn yn darllen yn dda yn 11 oed. Mae'r gallu i gyfathrebu'n dda gydag eraill trwy iaith lafar yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd. Mae'r dystiolaeth ehangach yn dangos bod sgiliau iaith da nid yn unig o fudd i ddarllen plant, ond mae hefyd ystod eang o fuddion cadarnhaol i blant trwy gydol eu bywyd.

Mae datblygiad iaith cynnar plant yn parhau i effeithio ar eu canlyniadau addysg cyffredinol trwy gydol yr ysgol gynradd (Snowling et al 2011). Mae oedolion ifanc oedd â diffyg sgiliau iaith cryf yn gynnar yn eu plentyndod mewn perygl o fod allan o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant rhwng 16 a 18 oed (ICAN 2006). Mae gallu ieithyddol cynnar plentyn hefyd yn ddangosydd da o'u llythrennedd fel oedolion. Mae ymchwil yn defnyddio data o Astudiaeth Carfan Prydain 1970 wedi dangos bod sgôr geirfa plant yn bump oed yn gysylltiedig â'u llythrennedd fel oedolion yn 34 oed (Schoon 2010a).

Mae ymchwil yn defnyddio Astudiaeth Carfan Prydain 1970 hefyd wedi dangos bod gallu ieithyddol plant yn agos gysylltiedig â chanlyniadau eraill. Canfu ymchwilwyr oedd yn archwilio canlyniadau iechyd meddwl yn 34 oed fod plant sy'n cael anawsterau gydag iaith yn bump oed mewn perygl uwch o brofi materion iechyd meddwl (Schoon 2010b). Mae ymchwilwyr hefyd wedi canfod bod plant â gallu ieithyddol da yn bump oed yn fwy tebygol o gael cymwysterau uwch a bod mewn cyflogaeth pan fyddant yn oedolion o'u cymharu â'u cyfoedion (Feinstein 2006).

Mae llawer o ffactorau trwy gydol bywyd plentyn a all effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol, eu hiechyd meddwl neu eu canlyniadau cyflogaeth. Ond mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod helpu pob plentyn i gael dechrau da o ran eu sgiliau iaith yn rhan hanfodol o wella cyfleoedd bywyd plant, yn arbennig y rheiny sy'n cael eu magu mewn tlodi.

# PENNOD 3. BETH SY’N DYLANWADU AR DDATBLYGIAD IAITH PLANT IFANC?

Mae angen cymorth ar blant ifanc iawn i ddatblygu eu sgiliau iaith, ymhell cyn iddynt ddechrau’r ysgol ac yn arbennig cyn tair oed, pan mae eu datblygiad yn fwyaf tyngedfennol. Mae’r Bennod hon yn nodi’r prif ddylanwadau ar ddatblygiad iaith plant yn y blynyddoedd cyn iddynt ddechrau’r ysgol, ac yn canolbwyntio ar rôl hanfodol rhieni ac effaith tlodi.

Mae sgiliau iaith cryf yn datblygu orau pan fydd plant yn profi amgylcheddau sy’n maethu, ysgogi ac yn gyfoethog o ran iaith yn y cartref a’r gymuned ehangach. Mae gweithgareddau syml fel darllen, siarad a chwarae yn gwneud gwahaniaeth mawr. Gall y profiadau hyn helpu i amddiffyn plant rhag effaith tlodi ac mae ganddynt y potensial i helpu i drawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd. Ond mae rhieni ag incwm isel yn aml yn ei chael hi’n llawer mwy anodd cynnig y profiadau hyn, a gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

I blentyn, y berthynas bwysicaf a mwyaf dwys yn ystod blynyddoedd cyntaf bywyd yw gyda’u rhieni neu eu prif ofalwyr. Mae bywydau plant hefyd yn cynnwys perthnasau, brodyr a chwirydd, cyfoedion, meddygon, ymwelwyr iechyd, staff meithrin ac amrywiaeth o bobl eraill. Mae’r berthynas gyda’r holl bobl hyn yn digwydd mewn amgylcheddau gwahanol. Y rhai pwysicaf yw’r rhai yn y cartref, ond mae perthynas plant â phobl eraill hefyd yn digwydd ar y stryd, yn y parc, yn y feddygfa, mewn meithrinfeydd, gyda gofalwyr plant, mewn grwpiau chwarae a llawer o fannau eraill.

Mae sgiliau iaith plentyn yn datblygu trwy ryngweithio gyda’r holl bobl y maent yn dod i gysylltiad â nhw, ac yn yr amgylcheddau lle mae’r rhyngweithio hyn yn digwydd. Mae cydberthynas sy’n meithrin ac yn sefydlog gyda gofalwyr sy’n oedolion yn arbennig o bwysig (Cyngor Gwyddonol Cenedlaethol ar y Plentyn sy’n Datblygu, 2007).

Yn y bennod hon, rydym yn archwilio’r prif ddylanwadau ar ddatblygiad iaith cynnar plant, gan ganolbwyntio ar:

- bwysigrwydd datblygiad cynnar plant yn pennu eu sgiliau iaith— sy’n amlygu pwysigrwydd cefnogi datblygiad iaith plant o’u genedigaeth
- rôl hanfodol rhieni – yn dangos mai’r hyn y mae rhieni’n ei wneud sy’n bwysig yn y pen draw, nid pwy ydynt na faint o arian sydd ganddynt
- effaith tlodi – yn dangos bod tlodi’n ei wneud yn fwy anodd i rieni gefnogi dysgu cynnar eu plentyn ac yn amlygu’r angen am wasanaethau teulu o ansawdd uchel
- rôl addysg gynnar – yn amlinellu rôl addysg gynnar o ansawdd uchel i ategu dylanwad rhieni, yn arbennig ar gyfer y plant tlotaf.

## GENYNNAU A GALLU CYNHENID

Gall ffactorau genetig a gallu cynhenid plentyn gael dylanwad arwyddocaol ar ddatblygiad iaith, ond anaml y maent yn pennu sgiliau iaith plant yn gyfan gwbl.

I bob plentyn, hyd yn oed y rheiny â'r anableddau mwyaf difrifol, mae sgiliau iaith yn cael eu llunio gan ffactorau etifeddol ac amgylcheddol. Mae sgiliau iaith yn gynnwys rhyngweithio parhaus rhwng


profiadau cynnar plant a galluoedd cynhenid trwy gydol eu blynyddoedd cynnar (Cyngor Gwyddonol Cenedlaethol ar y Plentyn sy'n Datblygu 2007). Er y gall gallu cynhenid plentyn ddylanwadau ar agweddau penodol o ddatblygiad eu hiaith, pan fydd hyn o bosibl yn negyddol, gellir ei leddfu trwy rianta cadarnhaol neu addysg gynnar o ansawdd uchel (Heckman 2011).

## PWYSIGRWYDD DATBLYGIAD CYNAR

Dengys dadansoddiad o ddata MCS fod sgiliau iaith plentyn yn dair oed yn rhoi cyfrif am hanner y gwahaniaeth yn sgiliau iaith plant yn bump oed rhwng plant o'r teuluoedd mwyaf cyfoethog a thlotaf (Dearden et al 2011). Mae hyn yn dangos pwysigrwydd hanfodol gweithredu'n gynnar i gefnogi datblygiad iaith cynnar plant, i nodi problemau a sicrhau bod plant sydd angen cymorth ychwanegol yn cael y cymorth cywir. Mae aros nes bod plentyn yn dechrau'r ysgol yn ei adael yn rhy hwyr.

Mewn gwirionedd, mae aros nes bod plentyn yn dechrau addysg gynnar yn dair oed hefyd yn rhy hwyr i ddechrau canolbwyntio ar sgiliau iaith plant. Mae babanod yn cael eu geni yn barod i ddysgu iaith ac mae angen ysgogiad ac anogaeth arnynt i ddatblygu eu sgiliau iaith, o'u genedigaeith. Gall siarad, darllen, chwarae a chanu gyda phlentyn ifanc iawn hyd yn oed gael effaith sylweddol ar ddatblygiad iaith cynnar, ac felly ar eu gallu i ddysgu pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol feithrin ac yna'r ysgol gynradd.

FFIGUR 3.1: DYLANWADAU AR ALLU IEITHYDDOL YN BUMP OED



Ffynhonnell: Dearden et al (2010)

## RÔL HANFODOL RHieni, GOFALWYR A'R AMGYLCHED DYSGU YN Y CARTREF

Y dylanwad mwyaf ar sgiliau iaith plant ifanc, y tu hwnt i'w gallu blaenorol, yw eu rhieni neu eu gofalwyr.

Mae'r dylanwad hwn yn digwydd mewn dwy ffordd:

1. Yn anuniongyrchol, trwy ymddygiad bob dydd rhieni a gofalwyr: y ffordd y mae oedolion allweddol yn rhyngweithio gyda phlentyn, fel pa mor aml y maent yn siarad â phlentyn neu sut maent yn gosod ffiniau ar ymddygiad plentyn
2. Yn uniongyrchol, trwy amgylchedd dysgu'r cartref: ymgysylltu rhieni yn nysg cynnar eu plentyn ac ansawdd y cyfleoedd dysgu yn y cartref, yn cynnwys mynediad i deganau a llyfrau.

Mae'r rhain yn ddylanwadau arbennig o bwysig ar gyfer y plant ifancaf, sydd heb fynychu addysg feithrin ffurfiol eto. Mae ansawdd ymddygiad rhieni a'r amgylchedd dysgu yn y cartref yn cael effaith arbennig o gryf ar ddatblygiad iaith plant yn dair oed ac mae hyn yn hanfodol ar gyfer pennu sgiliau iaith plant yn bump oed.

## ARDDULLIAU AC YMDYGIAD RHiantA

Y berthynas rhwng rhiant neu ofalwr a phlentyn ifanc yw un o'r dylanwadau pwysicaf ar ddatblygiad iaith cynnar. Pan fydd gan blant berthynas gadarn gyda'r oedolion yn eu bywydau, maent yn fwy tebygol o ddatblygu sgiliau iaith da. Mae cwlwm cryf gyda rhiant neu ofalwr yn rhoi hyder ac ysgogiad i blant ifanc archwilio'r byd o'u hamgylch – yn cynnwys y defnydd o iaith (Ijzendoorn et al 2006).

Mae blynyddoedd cyntaf bywyd plentyn yn arbennig o bwysig i osod y sylfeini ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Mae ymennydd plentyn yn dyblu mewn maint yn y flwyddyn gyntaf ac erbyn tair oed, mae wedi cyrraedd tua 80% o'i faint fel oedolyn (Rakic 2006). Mae'r ffordd y mae ymennydd plant yn datblygu yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn, yn cynnwys eu gallu i dderbyn iaith, yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan gryfder yr ymlyniad rhwng rhiant a phlentyn (White, Field a Weedon 2013). Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod 'agosatrwydd' rhwng mam a'i phlentyn yn nodweddiadol yn wannach ymysg plant sy'n cael eu magu mewn tlodi, a allai fod â goblygiadau o ran datblygiad cynnar eu hiaith (Dearden et al 2010).

Gall y ffordd y mae rhiant yn defnyddio iaith o amgylch eu plentyn ifanc hefyd gael dylanwad mawr ar sgiliau iaith eu plentyn. Er enghraifft, gall gael effaith sylweddol ar faint geirfa plentyn a'u dealltwriaeth o ramadeg (Huttenlocher et al 1991, Naigles a Hoff-Ginsberg 1998). Gall y defnydd o iaith gadarnhaol ac anogol roi hyder i blant gymryd rhan mewn sgysiau a rhoi cynnig ar eiriau neu ymadroddion newydd (Hart a Risley 1995). Gall gofyn cwestiynau agored a rhoi amser i blant feddwl ac ymateb annog plant i arbrofi gyda ffyrdd o fynegi eu hunain. Mewn gwrthgyferbyniad, gall defnydd gormodol o iaith negyddol, cwestiynau caeedig neu gyfarwyddiadau byr gyfyngu hyder plentyn wrth ddatblygu sgiliau iaith mwy cymhleth.

## YMGYRCH LLYWODRAETH CYMRU: MAE ADDYSG YN DECHRAU YN Y CARTREF

Nod yr ymgyrch hwn, a lansiwyd ym mis Ebrill 2014, yw helpu rhieni i gefnogi eu plant gydag awgrymiadau a gweithgareddau i annog dysgu plant yn y cartref. Ei fwriad yw ategu ymgyrchoedd pellach ar gyfer rhieni gan yr Adran Addysg a Sgiliau ar lythrennedd a rhifedd yn cynnwys 'Gwnewch amser i ddarllen' a 'Mae eich geiriau'n cyfri'.

Yn benodol, mae'r ymgyrch yn targedu rhieni a gofalwyr mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, rhaglen sy'n cefnogi'r bobl o dan yr anfantais fwyaf yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Nod yr ymgyrch yw cyfrannu at leddfdu tlodi parhaus gyda'r neges y gall rhieni gefnogi eu plant mewn ffyrdd

bychain. Gall pethau fel eu rhoi yn y gwely ar amser, helpu gyda darllen, eu hatgoffa i wneud eu gwaith cartref a rhoi'r hyder iddynt wneud yn dda, gael effaith sylweddol ar gyfleoedd eu plentyn yn yr ysgol.

Mae'r ymgyrch yn defnyddio ystod o dechnegau a sianeli cyfathrebu i ymgysylltu â rhieni. Cynhaliwyd sioeau teithiol cychwynnol 'Mae addysg yn Dechrau yn y Cartref' yn Wrecsam a Chaerffili ar ddechrau 2015, a chymerodd bron 2,000 o bobl ran. Yn dilyn ymlaen o'r llwyddiant hyn a thrwy weithio gyda Chymunedau yn Gyntaf, cynhaliwyd 16 o ddigwyddiadau pellach mewn archfarchnadoedd ledled Cymru yn ystod Mawrth ac Ebrill 2015.

Cynhaliwyd ymgyrch radio dwyieithog ar orsafoedd radio lleol. Mae Facebook, Twitter a Gweithgareddau Diwrnod y Llyfr hefyd wedi cael eu defnyddio i rannu'r neges ledled Cymru.



YR AMGYLCHEDD DYSGU YN Y CARTREF


Yn ogystal â dylanwad uniongyrchol ymddygiad rhieni, mae gan rieni hefyd rôl sylweddol yn creu amgylchedd dysgu yn y cartref ar gyfer plant ifanc iawn. Nid oes unrhyw ateb penodol ar gyfer creu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref ond mae'r elfennau arferol yn cynnwys:

- darllen yn rheolaidd gyda phlentyn
- chwarae gyda phlentyn
- helpu plentyn i ddarllen llythrennau neu rifau
- dysgu caneuon, cerddi neu rigymau i blentyn
- helpu plentyn i baentio, tynnu llun neu gymryd rhan mewn gweithgareddau crefft eraill
- cael mynediad i ystod o lyfrau a theganau
- mynd â phlentyn i'r llyfrgell.

Amlygodd astudiaeth EPPE yn Lloegr ddylanwad pwerus yr amgylchedd dysgu yn y cartref ar ddysgu cynnar plant (Sammons et al 2002). Gwnaeth plant ifanc gynydd gwell yn natblygiad cynnar eu hiaith o'u cymharu â'u cyfoedion pan oedd rhieni'n darllen iddynt bob dydd, yn mynd â nhw i'r llyfrgell yn rheolaidd, neu'n eu hannog i ddysgu caneuon a rhigymau. I'r gwrthwyneb, gwnaeth plant lai o gynydd wrth dreulio cyfnodau hir yn chwarae gyda phlant eu hoedran eu hunain – roedd rhyngweithio gydag oedolion yn hanfodol i ysgogi datblygiad iaith plant.

Mae sawl astudiaeth o'r UD yn rhoi mwy o bwysau ar bwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y cartref i blant ifanc. Canfu Rodriguez et al (2009) fod profiad plant o weithgareddau iaith a llythrennedd o 14 mis ymlaen wedi cael effaith sylweddol ar eu gallu ieithyddol yn dair oed. Canfuant hefyd fod pob agwedd ar weithgareddau iaith cynnar yn gwneud cyfraniad unigryw, yn cynnwys amllder cyfranogiad plentyn mewn gweithgaredd, ansawdd ymgysylltiad rhieni â'u plentyn, ac argaeledd adnoddau ffisegol. Mae hyn yn awgrymu bod gweithgareddau gwahanol, wedi eu sefydlu yn gynnar iawn, yn atgyfnerthu ei gilydd dros amser i hybu sgiliau iaith cynnar plant.

Mae Arolwg Cenedlaethol blynyddol Cymru yn casglu tystiolaeth am yr amllder y mae rhieni'n ymgysylltu â'u plant trwy edrych ar lyfrau, helpu gyda llythrennau, rhifau a siapau, a'u helpu i ddarllen neu ysgrifennu. Mae Ffigur 3.2 yn dangos ymgysylltiad rhieni mewn gweithgareddau gyda'u plant. Mae'r data'n dangos bod canran uwch o rieni'n edrych ar lyfrau neu'n darllen straeon i'w plentyn bob dydd nag sydd yn eu helpu i ddarllen neu ysgrifennu neu'n helpu gyda gwaith ysgol bob dydd. Ym mhob un o'r pedwar gweithgaredd, mae canran y rhieni sy'n helpu plentyn bob dydd gyda gweithgaredd yn lleihau wrth i nifer y plant yn y cartref gynyddu.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2014

## PA WEITHGAREDDAU YMARFEROL SY'N CEFNOGI DATBLYGIAD IAITH CYNNAR PLANT?

Mae'n hanfodol bod pob oedolyn ym mywyd plentyn yn deall, trwy gymryd amser i siarad neu i wrando ar blant, eu bod yn cyfrannu at ddatblygiad cynnar eu hiaith. Gall gweithredoedd syml fel darllen, canu, chwarae a siarad â phlant ifanc wneud byd o wahaniaeth – yn arbennig i blant sy'n byw mewn tloidi.

**Siarad babi:** Gall pwysleisio llafariadaid a sillafau pwysig, a defnyddio llais bywiog, uchel wedi ei orliwio wrth siarad â phlant ifanc iawn eu helpu i ddysgu geiriau yn gynt. Mae ymchwil yn dangos y gall arddull lleferydd gael effaith yr un mor bwysig ar ddatblygiad iaith plant ifanc â'r nifer o eiriau y maent yn eu clywed (Hart & Risley 1995)

**Enwi llythrennau:** Mae dysgu'r synau y mae llythrennau gwahanol yn eu gwneud yn helpu plant i ddeall sut y mae geiriau'n gweithio (Bond a Dyksta 1967). Mae chwarae gemau er mwyn adnabod llythrennau a rhoi cyfarwyddiadau manwl i blant ynghylch sut i adnabod llythrennau yn yr wyddor i gyd yn weithgareddau all wella gallu plant i enwi llythrennau cyn iddynt ddechrau'r ysgol.

**Sgwrsio:** Mae deialog dwy ffordd, lle mae oedolyn yn rhoi sylw unigryw i blentyn, yn rhoi hyder i blant ifanc siarad, ymateb a gofyn neu ateb cwestiynau. Ymddengys bod cyfathrebu un i un rhwng oedolyn a phlentyn yn cyflymu datblygiad iaith o'i gymharu â thrafodaeth grŵp, pan mae plant yn ifanc iawn. Mae darllen ar y cyd yn hwyluso'r math yma o ryngweithio (Burnett, Daniels a Bailey 2014).

**Chwarae, caneuon a gemau:** Gall caneuon, rhigymau a gemau geiriau syml helpu plant ifanc i dorri synau a geiriau i lawr, a deall patrymau iaith (Modean, Bryant a Bralley 1987). Gall chwarae helpu i ysgogi defnydd plant o eiriau i gyfathrebu ac archwilio syniadau (O'Brien a Nagle 1987).

**Dweud straeon a darllen rhyngweithiol:** Mae darllen yn rheolaidd gyda phlant ifanc yn hanfodol i ddatblygu eu sgiliau darllen ac iaith. Mae darllen yn rheolaidd i blant ifanc iawn yn eu helpu i ddysgu sut i ddweud geiriau allan yn uchel ac yna datblygu eu geirfa (Bus et al 1995). Gall darllen rhyngweithiol a dweud straeon annog plant i drafod yr hyn y maent wedi ei ddarllen a defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i ragfynegi'r hyn fydd yn digwydd nesaf (Senechal et al 1995).

**Teledu:** I blant dros ddwy oed, gall gwyllo teledu plant o ansawdd uchel sy'n briodol i'w hoed gynorthwyo datblygiad iaith. Ond gallai oriau hir o flaen rhaglenni cyffredinol fod yn niweidiol, am nad oes llawer o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ystyrion (NLT 2004). Mae ymchwil wedi canfod bod yr amser yr oedd teledu (rhaglenni oedolion a phlant) ymlaen yn y cartref pan oedd plant o dan ddwy yn rhagfynegi cyflawniad wrth ddechrau'r ysgol: wrth i'r amser gynyddu, roedd sgôr y plentyn wrth ddechrau'r ysgol yn gostwng (Roulstone et al. 2011)

**Technoleg ddigidol:** Mae gan dros 90% o blant tair i bump oed fynediad i dechnoleg sgrin gyffwrdd yn y cartref, yn ôl ymchwil ddiweddar gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol mewn partneriaeth â Pearson (Formby, 2014). Gall technoleg gynorthwyo dysgu cynnar plant, er enghraifft, trwy gemau rhyngweithiol ac aps sy'n datblygu geirfa neu ddealltwriaeth. Mae angen mwy o ymchwil i ddeall sut mae mynediad i dechnoleg ddigidol yn llunio datblygiad iaith plant ifanc a'r ffordd orau o'i defnyddio i gynorthwyo dysgu plant (Levy 2014).

Er bod dechrau cyn gynted â phosibl yn bwysig, mae astudiaethau hefyd yn dangos y gall newidiadau i amgylchedd dysgu'r cartref hefyd effeithio ar ddysgu cynnar plant, hyd yn oed os caiff ei gyflwyno ar ôl y flwyddyn neu ddwy cyntaf (Son a Morrison 2010). Mae hyn yn golygu nad yw byth yn rhy hwyr i rieni ddechrau cymryd mwy o ran yn nysg eu plant.

Yn bwysig iawn, mae ymchwilwyr wedi dangos bod dylanwad yr amgylchedd dysgu yn y cartref yn gweithredu'n annibynnol ar incwm neu ddsbarth cymdeithasol teulu i ryw raddau (Sammons et al 2002, Roulstone et al 2010). Roedd teuluoedd oedd yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref yn helpu i hybu datblygiad iaith cynnar eu plentyn,

## RHIGWM AC ODL

Mae Rhigwm ac Odl yn weithgaredd arloesol sy'n digwydd yn y Llyfrgell Sirol yn y Barri. Mae grŵp o ryw 20 o oedolion a'u plant rhwng chwe mis a dwy oed yn mynychu sesiynau rheolaidd i alluogi plant a rhieni i gyfathrebu cyn y gall y plant siarad. Mae'r sesiynau yn cynnwys rhigymau a chaneuon ynghyd ag ystod o arwyddion fel y rheiny sy'n golygu 'mwy', 'brifo', 'llaeth' a 'stop'. Mae'r gweithgareddau

yn rhoi plant ar ben y ffordd o ran datblygiad iaith, ac yn helpu i leihau rhwystredigaeth a chryfhau'r cwlwm rhwng rhiant a phlentyn. Anogir rhieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r arwyddion yn y cartref. Mae rhieni'n nodi bod eu babis yn gallu canolbwyntio'n well ac yn fwy hyderus yn rhyngweithio gyda phlant eraill o ganlyniad i fynychu'r sesiynau.

hyd yn oed os oeddent yn byw mewn tlodi. Mewn gwirionedd, canfuwyd bod amgylchedd dysgu da yn y cartref yn bwysicach yn pennu pa mor dda yr oedd iaith plant ifanc yn datblygu na dosbarth cymdeithasol nac addysg rhieni (Melhuish et al 2010). Mae hyn yn awgrymu bod gan amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref y potensial i helpu plant i oresgyn rhai o anfanteision cael eu magu mewn tlodi. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adran nesaf, gall rhai rhieni ar incwm isel ei chael hi'n fwy anodd cymryd gymaint o ran yn nysg cynnar eu plentyn na rhieni mwy cefnog.

## EFFAITH TLODI AR DDATBLYGIAD IAITH PLANT IFANC

Mae'r dystiolaeth yn glir mai'r hyn y mae rhieni'n ei wneud sydd bwysicaf i ddatblygiad cynnar plant, nid pwys ydynt neu faint o arian sydd ganddynt. Fodd bynnag, gall tlodi gael effaith sylweddol ar ddatblygiad cynnar plant trwy ddylanwadu ar yr hyn y gall rhieni ei wneud a sut maent yn ei wneud.

Mae'n hysbys bod tlodi'n effeithio ar ddysg plant yn annibynnol ar ddylanwadau eraill, ac yn bennaf trwy

ddau lwybr (Cooper a Stewart 2013). I ddechrau, ac yn fwyaf pwysig mwy na thebyg, mae ymdopi ar incwm isel yn creu straen a phryder ac yn aml yn gwneud rhieni'n rhwystredig, yn ddiymadferth ac yn isel (Magnusson a Duncan 2002). Gall hyn ei wneud yn fwy anodd i rieni ddangos ymddygiad cadarnhaol yn barhaus ac i barhau i gymryd rhan yn nysg eu plant. Er enghraifft, gall straen a phryder gormodol arwain at rieni'n ymateb i'w plant mewn ffordd feiriadol neu gosbol, a all atal ymdrechion plant i arbrofi gydag iaith (Webster-Stratton 2007).

Mae profi tlodi hefyd yn gysylltiedig â pherygl uwch o salwch meddwl. Mae iselder ymysg mamau yn gysylltiedig â datblygiad gwybyddol gwaeth ymysg plant ifanc (Lucchese et al 2010). Gall iselder leihau sensitifrwydd rhiant i anghenion iaith cynnar eu plentyn a lleihau gallu rhiant yn sylweddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu cynnar gyda'u plentyn.

Yn ail, gall ymdopi ar incwm isel hefyd gyfyngu'r adnoddau materol sydd ar gael i rieni i gynorthwyo dysg cynnar eu plant, fel llyfrau neu deganau. Mae plant o deuluoedd incwm isel yn llai tebygol o fod â mynediad i lyfrau neu deganau sy'n briodol i'w hoed

## ELKLAN: DEWCH I SIARAD GYDA PHLANT DAN 5

Mae cwrs Elklan, Dewch i Siarad gyda Phlant dan 5 yn gwrs lleferydd ac iaith sy'n cael ei gyflenwi ar draws y DU. Caiff y cwrs hwn ei gyflenwi mewn nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o raglen Dechrau'n Deg. Caiff ei gyflenwi i rieni a gofawyr gan therapyddion lleferydd ac iaith neu athrawon profiadol, ac mae wedi ei gynllunio i wella gwybodaeth a sgiliau rhieni yn ymwneud â datblygiad iaith cynnar plant. Mae'n rhoi cyngor ymarferol a strategaethau sydd hefyd yn addas ar gyfer plant y mae Saesneg yn iaith ychwanegol

iddynt. Mae enghreifftiau o'r testunau sydd wedi eu cynnwys yn y cwrs yn cynnwys y canlynol:

- datblygiad cyfathrebu normal
- achosion anawsterau lleferydd ac iaith
- rhyngweithio rhwng oedolion a phlant
- pwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad iaith
- deall iaith
- defnyddio geiriau a brawddegau
- gofyn cwestiynau a rhannu llyfrau
- helpu plant gyda lleferydd aneglur.

na'u cyfoedion mwy cefnog. Gall teuluoedd hefyd ei chael hi'n anodd fforddio profiadau newydd fel ymweliadau â'r sw neu i'r amgueddfa, a all fod yn gyfleoedd rhagorol i annog plant ifanc i archwilio geiriau newydd neu sgysiau (Roseberry-McKibbin 2001). Er bod mynediad i amgueddfeydd am ddim yng Nghymru, gall teuluoedd gael anhawster i dalu cost ychwanegol teithio i amgueddfa.

Gall lefelau uwch o straen a phrinder mynediad i adnoddau materol waethygu oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae rhieni'n cael gafael ar wybodaeth am y ffordd orau o gynorthwyo dysgu cynnar eu plentyn. Mae rhieni yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn llawer llai tebygol o chwilio am wybodaeth am weithgareddau chwarae a dysgu gan ystod eang o unigolion a sefydliadau o'u cymharu â rhieni sy'n byw mewn cymdogaethau mwy cefnog (Huskinson et al 2014). Yn arbennig, mae rhieni sy'n byw mewn cymdogaethau difreintiedig yn fwy tebygol o ddibynnu ar ffrindiau a theulu, lle mae rhieni mwy cefnog yn fwy tebygol o droi at weithwyr proffesiynol a gwasanaethau lleol am gyngor.

Gall gwahaniaethau o ran mynediad i wybodaeth olygu nad oes gan rai rhieni incwm isel yr holl gymorth sydd ei angen arnynt i wneud y gorau dros eu plant o oed cynnar. Er enghraifft, canfu un astudiaeth fod mamau o gefndiroedd incwm isel yn llai tebygol na'u cyfoedion mwy cefnog o fod yn ymwybodol o bwysigrwydd siarad â'u babi yn rheolaidd. Mae rhieni o gefndiroedd mwy difreintiedig hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod angen mwy o wybodaeth a chynghor arnynt am y ffordd orau o gynorthwyo dysgu cynnar eu plentyn (Hunt et al 2011).

Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd nad yw rhieni sy'n byw mewn tloidi yn llai tebygol o gymryd rhan mewn rhai o agweddau allweddol dysgu cynnar plant. Canfu Hartas (2011) wahaniaethau bach yn unig yn y defnydd o weithgareddau yn seiliedig ar iaith fel canu caneuon a dweud straeon rhwng rhieni sy'n byw mewn tloidi a'r rheiny nad ydynt mewn tloidi. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau cymharol fawr yn ymwneud â darllen i blant ifanc, a allai awgrymu rôl arbennig o bwysig i ddarllen yn rheolaidd.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil yma'n awgrymu bod rhieni sy'n byw mewn tloidi fel arfer yn gwneud o leiaf rhywfaint o'r un gweithgareddau dysgu gyda'u plant â rhieni mwy cefnog ond bod eu plant yn dal yn fwy tebygol o brofi oedi o ran iaith. Gallai hyn fod oherwydd bod effaith y gwahaniaethau mewn arddulliau rhianta ac ymddygiad, y tu hwnt i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu cynnar penodol, yn fawr a'i fod yn cael dylanwad mawr ar blant

sy'n cael eu magu mewn tloidi. Gall fod agweddau cymhleth hefyd o ymddygiad rhieni neu amgylchedd dysgu'r cartref na all astudiaethau academaidd roi cyfrif amdanynt. Ond gallai'r dystiolaeth hon hefyd awgrymu fod tloidi'n effeithio ar ddatblygiad iaith cynnar plant yn annibynnol trwy ei effaith ar ymddygiad rhieni ac amgylchedd dysgu'r cartref mewn ffyrdd nad ydym yn eu deall yn iawn. Mae angen mwy o ymchwil i ddeall yr union fecanweithiau ar waith.

Yn annibynnol ar incwm teulu, mae addysg rhieni hefyd yn cael effaith fawr ar ddatblygiad iaith cynnar plant. Mae hwn yn her ychwanegol i blant o gefndiroedd difreintiedig. Canfu dadansoddiad o ddata o'r MCS y gellir esbonio pumed o'r gwahaniaeth mewn sgiliau iaith cynnar yn dair oed rhwng plant o'r cartrefi tlotaf a chyfoethocaf yn ôl gwahaniaethau yn addysg rhieni (Dearden et al 2011). Mae plentyn sydd â rhiant â gradd prifysgol yn llawer mwy tebygol o gael safon dda o ddatblygiad iaith yn bump oed na phlentyn y mae gan ei rieni lefel is o gymwysterau (Cullis et al 2008).

Mae effaith addysg rhieni'n aml yn digwydd trwy ansawdd amgylchedd dysgu'r cartref. Er enghraifft, mae plentyn â rhiant â gradd prifysgol yn fwy tebygol o gael mynediad i lyfrau, cyfrifiaduron neu offerynnau cerdd, a all yn eu tro ysgogi datblygiad iaith cynnar plant (Carnerio et al 2012). Gall rhieni â lefelau arbennig o isel o addysg ffurfiol gael anhawster gydag iaith neu lythrennedd eu hunain, a allai danseilio eu hyder yn cynorthwyo datblygiad iaith eu plentyn eu hunain. Gallai hyn fod am eu bod yn llai tebygol o gael mynediad i wasanaethau neu i fodelu'r sgiliau iaith a chyfathrebu er mwyn dysgu eu plant.

### TLODI YN ERBYN YMDDYGIAD: PA UN SYDD BWYSICAF?

Yn gyffredinol, mae dadansoddi data MCS wedi canfod y gall 'ffactorau strwythurol' gael dylanwad cymharol fawr ar ddatblygiad iaith cynnar plant (Dearden et al 2011). Caiff tua 40% o'r gwahaniaeth yn sgiliau iaith yn dair oed rhwng plant o'r teuluoedd tlotaf a chyfoethocaf ei esbonio gan y ffactorau strwythurol hyn, sydd yn cynnwys incwm teulu, addysg rhieni ac oed mam wrth roi genedigaeth. Mae'r dadansoddiad hwn yn amlygu rôl bwysig mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tloidi plant wrth gyfrannu at oedi ieithyddol ymysg plant tlawd. Mae rhai o'r dylanwadau strwythurol hyn ar ddatblygiad iaith plant yn anodd, neu'n amhosibl, i'w newid.

Fodd bynnag, canfu Dearden et al (2011) hefyd y rhoddir cyfrif am ryw chwarter y gwahaniaeth mewn sgiliau iaith yn dair oed rhwng plant o'r teuluoedd

tlotaf a chyfoethocaf gan wahaniaethau mewn ymddygiad rhieni, iechyd, amgylchedd dysgu'r cartref, a phresenoldeb mewn gofal plant. Ynghyd â mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tloti, dyma ble y gall gwneuthurwyr polisiâu a gweithwyr proffesiynol gael yr effaith fwyaf ar gyfleoedd bywyd plant ifanc.

## ADDYSG GYNNAR A GWASANAETHAU ERAILL Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

Trwy gydol y bennod hon rydym wedi canolbwyntio ar y dylanwad y mae rhieni a'r cartref yn ei gael ar ddatblygiad iaith plant. Fodd bynnag, nid yw rhieni'n gweithredu mewn gwactod, ac yn aml yn dibynnu ar gymorth a gwybodaeth gan ystod eang o wasanaethau'r blynyddoedd cynnar.

Mae tystiolaeth sylweddol yn y DU ac yn rhyngwladol sy'n dangos y gall addysg a gofal plant cynnar gael effaith gadarnhaol ar eirfa a datblygiad llythrennedd

plant, yn arbennig bechgyn a phlant o deuluoedd incwm isel (Havnes a Mogstad 2009, Sylva et al 2010, Felfe a Lalive 2013). Ond mae'r buddion hyn ond yn digwydd os yw'r gofal plant o ansawdd da.

Daw tystiolaeth gref o fuddion addysg gynnar o ansawdd da o astudiaeth EPPE, sydd wedi olrhain cynnydd dros 3,000 o blant yn Lloegr ers diwedd y 1990au (Sylva et al 2004). Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf gan EPPE yn dangos y gall mynychu lleoliad cyn ysgol o ansawdd uchel greu buddion addysgol cadarnhaol sy'n parhau trwy gydol yr ysgol uwchradd, o'i gymharu â phlant nad ydynt yn mynychu unrhyw leoliad y blynyddoedd cynnar o gwbl (Sylva et al 2014). Canfu casgliadau cynharach gan EPPE, i blant tair a phump oed sy'n mynychu lleoliad cyn ysgol amser llawn neu ran-amser o ansawdd da, ei fod o fudd sylweddol i gyflawniad gwybyddol ac ymddygiadol. Roedd hefyd yn cael effaith 'amddiffynnol' gan wrthbwyso i ryw raddau graddau effaith plentyn yn mynychu ysgol gynradd lai effeithiol o ran canlyniadau darllen ac ysgrifennu.

### BOOKSTART: CEFNOGI'R AMGYLCHEDD DYSGU YN Y CARTREF

Mae rhaglenni rhoi cyffredinol, fel Bookstart Book Trust Cymru, wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â'r broblem o ddiffyg anodau trwy ddarparu llyfrau sy'n briodol i oed a deunydd canllaw. Caiff y rhaglenni hyn eu cydlynu gan wasanaethau llyfrgell lleol, mewn partneriaeth ag ymwelwyr iechyd, ac maent yn aml yn cynnwys lleoliadau eraill y blynyddoedd cynnar. Mae adolygiad o raglenni rhoi llyfrau yn dangos eu bod hefyd yn dylanwadu ar agwedd rhieni tuag at rannu llyfrau gyda phlant; brwdfrydedd plant tuag at edrych ar lyfrau; amllder a graddfa rhannu llyfrau; perchnogaeth llyfrau; aelodaeth o lyfrgell; a chyrhaeddiad llythrennedd hirdymor plant (Burnett et al, 2014).

Mae ansawdd adnoddau yn amgylchedd dysgu'r cartref yn hanfodol i ddatblygiad llythrennedd. Mae dewis llyfrau gan baneli arbenigol, fel y rheiny sy'n gysylltiedig â rhaglenni Book Trust Cymru, yn sicrhau bod llyfrau sy'n addas i anghenion penodol plant ar gael i deuluoedd, yn cynnwys darpariaeth Gymraeg. Er enghraifft, mae Bookstart yn cynnwys pecynnau wedi eu cynllunio ar gyfer plant byddar; plant dall neu rannol ddall; y rheiny ag anabledau sy'n effeithio ar sgiliau gwybyddol manwl; a llyfrau iaith ddeuol. Canfu adolygiad arbenigol o ddeunyddiau Bookstart (Canolfan Ymchwil Addysg a Chynhwysiant, 2012) fod y pecynnau'n rhoi sylw

rhagorol i iaith a llythrennedd; ymwybyddiaeth ffonolegol; profiad ffisegol a synhwyrdd.

Mae Bookstart hefyd yn darparu canllawiau a gwybodaeth ar gyfer y rhiant neu'r gofalwr, wedi ei gynllunio i wella eu sgiliau a'u hyder (Canolfan Ymchwil Addysg a Chynhwysiant, 2012). Gallant hefyd ddarparu llwybr i gymorth pellach. Canfu astudiaeth a gomisiynwyd gan Book Trust (Wylie, 2014) fod rhieni sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth wedi ei dargedu at Bookstart Corner (Lloegr a Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd) yn fwy hyderus a gwybodus am ddarllen gyda'u plentyn a bod 66% o rieni wedi dweud eu bod wedi cymryd rhan mewn un gwasanaeth lleol o leiaf o ganlyniad i'r rhaglen, er enghraifft, cael cymorth gyda'u llythrennedd eu hunain neu ymuno â'r llyfrgell.

Mae rhaglen Superbox Book Trust Cymru yn darparu copïau lluosog o lyfrau Bookstart i weithwyr y blynyddoedd cynnar i'w defnyddio mewn lleoliadau, ynghyd â hyfforddiant mewn rhannu llyfrau a sut i gefnogi ac annog rhieni a gofalwyr i ddarllen gyda'u plant. Nod Superbox yw gwella hyder rhieni yn defnyddio llyfrau Bookstart a darllen yn rheolaidd gyda'u plant. Mae hefyd yn cysylltu negeseuon allweddol Bookstart am ddarllen ar y cyd ag ymyriadau ehangach eraill y blynyddoedd cynnar.



Canfyddiad pwysig arall oedd nad oedd gofal amser llawn yn cael mwy o effeithiau cadarnhaol na gofal rhan-amser. Canfu astudiaeth EPPE hefyd fod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan bwysig yn cefnogi rhieni a gofawyr i ddatblygu'r amgylchedd dysgu yn y cartref.

Mae tystiolaeth ryngwladol hefyd yn dangos bod lleoliadau gofal plant o ansawdd uchel yn cael effaith gadarnhaol, barhaus ar ddatblygiad plant. Mae ymchwil yn yr Almaen wedi canfod bod presenoldeb mewn gofal plant o fudd arbennig i fechgyn, plant o gefndiroedd dan anfantais a phlant â phwysau isel ar enedigaeth (Felfe a Lalive 2013). Dangosodd ymchwil o Norwy fod presenoldeb mewn lleoliadau gofal plant o ansawdd yn cael effaith gadarnhaol barhaus ar gyrhaeddiad addysgol plant a chyfranogiad yn y farchnad lafur (Havnes a Mogstad 2009).

Mae'r berthynas rhwng addysg gynnar wedi ei harwain gan raddedigion, darpariaeth o ansawdd uchel a datblygiad iaith plant yn rymus ac yn dod o sawl astudiaeth. Mae tystiolaeth wedi dangos bod gweithwyr proffesiynol â chymwysterau uwch yn gallu creu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel yn well. Yr amgylchedd hwn sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant. Mae gweithwyr proffesiynol â'r sgiliau hyn yn gwybod sut i greu amgylchedd lle mae plant

yn cael eu cynnwys, eu hysgogi ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol gyda staff a phlant eraill; ac mae hynny'n integreiddio gofal ac addysg yn gyfan gwbl (OECD 2012). Argymhellodd yr Adolygiad annibynnol o Reoleiddio ac Arolygu Gofal Plant ac Addysg Gynnar (Llywodraeth Cymru, 2014) y "Dylem fod yn gweithio tuag at sefyllfa yng Nghymru lle mae'r holl wasanaethau AGPC [Addysg a Gofal Plentynod Cynnar] i blant ifanc yn cael eu harwain gan athro neu ymarferydd graddedig mewn addysgeg".

Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth am effaith gwasanaethau ar ddatblygiad iaith cynnar plant yn ymwneud ag addysg gynnar ffurfiol a gofal plant. Nid oes llawer o dystiolaeth am effaith gwasanaethau eraill y blynyddoedd cynnar, fel gwasanaethau iechyd, ar iaith plant ifanc. Mae hyn yn debygol o fod yn wir am nad yw'r gwasanaethau hyn wedi eu cynllunio'n bennaf i gefnogi datblygiad iaith cynnar plant, felly anaml y caiff yr effaith ei brofi.

Fodd bynnag, yn y Bennod ganlynol, rydym yn dadlau bod gan wasanaethau ehangach y blynyddoedd cynnar y potensial i gael effaith sylweddol ar sgiliau iaith cynnar plant, yn arbennig yn cefnogi rhieni i ymgysylltu'n fwy gweithredol yn nysg cynnar eu plentyn. Gallai'r effaith fwyaf fod i'r plant ifancaf, yn arbennig y rheiny sy'n byw mewn tlodi.

## DATBLYGIAD IAITH GYNNAR O FEWN DECHRAU'N DEG

Ystyriodd adolygiad diweddar o ymarfer mewn perthynas â datblygiad iaith cynnar (ELD) mewn ardaloedd Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2014) sut yr oedd awdurdodau lleol yn ymgysylltu teuluoedd mewn gweithgareddau ELD a sut y mae ymarferwyr yn mynd i'r afael â rhwystrau i ymgysylltu. Nododd yr adolygiad sawl dull yr oedd ymarferwyr yn eu hystyried yn effeithiol yn ymgysylltu rhieni:

- **Dulliau amlddisgyblaethol:** roedd y berthynas sy'n cael ei datblygu gan ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymorth yn cael ei ystyried yn hanfodol i ddatblygu ymddiriedaeth rhwng ymarferwyr a rhieni, gan alluogi dull llai ffurfiol o gyflenwi gwasanaethau wedi eu targedu ac ELD arbenigol;
- **Dulliau trawsbynciol:** cyflenwi gweithgareddau ELD fel rhan neu ar y cyd â gwasanaethau eraill nad oeddent yn lleoliadau

ELD penodol (e.e. grwpiau chwarae ac iaith wedi eu cyflenwi mewn ystafelloedd aros ymwelwyr iechyd neu leoliadau gofal plant);

- **Ymgysylltu cynharach:** fe wnaeth lawer o'r staff gynnig y dylai cymryd rhan mewn gweithgaredd ELD ddechrau'n gynharach, yn ddelfrydol yn ystod y cyfnod cyn-enedigol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad mewn ELD. Cafodd hyn ei ystyried yn effeithiol yn yr ardaloedd hynny oedd wedi defnyddio'r dull hwn;
- **Gweithdrefnau atgyfeirio clir:** sicrhau bod yr holl staff (er enghraifft, gweithwyr gofal plant, ymwelwyr iechyd, a gweithwyr cymorth teuluoedd) yn deall cerrig milltir datblygiadol allweddol a'u bod yn gallu atgyfeirio achosion sy'n briodol i therapyddion lleferydd ac iaith neu weithwyr proffesiynol eraill fel athrawon ymgynghorol.

# PENNOD 4. PA GYMORTH Y MAE RHIENI A PHLANT YN EI GAEL AR HYN O BRYD?

Pan mae plant yn ifanc, mae nifer o ffactorau gwahanol sy'n dylanwadu ar ddatblygiad eu hiaith, yn cynnwys eu rhieni, eu cartref ac amgylchedd y gymuned, a'r gwasanaethau y byddan nhw a'u rhieni yn cael cyswllt â nhw.

Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae eu rhieni a'u gofalwyr yn ddylanwad sylweddol ar blant yn y blynyddoedd cynnar a thrwy gydol eu bywydau. Dyma pam fod siarad yn uniongyrchol â rhieni yn rhan fawr o ymgyrch Darllena. Datblyga. Fodd bynnag, ynghyd â hyn, mae angen i ni hefyd ddeall y rôl y gall gwasanaethau ei chwarae yn cefnogi rhieni a helpu i feithrin a datblygu sgiliau iaith plant.

Gall y cymorth cywir o addysg, gwasanaethau a rhaglenni cynnar o ansawdd da helpu rhieni i gael yr adnoddau a'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i helpu eu plant ddatblygu gallu ieithyddol da.

Mae'r bennod hon yn ystyried sut y caiff datblygiad ieithyddol cynnar plant yng Nghymru ei gefnogi gan wasanaethau'r blynyddoedd cynnar, yn arbennig mentrau a rhaglenni cenedlaethol. Mae'n edrych ar y cynnydd a wnaed a'r heriau sydd ar ôl ym maes gwasanaethau er mwyn sicrhau y gall pob plentyn yng Nghymru ddatblygu sgiliau iaith da yn eu blynyddoedd cynnar.

## GWASANAETHAU'R BLYNYDDOEDD CYNAR: O ENEDIGAETH I'R YSGOL

Yng Nghymru, mae ystod o wasanaethau'r blynyddoedd cynnar ar gael i blant. Er mwyn deall sut y gallai gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar gryfhau cymorth ar gyfer datblygiad ieithyddol plant, mae angen i ni ddechrau deall pa wasanaethau sy'n cael eu cynnig i rieni a phlant, yn arbennig y rheiny mewn tloidi.

- **Gwasanaethau cyffredinol:** mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu i bob plentyn a'u bwriad yw cefnogi amgylcheddau sy'n gyfoethog o ran iaith sy'n hybu datblygiad iaith pob plentyn (mae hyn yn cynnwys amgylcheddau dysgu yn y cartref). Fel rhan o gymorth cyffredinol, gellir monitro datblygiad iaith plant er mwyn sicrhau lefelau cynnydd priodol. Os nad yw plant yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, eir i'r afael â hyn trwy ymyriadau

wedi eu targedu a gallent gynnwys atgyfeirio i wasanaethau arbenigol ac wedi eu targedu.

- **Gwasanaethau wedi eu targedu:** yn ogystal â gwasanaethau cyffredinol, gall fod angen cymorth ychwanegol wedi ei dargedu ar rai plant mewn perthynas â datblygiad eu hiaith. Darperir cymorth wedi ei dargedu i blant sydd mewn perygl o beidio cyflawni lefelau cynnydd disgwyliedig o ran datblygiad eu sgiliau cyfathrebu, neu blant nad ydynt yn eu cyflawni. Yng Nghymru, mae hawl cyffredinol i Ddechrau'n Deg yn cael ei dargedu at y plant hynny sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Mae plant sydd angen ymyriadau cymharol syml neu gyfleoedd i ymarfer ac atgyfnerthu sgiliau yn cael cymorth wedi ei dargedu gan ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a rhieni. Lle y bo'n briodol, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn aml yn rhoi asesiad arbenigol, cyngor a strategaethau ysgrifenedig i gefnogi datblygiad iaith pob plentyn.



- **Gwasanaethau arbenigol:** mae plant sydd ag anghenion difrifol a chymhleth y tu hwnt i'r rheini y gellir eu bodloni trwy ddarpariaeth gyffredinol ac wedi ei thargedu yn cael cymorth arbenigol. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau ychwanegol personol iawn wedi eu cyflenwi fel y bo'n briodol i fodloni anghenion bob plentyn. Fel rhan o hyn, rhoddir cyngor arbenigol a hyfforddiant i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a rhieni ar feysydd penodol datblygiad iaith, yn cynnwys y defnydd o systemau cyfathrebu amgen a chynnyddol pan fydd sgiliau iaith plentyn yn gyfyngedig.

Yng ngweddill y bennod hon, rydym yn nodi patrymau eang y gwasanaethau sydd fel arfer ar gael i deuluoedd â phlant ifanc sydd â rôl allweddol yn natblygiad iaith gynnar. Rydym yn amlygu datblygiadau diweddar ac yn rhoi rhwyfaint o ddatdiansoddiad o'r cynnydd a'r heriau sy'n weddill.

## IECHYD Y CYHOEDD, YN CYNWYS YMWELIADAU IECHYD

Mae gwasanaethau iechyd y cyhoedd yn chwarae rhan fawr yn adolygu a chefnogi datblygiad plant ifanc. Mae'r gwasanaethau allweddol yn cynnwys bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Mae ymwelwyr iechyd yn cymryd cyfrifoldeb am ofal plentyn oddi wrth fydwraig bythefnos ar ôl yr enedigaeth ac yn cefnogi teuluoedd nes bod y plentyn yn bump oed.

Mae ymwelwyr iechyd a bydwagedd yn cyflawni rôl bwysig yn cefnogi teuluoedd a'u plant yn ystod cyfnodau cynnar datblygiad. Nhw yn aml yw prif ffynhonnell y cymorth a'r ymgysylltu gyda gwasanaethau cyhoeddus sydd gan deuluoedd â phlant ifanc iawn, ac maent yn dod i mewn i'r cartref felly'n datblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda'r rhieni. Maent yn gweithio gyda'r rhieni i adolygu cynnydd plant ac yn rhoi cymorth, yn cynnwys atgyfeirio teuluoedd i wasanaethau arbenigol lle bo angen, sydd yn cynnwys cymorth ar gyfer datblygiad iaith cynnar plant.

Mae ymwelwyr iechyd yng Nghymru yn cynnal adolygiadau o ddatblygiad plant yn ystod cyfnodau allweddol. Yn ystod misoedd cyntaf bywyd plentyn, mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygiad corfforol y plentyn. Defnyddir yr offeryn Amserlen Sgiliau Tyfu (SoGS) ar draws Cymru i fesur datblygiad plant yn ddwy a thair oed. Mewn rhai ardaloedd, fe'i defnyddir gyda phlant iau i nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar. Mae'n offeryn sgrinio wedi ei safoni i

asesu datblygiad plant ar draws naw maes allweddol. Mae tri o'r meysydd datblygiadol hyn yn ymwneud â datblygiad iaith cynnar: clyw ac iaith; lleferydd ac iaith; a sgiliau cymdeithasol rhyngweithiol.

Er nad yw SoGS yn offeryn arbenigol ar gyfer asesu datblygiad lleferydd ac iaith, nododd adolygiad diweddar i weithredu'r elfen datblygiad iaith cynnar o fewn Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2014c) fod staff yn gwerthfawrogi asesiadau SoGS. Argymhellodd yr adolygiad y "dylai'r holl staff sy'n defnyddio offer sgrinio ac asesu gael hyfforddiant ar weithredu'r offer hyn".

Mae mynediad gwell i ymwelwyr iechyd yn nodwedd graidd o ddarpariaeth Dechrau'n Deg yng Nghymru, sydd ar gael i blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Canfu Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2013b) mai rhan allweddol o rôl ymwelwyr iechyd oedd argyhoeddi rhieni am fuddion y gwasanaethau hyn a'u helpu i oresgyn unrhyw amharodrwydd i'w defnyddio. Bydd ymwelwyr iechyd hefyd yn chwarae rôl allweddol yn lledaenu adnoddau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg i rieni a lansiwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (Mai 2015).

## THERAPI LLEFERYDD AC IAITH

Mae therapyddion lleferydd ac iaith (SLT) yn chwarae rhan bwysig o ran cynllunio a chyflenwi gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar â'r nod o wella sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant. Mae SLT yn asesu, rhoi diagnosis ac yn datblygu rhaglenni gofal. Mewn rhai lleoliadau, fel Dechrau'n Deg, mae hyn yn cynnwys hyfforddi'r gweithlu ehangach a rhieni a gofalwyr i wella datblygiad iaith plant.

Ffocws arwyddocaol i SLT yw darparu cymorth i fabanod a phlant ifanc sydd wedi eu geni â chyflyrau meddygol y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda lleferydd ac iaith. Er enghraifft, mae SLT yn aml yn rhoi cymorth cyfathrebu i fabanod â nam ar eu clyw, gwefus a thafnod hollt ac anabledau dysgu. Mae menywod beichiog a phlant ifanc yn aml yn cael eu hatgyfeirio at SLT gan eu hymwelydd iechyd neu feddyg teulu, ond gall unrhyw riant atgyfeirio eu plentyn i SLT os ydynt yn poeni.

Ar ôl nodi bod gan blentyn angen yn ymwneud â lleferydd ac iaith, mae SLT yn rhoi cymorth arbenigol wedi ei deilwra i blant ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu difrifol a chymhleth. Maent yn

dylunio strategaethau personol i'w helpu i fodloni anghenion cyfathrebu pob plentyn, a lle y bo'n briodol, yn rhoi offer ychwanegol i blant i'w helpu i gyfathrebu. Gallai'r strategaethau ganolbwyntio ar ddatblygu'r rhyngweithio rhwng rhiant a phlentyn, geirfa a datblygiad brawddegau (gan ddefnyddio iaith lafar neu gymhorthion cyfathrebu cynyddol), neu anawsterau a rhuglder synau lleferydd.

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru wedi sefydlu Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol, sydd yn cynnwys SLT wedi eu lleoli mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae'r rhwydwaith yn darparu fforwm ar gyfer trafod a lledaenu arfer da wrth gyflenwi gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi eu targedu ar gyfer teuluoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu nifer y therapyddion lleferydd ac iaith sy'n cael eu lleoli wrth wraidd gwasanaethau cyffredinol ac wedi eu targedu sy'n cael eu cyflenwi trwy'r rhaglen Dechrau'n Deg, fel y gwelir yn y canllawiau a'r adnoddau newydd eu datblygu a drafodir ym Mhennod 3. Mae hyn yn dilyn adolygiad diweddar o'r hawl i ddatblygiad iaith cynnar Dechrau'n Deg a argymhellodd "Y dylai pob awdurdod lleol gyflogi SLT fel rhan o'u timau craidd, gyda ffocws penodol ar yr hawl i ELD" (Llywodraeth Cymru, 2014c). Ar adeg ei ysgrifennu, roedd y rhan fwyaf (19 allan o 22) o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflogi SLT fel rhan o'u timau Dechrau'n Deg.

Fe wnaeth yr adolygiad hefyd argymhellion yn ymwneud â rôl SLT yn cefnogi hyfforddi staff cyffredinol ac wedi eu targedu. Mae'n argymhell y dylai "holl staff Dechrau'n Deg gael lefel isafswm o hyfforddiant yn ymwneud â normau ELD ac arfer da o ran rhyngweithio rhwng oedolyn a phlentyn. Dylai'r hyfforddiant hwn gael ei oruchwylio gan SLT."

## CANOLFANNAU PLANT INTEGREDIG

Mae Canolfannau Plant Integredig (ICC) yn seiliedig ar y cysyniad o ddarparu gwasanaeth integredig er mwyn sicrhau canlyniadau da ar gyfer plant a'u rhieni ac felly sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd. Maent yn gweithredu fel hyb cymunedol lle mae sefydliadau statudol, gwirfoddol a phreifat yn cyflenwi gweithgareddau ar gyfer plant a theuluoedd, ac yn ceisio datblygu cysylltiadau cadarnhaol rhwng gwasanaethau gwahanol ar gyfer plant ifanc a'u teuluoedd. Mae ganddynt nifer o elfennau craidd,

sydd yn cynnwys addysg y blynyddoedd cynnar, gofal plant, hyfforddiant a chymorth i deuluoedd a chwarae mynediad agored. Mewn rhai ardaloedd, mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd cyffredinol, sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth am ddim ym mhob awdurdod lleol ar ystod eang o opsiynau a gweithgareddau gofal plant i blant 0-20 oed, ar gael mewn ICC.

Yn 2008, comisiynodd y Gronfa Loteri Fawr Uned Cymru o'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg i werthuso effaith pedwar ICC yng Nghymru. Un o'r prif ganfyddiadau o'r ymchwil yma oedd bod ICC yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau a datblygiad plant (NFER, 2010). Canfu'r ymchwil hefyd bod cynaliadwyedd yn bryder allweddol i'r ICC, gan fod llai o gyllid o ffynonellau canolog a lleol wedi cynyddu'r pwysau ariannol a'r galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

## DECHRAU'N DEG

Lansiodd Llywodraeth Cymru raglen Dechrau'n Deg yn 2006/2007. Mae'n targedu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae'n gydran allweddol i strategaethau Llywodraeth Cymru i leddfu effeithiau tlodi. Mae Dechrau'n Deg yn rhoi cymorth wedi ei dargedu i blant a theuluoedd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru er mwyn gwneud "gwahaniaeth pendant i fywydau plant".

Gweinyddir Dechrau'n Deg fel grant i awdurdodau lleol ariannu darpariaeth ar gyfer plant a'u teuluoedd mewn ardaloedd wedi eu targedu. Elfennau craidd y rhaglen yw:

- gofal plant rhan-amser o ansawdd da, am ddim ar gyfer plant dwy i dair oed
- gwasanaeth ymwelydd iechyd gwell
- mynediad i raglenni rhianta
- lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae'r hawliau hyn ar gael yn gyffredinol i deuluoedd â phlant o ddim i bedair oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Darperir 12.5 awr o ofal plant am ddim ar gyfer plant dwy a thair oed cymwys fel rhan o'r rhaglen, sydd wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar i gynnwys tua chwarter yr holl blant o dan bedair yng Nghymru. Yn ogystal â'r hawliau craidd hyn, mae cymorth wedi ei deilwra yn dibynnu ar anghenion teuluoedd unigol hefyd yn elfen bwysig o'r rhaglen. Mae Dechrau'n Deg hefyd yn cynnwys elfen o waith allgymorth, sydd yn gofyn i awdurdodau lleol nodi teuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n

Deg fyddai'n cael budd o wasanaethau Dechrau'n Deg.

Cydran lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg yw iaith a Chwarae (LAP). Mae darpariaeth LAP yn cael ei gynnig ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru, ond mae'r cyflenwad yn amrywio yn aml. Mae darpariaeth LAP weithiau'n cael ei gyflwyno fel sesiynau grŵp, mewn lleoliadau gofal plant neu gymunedol, ac weithiau'n cael ei gyflwyno fel sesiynau un i un, mewn canolfannau neu yng nghartref y teulu. Mae'r sesiynau LAP hyn naill ai'n cael eu cyflenwi

mewn sesiynau 'galw heibio' neu fel cwrs o fewn rhaglen.

Mae SLT, SLT cynorthwyol, athrawon ymgynghorol a staff eraill yn aml yn gysylltiedig â chyflenwi LAP. Mae'r staff hyn yn cyflwyno gweithgareddau i rieni naill ai ar lafar neu trwy ddeunydd ysgrifenedig ac yn eu hannog i roi cynnig ar y gweithgareddau hyn gyda'u plant. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys creu teganau syml neu strategaethau chwarae gwahanol i annog datblygiad cynnar iaith.

## ADNODDAU DECHRAU'N DEG I WELLA SGILIAU LLEFERYDD, IAITH A CHYFATHREBU PLANT IFANC

Mae llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau Dechrau'n Deg ar Leferydd, iaith a Chyfathrebu (Mehefin 2015). Mae'r canllawiau wedi eu hanelu at staff Dechrau'n Deg sy'n gweithio i gefnogi datblygiad lleferydd ac iaith, ond sydd yr un mor berthnasol i unrhyw ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant yn sectorau'r blynyddoedd cynnar, addysg ac iechyd. Mae'n cynnwys egwyddorion a disgwyliadau y mae llywodraeth Cymru'n disgwyl ddylai ategu'r holl gymorth lleferydd ac iaith sy'n cael ei gyflenwi trwy raglen Dechrau'n Deg a thu hwnt. Mae'n rhoi cyngor i ymarferwyr ar gyfer gweithio gyda rhieni a nodi anghenion iaith plant.

Mae llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu adnoddau ar gyfer rhieni ac ymarferwyr, mewn ymateb i'r adolygiadau i'r hawl am gymorth datblygiad cynnar iaith Dechrau'n Deg a gynhaliwyd yn 2014 (Llywodraeth Cymru, 2014c). Mae'r adnoddau hyn sydd wedi eu llywio gan dystiolaeth wedi cael eu datblygu yn dilyn cyngor gan weithgor arbenigol oedd yn cynnwys ymwelwyr iechyd a therapyddion lleferydd ac iaith Dechrau'n Deg. Cynhaliwyd gweithdai hefyd gyda rhieni i ddatblygu negeseuon effeithiol a grymus.

Mae'r adnoddau hyn yn hybu ffyrdd o annog sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu ymysg plant, fel canu i fabanod, diffodd y teledu wrth siarad â babanod a phlant, siarad wrth chwarae, a phwysigrwydd darllen i blant ifanc. Mae'r adnoddau hefyd yn hyrwyddo buddion dwyieithrwydd. Nod yr adnoddau yw hybu set o negeseuon clir a chyson i rieni ac ymarferwyr ar ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.

Mae'r adnoddau fel a ganlyn:

- **Olwyn datblygiad lleferydd ac iaith: Canllaw o enedigaeth i bump oed**  
Mae'r olwynion hyn i gael eu defnyddio gan bob ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg. Mae'r offeryn yn cyflwyno cerrig miltir allweddol yn ystod datblygiad lleferydd ac iaith plentyn, ac mae'n cynnwys syniadau i weithwyr proffesiynol eu cynnig i rieni er mwyn annog datblygiad iaith.
- **Poster cyfnodau datblygiad lleferydd ac iaith**  
Mae'r posteri hyn yn cynnwys negeseuon tebyg i'r rheiny sy'n cael eu cynnwys yn yr olwyn datblygiad a'u bwriad yw eu harddangos mewn safle amlwg ym mhob lleoliad Dechrau'n Deg.
- **“Dysgu Siarad”: Pecyn Dechrau'n Deg i rieni**  
Mae'r pecyn dwyieithog hwn yn cynnwys cyfres o gardiau sydd yn rhannu negeseuon allweddol a syniadau i annog rhieni i siarad, canu a chwarae gyda'u plant gan ddechrau pan fyddant yn dal yn y groth. Mae'r pecyn hwn wedi ei rannu'n dair adran, caiff ei ddsbarthu yn ystod cyfnodau gwahanol o fywyd plentyn:
  - Dylid rhoi Rhan 1 i rieni gan eu bydwaig neu ymwelydd iechyd yn ystod apwyntiad cyn-enedigol 25 wythnos. Mae'n cynnwys negeseuon cyflwyniadol allweddol a CD o rigymau dwyieithog.
  - Rhoddir Rhan 2 i rieni gan yr ymwelydd iechyd yn fuan ar ôl yr enedigaeth. Mae'n cynnwys negeseuon a syniadau allweddol o enedigaeth i ddwy oed.
  - Rhoddir Rhan 3 i rieni pan fydd plentyn yn cyrraedd dwy oed. Mae'n cynnwys mwy o negeseuon a syniadau ar gyfer datblygiad iaith parhaus.

Hyd at Ebrill 2015, roedd awdurdodau lleol yn derbyn grant Dechrau'n Deg, gyda rhan ohono'n cael ei ddefnyddio i ariannu LAP mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, a grant LAP cyffredinol ar wahân i gyflenwi LAP cyffredinol. O Ebrill 2015 ymlaen, cafodd y grant LAP yr oedd pob awdurdod lleol ar draws Cymru'n ei dderbyn ei integreiddio i'r grant Dechrau'n Deg, ac felly byddai cyflenwi rhaglen LAP yn dod o dan elfen allgymorth Dechrau'n Deg. Bwriad hyn yw galluogi teuluoedd sydd fwyaf mewn angen, yn ardaloedd Dechrau'n Deg a thu hwnt, i gael mynediad i raglenni LAP. Hyd yn hyn, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth o effaith y newid hwn ar blant a theuluoedd. Byddai hwn yn faes gwerthfawr ar gyfer mwy o ymchwil.

Mae elfen datblygu iaith cynnar Dechrau'n Deg hefyd yn cynnwys rhaglenni wedi eu targedu'n fwy ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol yn y maes hwn. Mae'r rhaglenni hyn yn aml yn cynnwys ymyriadau wedi eu teilwra a gynlluniwyd gan SLT a gweithwyr proffesiynol eraill. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn defnyddio ystod o raglenni lleferydd ac iaith sy'n cael eu cynnig fel rhan o elfen cymorth rhianta Dechrau'n Deg. Mae enghreifftiau o'r rhaglenni hyn yn cynnwys Elklan – rhaglen sy'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr a rhieni plant o dan bump – a Rhaglen Iaith Gynnar Hanen – rhaglen datblygu iaith a ddefnyddir mewn nifer o wledydd.

## ADDYSG GYNNAR

Yn 2008, lansiodd Llywodraeth Cymru'r Cyfnod Sylfaen, Fframwaith ar gyfer dysgu Plant tair i saith oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2008). Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, mewn lleoliadau a gynhelir ac nas cynhelir. Ei nod yw annog plant i fod yn greadigol, i ddefnyddio eu dychymyg ac i wneud dysgu'n fwy boddhaus ac yn fwy effeithiol.

Mae saith Maes Dysgu i'r Cyfnod Sylfaen, sy'n cael eu cyflenwi trwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau dysgu gweithredol o dan do ac yn yr awyr agored:

- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol
- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- datblygiad mathemategol
- datblygiad yr iaith Gymraeg
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad corfforol
- datblygiad creadigol.

Yng Nghymru, darperir isafswm o ddeg awr yr wythnos o addysg am ddim ar gyfer plant tair a phedair oed fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen. Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu mwy na'r isafswm statudol. Er gwaethaf toriadau sylweddol i rai cyllidebau sy'n effeithio ar deuluoedd â phlant ifanc, mae addysg gynnar wedi bod yn faes sydd wedi cael ei ymestyn yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf – a dylai weld mwy o dwf eto. Yn 2012, cafodd ychydig dros 4,380 o leoliadau gofal plant eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Gweithiodd tua 17,500 o bobl gyda'n plant ifancaf mewn gofal plant.

Fel y nodir ym mhennod 3, gall addysg gynnar am ddim gael effaith sylweddol ar ganlyniadau plant, yn arbennig ein plant tlotaf, ond dim ond os yw o ansawdd da - yn ddelfrydol, wedi ei arwain gan athro wedi ei hyfforddi neu rywun â gradd yn y blynyddoedd cynnar. Mae llywodraeth Cymru wedi nodi ei chynigion i wella ansawdd addysg y blynyddoedd cynnar yn yr ymgynghoriad drafft ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2014h) o dan dair thema: arweinyddiaeth; denu dechreuwyr newydd o ansawdd uchel; a gwella sgiliau a safonau yn y gweithlu presennol. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- datblygu hybiau dysgu'r blynyddoedd cynnar i gefnogi cydweithredu a datblygiad staff
- llwybr dilyniant trwy'r sector hyd at gymwysterau Lefel 6 (cyfwerth â lefel gradd)
- newid y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi ei Reoleiddio i adlewyrchu Lefel 3 fel safon ofynnol ar gyfer ymarferwyr
- 'dull fesul cam' o uwchsgilio trwy gymwysterau a chofnod parhaus o ddysgu proffesiynol parhaus.

Mae Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn datgan pan fydd lleoliadau gofal plant yn ystyried datblygiad addysgol a chymdeithasol yn ategol ac yr un mor bwysig, mae plant yn tueddu i wneud cynnydd gwell yn arbennig pan fydd gan staff gymwysterau uwch, yn cynnwys rhai athrawon wedi eu hyfforddi. Mae plant o gefndiroedd difreintiedig a'r rheiny ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig (AAA) hefyd yn elwa ar fynychu lleoliad o ansawdd uchel. Mae'r cynllun yn nodi y gellir gostwng nifer y plant sydd mewn perygl o AAA o un mewn pump, i un mewn tri, trwy addysg cyn-ysgol dda.

FFIGUR 4.1. LEFELAU CYMWYSTERAU YN ÔL CATEGORI DARPARWR GOFAL PLANT (POB AELOD O STAFF)

Darparwr	Lefel cymhwyster				
	Dim cymhwyster	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 5	Gradd
Darparwr gofal diwrnod llawn	15%	10%	64%	6%	4%
Gofal dydd sesiynol	18%	15%	62%	4%	1%
Gofalwr plant	72%	3%	23%	2%	0%
Gofal plant y tu allan i'r ysgol	17%	25%	54%	3%	1%

Ffynhonnell: 2012 Adroddiad Melyn ar gyfer Cyngor Gofal Cymru

Ar hyn o bryd ceir amrywiad eang yn lefelau cymwysterau'r gweithlu yn y sector gofal plant yng Nghymru (Ffigur 4.1). Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr her yn codi'r statws a'r gwerth a roddir ar ofalu am ac addysgu plant ifanc. Er gwaethaf cynnydd cadarnhaol i ddatblygu gallu a sgiliau'r gweithlu, mae angen goresgyn rhwystrau sylweddol o hyd yn cynnwys cost, argaeledd a hygyrchedd hyfforddiant.

Cafwyd gwelliannau sylweddol yn lefelau cymwysterau ac ymarfer proffesiynol yn y gweithlu gofal plant dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae gan fwyafrif helaeth y staff sy'n cyflenwi addysg feithrin am ddim bellach, fel isafswm, gymhwyster lefel ganolradd mewn pwnc perthnasol (cyfwerth â chymwysterau Safon Uwch). Fodd bynnag, mae nifer y staff â gradd berthnasol yn dal llawer yn rhy isel. Yn 2012, dim ond 4% o staff mewn meithrinfeydd gofal diwrnod cyfan yng Nghymru oedd â gradd (gweler ffigur 4.1).

## LLYFRGELLOEDD

Yng Nghymru, mae llyfrgelloedd wedi cael eu nodi fel rhan sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella llythrennedd, yn arbennig ar gyfer plant (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2012). Maent wedi eu lleoli mewn llawer o gymunedau lleol a cheir mynediad am ddim i bob teulu. Maent yn cynnig mynediad i lyfrau am ddim ac yn cynnal ystod eang o raglenni ar gyfer plant cyn ysgol sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad iaith, yn cynnwys grwpiau darllen, canu neu rigymau.

Mae llyfrgelloedd yng Nghymru eisoes yn gweithio gydag ymwelwyr iechyd i ddarparu bag Bookstart am ddim yn ystod y gwiriad iechyd naw mis a bag ysgol

y blynyddoedd cynnar yn ystod y gwiriad iechyd dwy oed. Mae gan lyfrgelloedd yn aml bartneriaethau gyda gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar ac iechyd i gynnig cymorth ac arweiniad iaith cynnar i deuluoedd mewn grwpiau cyn ac ôl-enedigol. Maent yn darparu gofod diogel sy'n gyfeillgar i blant lle gall teuluoedd dreulio amser allan o amgylchedd y cartref, a all fod yn bwysig i gydberthynas a lleihau ynysu heb wario arian.

Mae'r strategaeth ar gyfer llyfrgelloedd Cymru (Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli, Llywodraeth Cymru) yn amlygu ystod o weithgareddau a rhaglenni gwaith i ddatblygu hyn. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus hefyd yn cynnal grwpiau darllen, amser stori, sbonc a chlonc ac amser odl, clybiau gwaith cartref a grwpiau celf, yn ogystal â phrosiectau iechyd a lles. Mae llyfrgelloedd hefyd yn gweithio gydag ysgolion lleol yn ymwneud â gwybodaeth, ymchwil a gwaith cartref a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol fel Her Darllen yr Haf. Mae'r cynllun arloesol Pob Plentyn yn Aelod o Lyfrgell, sy'n cael ei gyflwyno ar draws Cymru ar gyfer disgyblion blwyddyn 4 o 2014-16, yn cael ei groesawu. Mae darpariaeth ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau plant mewn llyfrgelloedd, yn cynnwys gwariant ar ddeunyddiau, hefyd yn rhan o safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17.

Ceir tystiolaeth y gall cael mynediad i lyfrau yn y gymuned helpu i hybu sgiliau iaith cynnar plant. Fe wnaeth astudiaeth lle cafodd 330 o leoliadau cyn-ysgol yn Lloegr fwy o fynediad i lyfrau trwy lyfrgelloedd lleol wella sgôr plant ar ystod o fesurau iaith gynnar (Roulstone et al. 2011). Canfu astudiaeth o 500 o lyfrgelloedd fod graddfa rhyngweithio plant â straeon yn cynyddu ar ôl i lyfrau gael eu rhoi mewn manau lle mae plant yn chwarae (Neuman 1999). Mae agosatrywydd plant i lyfrau - yn arbennig



pan fydd y rhain yn cael eu gosod ar lefel llygaid - wedi dangos ei fod yn dylanwadu ar gyfranogiad plant mewn gweithgareddau sy'n helpu iaith gynnar a llythrennedd (Neuman 1999). Mae ansawdd y gofod hwn lle mae plant yn darllen ac yn chwarae hefyd yn gysylltiedig â gwella dysg plant. Mae creu 'cylfachau' a chorneli ar gyfer darllen a chwarae mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn gwella cyfoeth a chysondeb rhyngweithio plant ag iaith (Morrow 1998). Yn ogystal, mae'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o ddweud bod llyfrgelloedd yn bwysig iddyn nhw (Carnegie & SLIC 2015).

Mae'r ymchwiliad gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru (2014) yn nodi'r cyfraniad gwerthfawr y mae cyllid grant gan raglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i foderneiddio llyfrgelloedd. Yn arbennig, cynnydd yn nefnydd plant o'r llyfrgelloedd wedi eu moderneiddio. Fodd bynnag, nid yw cyllid ar gyfer llyfrgelloedd wedi ei neilltuo. Cadarnhaodd yr Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2014b) y pwysau cyllidebol y mae llyfrgelloedd yn ei wynebu yng Nghymru, ac ni ellir bod yn hunanfodlon wrth i awdurdodau lleol wneud dewisiadau cynyddol anodd ynghylch dewisiadau cyllidebol.

## TEULUOEDD YN GYNTAF

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen dargedu gan lywodraeth Cymru sy'n ceisio gwella cynllun a chyflenwad y gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i deuluoedd. Ei nod, yn arbennig, yw gwella profiadau teuluoedd trwy gynnig cymorth sy'n bodloni anghenion teuluoedd cyfan: dull Tîm o Amgylch y Teulu sy'n cydlynu'r cymorth y mae teuluoedd yn ei dderbyn gan asiantaethau gwahanol.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gyflenwi ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn amrywio ym mhob ardal, gan fod y rhaglen yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol a'r cyfrifoldeb i bennu sut i weithredu bob un o'r elfennau hyn yn lleol. Mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae awdurdodau lleol wedi comisiynu cymorth sy'n targedu iaith gynnar trwy eu rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae tirwedd gwasanaethau i rieni gael gafael ar gymorth ar gyfer datblygiad iaith cynnar eu plant yn eang, ac ar wasgar ar adegau. Ceir ystod o bwyntiau cyswllt ar gyfer rhieni, ac mae'r adroddiad hwn wedi cyflwyno nifer o enghreifftiau o arfer gorau o ran cydweithredu rhwng partneriaid er mwyn cyrraedd teuluoedd yn ystod y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, mae her sylweddol yn parhau i gyfuno ymdrechion pob partner er mwyn sicrhau bod plant a rhieni sydd angen cymorth iaith cynnar ychwanegol yn gallu ei gael. Rydym yn ystyried atebion i'r mater hwn yn y bennod ganlynol.

# PENNOD 5. TAIR BLAENORIAETH AR GYFER BODLONI'R HERIAU

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi pam y mae angen sgiliau iaith da ar bob plentyn erbyn iddynt ddechrau'r ysgol. Rydym hefyd wedi nodi pam y mae gweithredu'n gynnar yn hanfodol. Y geiriau y mae plant yn eu clywed pan fyddant yn ifanc yw'r geiriau y mae plant yn dysgu eu siarad ac yna'n dysgu eu darllen.

Rydym wedi nodi'r heriau yr ydym yn eu hwynebu – mae gormod o blant sy'n profi tlodi ar eu hôl hi o ran sgiliau iaith pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Gall tlodi ei wneud yn fwy anodd i rieni ddarparu'r amgylchedd sydd ei angen ar blant i ffynnu. Mae gan wasanaethau'r blynyddoedd cynnar rôl hanfodol i'w chwarae yn cefnogi rhieni i ddatblygu sgiliau iaith eu plant, yn ogystal â chymorth uniongyrchol yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn archwilio nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn ddiweddar yng nghyd-destun polisi Cymru, a'r cynnydd yr ydym yn ei wneud. Mae hefyd yn amlygu cyfleoedd yn y dyfodol i ddod o hyd i atebion i'r heriau y mae angen i ni eu goresgyn er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn sgiliau iaith cynnar da erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol.

## DATBLYGIADAU POLISI

### Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

Amlygodd llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu ei hymrwymiad i roi'r dechrau gorau posibl i bob plentyn yng Nghymru. Mae cydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar i ddatblygiad plant yn y dyfodol ac effaith niweidiol byw mewn tlodi ar gyfleoedd bywyd plant yn ganolog i'r ymagwedd hon.

Ymrwymiad y llywodraeth i ddyblu nifer y plant yng Nghymru sy'n elwa ar Ddechrau'n Deg, o 18,000 i 36,000, oedd un o ymrwymadau blaenllaw 'Pump am Ddyfodol Tecach' Llywodraeth Cymru. Cyrhaeddwyd ac aed y tu hwnt i'r nod hwn erbyn Mehefin 2015.

Ynghyd â rhaglen Dechrau'n Deg, datblygodd llywodraeth Cymru hefyd Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gyda ffocws clir ar fynd i'r afael â thlodi, mae'r cynllun deng mlynedd, trawslywodraethol hwn yn nodi pum blaenoriaeth strategol i wella darpariaeth y blynyddoedd cynnar:

- iechyd a lles plant
- cefnogi teuluoedd a rhieni
- addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel
- addysg gynradd effeithiol
- codi safonau

Dylid canmol gweledigaeth ac uchelgais llywodraeth Cymru ar gyfer newid trawsffurfiol hirdymor ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae nifer o raglenni yn y cynllun, sydd, os cânt eu gweithredu'n effeithiol a chyda ffocws ar ansawdd, yn debygol o wneud gwahaniaeth sylweddol i ddatblygiad iaith cynnar a chyfleoedd bywyd plant yn y dyfodol.

Mae Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar wedi cael ei sefydlu i gynghori Gweinidogion, er mwyn cyflenwi elfennau allweddol o Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair. Mae'r bwrdd hwn wedi dod â chynrychiolwyr ynghyd o ystod o gyrff cyhoeddus, sefydliadau academiaidd, sefydliadau'r trydydd sector a chyrff aelodaeth broffesiynol er mwyn crynhoi arbenigedd a phrofiad. Mae natur drawsadrannol y cynlluniau yn arwydd cadarnhaol pellach o'r dyhead i gefnogi gwaith cydlynus ac i gynyddu cydlyniad tirwedd gymhleth o bolisi, gwasanaeth ac ymarfer.



Yn arbennig, mae fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar a chynllun deng mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru'n debygol o wneud cyfraniad sylweddol i wella ansawdd darpariaeth y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Ar adeg eu hysgrifennu, mae'r ddwy fenter i gael eu cyhoeddi a'u gweithredu yn 2015 ac mae'r fersiynau drafft sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau iaith a llythrennedd cynnar. Fel y byddwn yn trafod yn nes ymlaen yn y Bennod hon, rydym o'r farn bod rhesymeg gref dros wneud yr ymrwymadau iaith cynnar yn y mentrau hyn yn fwy uchelgeisiol, oherwydd y gwahaniaeth y gallant ei wneud i ganlyniadau plant.

## ADDYSG

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd yr Athro Graham Donaldson y dystiolaeth a'r argymhellion o'i adolygiad sylfaenol o drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, a gomisiynwyd gan lywodraeth Cymru. Roedd yr adolygiad yn ystyried trefniadau addysg o'r cyfnod Sylfaen (hyd at dair oed) i Gyfnod Allweddol 4 (14-16 oed) yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod yn derbyn ac y byddai'n gweithredu'r holl argymhellion.

Bydd argymhellion Donaldson yn eu hanfod yn trawsnewid strwythur trefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru a byddant yn llywio'r ffordd y bydd addysg yn cael ei chreu, ei chyflenwi a'i gwerthuso. Mae'r adroddiad yn argymhell symud oddi wrth gwricwlwm yn seiliedig ar bynciau i ddull 'Meysydd Dysgu a Phrofiad', fel cafodd ei fabwysiadu yn y Cyfnod Sylfaen. Un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad arfaethedig yw iaith, llythrennedd a chyfathrebu; caiff hyn ei gefnogi ymhellach trwy gydnabod mai llythrennedd yw un o dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i bob athro a phobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r dull a nodir yn Fframwaith Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd wedi cael ei ardystio'n gadarnhaol, ac mae'n cael ei ymestyn i gefnogi datblygiad sgiliau cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed.

Mae adolygiad Donaldson yn nodi gweledigaeth ar gyfer diwygio fydd yn cymryd blynyddoedd i'w weithredu; fodd bynnag mae cyfeiriad y daith wedi cael ei nodi, a'i ardystio'n fras. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod addysg gynnar yn dod yn rhan gydlynol o'r newidiadau hyn fel bod plant yn barod ac yn gallu dysgu pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Mae

Ailysgrifennu'r Dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru, Mehefin 2014) yn cydnabod bod angen i fuddsoddiad a chefnogaeth gynnar barhau o un cyfnod dysgu a datblygu i'r nesaf fel bod buddion cynnar yn cael eu datblygu a bod effaith gronol amddifadedd yn cael ei leddfu".

Yn galonogol, mae llywodraeth Cymru yn treialu'r ffordd y gall Proffil y Cyfnod Sylfaen, offeryn asesu newydd sy'n alinio asesu ar ddechrau a diwedd y Cyfnod Sylfaen, 'fapio' i'r Amserlen Sgiliau Tyfu (fel rhan o Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant dim i saith oed ar draws bob sector. Mae'r newyddion hyn yn cael ei groesawu, a bydd sgiliau iaith plant yn pedwar i bump oed wrth ddechrau'r cyfnod sylfaen yn ddangosydd pwysig o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud yn y maes hwn.

Fodd bynnag, mae cryn dipyn i'w wneud eto i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru'n dechrau'r ysgol gyda'r sgiliau iaith sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu, cyfathrebu a dysgu. Yr her, yng Nghymru ar ôl Donaldson, yw pennu'r camau allweddol y mae angen i ni eu cymryd i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad i'r cymorth iaith cynnar sydd ei angen arnynt i ddechrau'r ysgol yn barod i ffynnu.

## MEYSYDD AR GYFER GWEITHREDU

Rydym wedi nodi tri maes yr ydym o'r farn fydd yn helpu'r cynnydd i wneud cam cynaliadwy tuag at fodloni nod *Darlenna. Datblyga.* y bydd gan bob plentyn sgiliau iaith cynnar da erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Rydym yn credu y bydd gweithredu yn y tri maes blaenoriaeth hyn yn helpu llywodraeth Cymru i gyflawni ei phrif flaenoriaeth ar gyfer addysg: trechu effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

### I. BUDDSODDI MWY YN ANSAWDD GWEITHLU'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

Mae'r dystiolaeth a nodir yn yr adroddiad hwn yn dangos rôl hanfodol addysg gynnar yn ategu ymdrechion rhieni i gefnogi datblygiad iaith cynnar plant. Mae gan addysg gynnar botensial enfawr i hybu sgiliau iaith cynnar plant tlotaf Cymru:

- I ddechrau, mae'r mwyafrif helaeth o blant ifanc yng Nghymru, yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rheiny sy'n byw mewn tloti, bellach yn mynychu gwasanaeth y blynyddoedd cynnar cyn dechrau ysgol amser llawn. Mae hwn yn gyfle sylweddol i ddylanwadu ar addysg ieithyddol cynnar nifer fawr o blant tlawd.

- Yn ail, mae tystiolaeth gadarn iawn ynghylch pa gamau sydd eu hangen i wella ansawdd addysg gynnar a'r effaith y gall hyn ei gael ar blant sy'n profi tlodi.

Dyma pam yr ydym yn rhoi cymaint o flaenoriaeth i wella ansawdd addysg gynnar er mwyn helpu i fodloni nodau ein hymgyrch a gofynnwn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i'r camau canlynol mewn meysydd allweddol:

**a) Sicrhau bod gan staff a rhieni yn holl leoliadau'r blynyddoedd cynnar fynediad i o leiaf un aelod o staff â chymhwyster lefel gradd, â phrofiad yn natblygiad iaith cynnar, erbyn 2020.**

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi tystiolaeth y gall addysg feithrin o dan arweiniad person â gradd gael effaith fesuradwy ar ddatblygiad iaith plant ifanc. Mae'r effaith fel arfer yn gryfach i blant sy'n cael eu magu mewn tlodi. Yn 2012, dim ond 4% o staff mewn meithrinfeydd gofal diwrnod llawn yng Nghymru oedd â gradd (ffigur 4.1). Mae'r ffigur hwn yn rhy isel, a heb ymdrech wedi ei dargedu ni fydd argaeledd a mynediad i arbenigedd datblygiad iaith cynnar o ansawdd y tu hwnt i leoliadau Dechrau'n Deg yn gwella.

Mae cyfle mawr i ddatblygu llwyddiant Dechrau'n Deg a gweithio gyda darparwyr eraill i sicrhau bod gan bob lleoliad fynediad i'r arbenigedd hwn sydd ei angen yn fawr. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae gan 19 o'n 22 awdurdod lleol yng Nghymru therapydd lleferydd ac iaith sy'n cael ei gyflogi fel rhan o'u timau Dechrau'n Deg. Dylid canmol gwaith llywodraeth Cymru i ymestyn rhaglen Dechrau'n Deg; fodd bynnag mae llawer mwy o blant yng Nghymru o dan anfantais tlodi nad ydynt yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Ar ôl bodloni targed ymestyn Dechrau'n Deg flwyddyn yn gynnar, mae'n amser nawr i droi ein sylw at ansawdd darpariaeth ar gyfer plant eraill, yn arbennig y rheiny sy'n byw mewn tlodi a thu hwnt i ardaloedd Dechrau'n Deg.

Mae llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i wella ansawdd gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r ymrwymiad i sicrhau bod gan bob aelod o staff o leiaf cymhwyster Lefel 3 yn y blynyddoedd cynnar erbyn 2025 yn cael ei groesawu, yn arbennig y gydnabyddiaeth y dylai datblygiad iaith cynnar fod yn ffocws i ymarferwyr. Mae hyfforddiant lefel ganolradd ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu plant ifanc ymysg staff nad ydynt yn raddedigion yn bwysig i helpu i adnabod plant sydd mewn perygl o oedi o ran iaith.

Ond ni ddylem fod yn hunanfodlon yn hyn o beth. Er mwyn sicrhau bod ein gweithlu o safon sy'n cefnogi datblygiad bob plentyn yn y ffordd orau, a bod y plant hynny sydd angen cymorth ychwanegol yn ei gael yn ddigon cynnar, mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan y gweithlu ehangach fynediad cyson i hyfforddiant lleferydd ac iaith, goruchwyliaeth a chynngor arbenigol. Mae'r cynigion yng nghynllun drafft Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yng Nghymru i gyflwyno llwybr dilyniant trwy'r sector hyd at Lefel 6 (cyfwerth â lefel gradd) yn cael ei groesawu, ond ni fydd hyn yn darparu'r angen brys i arbenigedd nad oes gan lawer o leoliadau fynediad iddo ar hyn o bryd ac rydym mewn perygl o golli'r cyfle i roi'r sgiliau iaith cynnar sydd eu hangen ar genhedlaeth o blant i ffynnu.

Mae canllawiau presennol llywodraeth Cymru ar grant amddifadedd disgyblion y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed yn cydnabod pwysigrwydd iaith gynnar ac yn darparu gwybodaeth lle gall ymarferwyr y blynyddoedd cynnar gael mynediad i ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn egluro pwysigrwydd cael goruchwyliaeth arbenigol o ddatblygiad lleferydd ac iaith er mwyn sicrhau ansawdd y cymorth. Rydym yn awgrymu y dylid rhoi cymhellion i leoliadau, trwy'r Consortia Addysg rhanbarthol, i weithio'n gydweithredol a defnyddio grant amddifadedd disgyblion y blynyddoedd cynnar i ariannu mynediad i rywun â gradd mewn arbenigedd iaith gynnar. Byddai hyn yn sicrhau bod y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio i wella ansawdd y cymorth ar gyfer plant tlotach.

Mae ymrwymiad maniffesto Llywodraeth y DU i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i blant tair a phedair oed yn debygol o arwain at ariannu canlyniadol ar gyfer Cymru (ar adeg ysgrifennu hwn nid yw'r union ffigurau wedi cael eu cyhoeddi). Mae'n hanfodol nad yw'r cyfle i ganolbwyntio ar ansawdd, yn ogystal â swm, yn cael ei golli. Mae hyn yn arbennig o wir am ein plant ifancaf sy'n cael eu magu mewn tlodi.

**b) Mabwysiadu dull cadarn, systematig a chyson o asesu'r galw am ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar cyfrwng Gymraeg a dwyieithog. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau cyflenwad digonol o ddarpariaeth i fodloni galw gan rieni. Dylai'r dull systematig hwn gynnwys asesu a oes niferoedd digonol o staff gyda'r sgiliau gofynnol yn yr iaith Gymraeg i fodloni anghenion teuluoedd.**

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi tystiolaeth bod amrywiad yn nulliau ac amllder asesiadau awdurdodau lleol o'r galw am ofal plant, yn arbennig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae materion yn ymwneud ag amgyffrediad a dealltwriaeth o ofal plant dwyieithog yn creu heriau ychwanegol wrth ddehongli data awdurdodau lleol, ac mae'r adroddiad hwn wedi awgrymu y byddai ymchwil bellach yn werthfawr er mwyn ystyried sut y gellir casglu data yn fwy systematig.

Mae'r amrywiad a'r anghysondebau mewn data'n golygu ei fod yn anodd bod yn glir am raddfa a natur yr angen am ddarpariaeth yn y Gymraeg. Heb ddealltwriaeth glir o'r galw, mae'n amhosibl barnu i ba raddau y mae ymateb effeithiol gan wasanaeth wedi ei sefydlu.

Yng Nghymru, yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2014, dim ond ychydig dros chwarter (27.5%) y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2014). Mae llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o hybu'r iaith Gymraeg. Mae Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 (Llywodraeth Cymru, 2012) yn amlinellu'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. Er mwyn sicrhau bod y teuluoedd hynny sy'n dymuno magu eu plant yn ddwyieithog yn cael mynediad i'r gofal plant a'r addysg gynnar gywir, mae'n hanfodol sefydlu dull mwy cadarn a systematig o ddeall graddfa a natur y galw, fel bod y ddarpariaeth mewn sefyllfa well i ymateb i'r wybodaeth yma.

Cydnabu adolygiad yr Athro Donaldson, Successful Futures, bwysigrwydd sgiliau iaith cynnar ac mae'n argymhell "cryfhau'r iaith mewn ysgolion cynradd er mwyn creu sylfeini cadarn ar gyfer dysgu yn Gymraeg ac ieithoedd eraill yn yr ysgol uwchradd" (Argymhelliaid 25). Er mwyn sicrhau bod plant mewn ysgolion cynradd mewn sefyllfa dda i ddysgu siarad a defnyddio'r Gymraeg, mae'n rhaid i ni sicrhau bod sylfeini cadarn yn cael eu sefydlu yn ystod y blynyddoedd cynnar.

## 2. CRYFHAU CYMORTH I RIENI

Gellir ond cyflawni ein nod bod gan bob plentyn sgiliau iaith cynnar cryf erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol os yw'r argymhellion ar gyfer y gweithlu addysg gynnar a nodir yn yr adroddiad hwn yn cael eu cyfuno â chamau i gefnogi rhieni a chydnabod pwysigrwydd datblygiad iaith cynnar.

Mae hyn yn hanfodol am fod sgiliau iaith plant yn eu blynyddoedd cynnar yn cael effaith sylweddol ar eu darllen a'u llythrennedd mewn blynyddoedd diweddarach, ac mae'r amgylchedd y cânt eu magu

ynddo yn ddylanwad cryf ar hyn. Dyma pam yr ydym yn gwneud gwella ansawdd cymorth ar gyfer rhieni yn gymaint o flaenoriaeth er mwyn helpu i gyflawni nodau ein hymgyrch.

Mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (Llywodraeth Cymru, 2013) yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi rhieni a theuluoedd i wneud eu gorau dros ddatblygiad eu plant. Mae'n cynnwys ymrwymiad penodol i helpu rhieni i ymgysylltu â dysg eu plant, ac mae llywodraeth Cymru wedi dwyn gweithgareddau allweddol ymlaen i gyflawni hyn, fel y pecyn cymorth Teulu ac Ymgysylltu diweddar ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

Fodd bynnag, ceir mwy o gyfleoedd i gynyddu ansawdd y cymorth y mae rhieni a phlant yn ei gael gan weithlu'r blynyddoedd cynnar a gofynnwn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i'r gweithredoedd canlynol mewn meysydd allweddol:

**a) Sicrhau bod gan staff y sgiliau angenrheidiol i gefnogi rhieni gyda datblygiad iaith cynnar eu plant, yn arbennig y rhieni hynny sy'n byw mewn tldi. Gellir cyflawni hyn trwy sefydlu fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant sydd yn cynnwys elfennau craidd sy'n cwmpasu datblygiad iaith cynnar a chefnogi rhieni.**

Mae'r cynllun deng mlynedd sydd i ddod ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth arwyddocaol i wella ansawdd cyffredinol y gweithlu. Mae'r cynnig i sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu wedi cymhwyso i lefel 3 erbyn 2025 yn gyfle hanfodol i ddatblygu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n darparu hyfforddiant gydag ansawdd wedi ei sicrhau i'r gweithlu ym maes iaith gynnar a chefnogi rhieni.

Dylai hyfforddiant iaith gynnar gynnwys pwysigrwydd datblygiad iaith cynnar, cerrig milltir datblygiadol normal, a sut i adnabod anghenion ac ymateb yn effeithiol. Dylai'r hyfforddiant fynd i'r afael â'r heriau penodol y mae teuluoedd sy'n byw mewn tldi'n eu hwynebu, a bod yn ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ymgysylltu a chefnogi rhieni i ddatblygu sgiliau iaith cynnar eu plant yn y cartref.

**b) Asesu faint o blant sy'n byw mewn tldi ond y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Yna ymrwymo i gamau i sicrhau bod y plant hyn yn gallu cael mynediad i'r cymorth o ansawdd**

## sydd ei angen arnynt ar gyfer datblygiad lleferydd ac iaith gynnar da.

Mae plant a rhieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gallu cael mynediad i wybodaeth a chyingor am leferydd, iaith a chyfathrebu cynnar o enedigaeth trwy gydol pob elfen o raglen Dechrau'n Deg, yn cynnwys iaith a chwarae.

Fodd bynnag, nid yw llawer o blant eraill sy'n cael eu magu yng Nghymru yn cael mynediad i gyfleoedd dysgu cynnar ffurfiol nes eu bod yn dair oed. I'r plant hyn yn arbennig, mae gan wasanaethau eraill o bosibl rôl hanfodol yn natblygiad cynnar eu hiaith. Rydym o'r farn y dylai graddfa a natur yr angen hwn gael ei ddeall yn llawn. Dylid wedyn gymryd camau strategol i wneud y defnydd gorau o adnoddau cymunedol i sicrhau bod rhieni'n cael y cymorth sydd ei angen arnynt a bod gan eu plant sgiliau iaith cynnar da erbyn eu bod yn dechrau'r ysgol.

### 3. ARWEINYDDIAETH GADARN AC UCHELGEISIOL AR GYFER PLANT

Ers datganoli cafwyd traddodiad cryf o wneud polisiau sy'n canolbwyntio ar y plentyn yng Nghymru. Mabwysiadodd Gymru Gofensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen ar gyfer pob polisi ar gyfer plant a phobl ifanc. Er gwaethaf hyn, mae llywodraethu tameidiog o hyd o ran materion sy'n effeithio ar blant, ar lefelau cenedlaethol a lleol, sydd yn ein barn ni yn rhoi canlyniadau plant a phobl ifanc mewn perygl.

Ar hyn o bryd, mae addysg plant a pholisi'r blynyddoedd cynnar wedi ei rannu ar draws dau bortffolio gweinidogaethol. Mae hyn yn cael effaith ar gydlynw gwasanaethau ar lefel leol, yn arbennig parodrwydd plant ar gyfer yr ysgol a phontio o wasanaethau'r blynyddoedd cynnar. Rydym o'r farn bod achos cryf dros gyfuno llywodraethu polisi ac ymarfer y blynyddoedd cynnar ac addysg plant am ddau brif reswm:

- Mae angen i ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar ac addysg gynnar fod yn rhan cydlynus o'r diwygiadau sy'n cael eu dwyn ymlaen yn dilyn adolygiad Donaldson i sicrhau bod gan blant y sgiliau iaith cynnar sydd eu hangen arnynt i ffynnu pan fyddant yn dechrau'r ysgol.
- Byddai trefniadau llywodraethu cenedlaethol cliriach yn cefnogi'r rheiny sy'n gweithio gyda theuluoedd i weithredu'n gynt pan fydd problemau'n codi ac yn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer plant, am y byddent yn cael cefnogaeth gan fframwaith polisi cadarn, cydgysylltiedig. Yn

lleol, efallai na fyddai gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar ac addysg wedi eu hintegreiddio er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i rieni a phlant. Mae hyn yn aml oherwydd bod gwasanaethau'n cael eu hariannu, eu comisiynu a'u cyflenwi gan rannau gwahanol o'r llywodraeth, fel y nodir ym Mhennod 4. Mewn rhai ardaloedd lleol, bydd y gwasanaethau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd, gydag integreiddio da rhwng ymwelwyr iechyd, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a meithrinfeydd, er enghraifft. Fodd bynnag, mae dibynadwyedd hyn yn dameidiog, ac mae'r gwasanaethau mewn rhai ardaloedd yn wasgarog.

Er mwyn sicrhau bod fframwaith ymarfer effeithiol yn cael ei gefnogi gan wneud polisiau yn gydlynol, rydym yn gofyn i'r Prif Weinidog:

#### a) Benodi Gweinidog Plant i ddarparu arweinyddiaeth gref a sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru'n gallu cyrraedd eu llawn botensial.

Mae diwygiadau diweddar a pharhaus, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar ac addysg, yn gyfle i uno'r amcanion a chyflenwi gwasanaethau i gefnogi iaith a dysgu cynnar plant. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i rieni i feithrin datblygiad iaith cynnar eu plant o'u genedigaeth. Cafodd y safbwynt hwn ei ategu'n gryf yn Adolygiad Allen, Early intervention: the next steps (Allen, 2011).

Canfu Adolygiad annibynnol o ofal plant a chofrestru, rheoleiddio ac arolygu addysg gynnar (Llywodraeth Cymru, 2014) dystiolaeth ryngwladol gref fod plant a theuluoedd yn elwa fwyaf yn y gwledydd lle mae elfennau gofal ac addysg yn ystod plentynod cynnar yn cael eu cyflenwi mewn undod. Maent yn argymhell "er mwyn i bolisi fod yn effeithiol [ ... ] dylai fod cyfrifoldeb gweinidogaethol unigol ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar". Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell y dylid sefydlu byrddau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar lleol gan ddefnyddio ôl troed consortia addysg rhanbarthol, er mwyn uno cyflenwi ar lefel leol.

Byddai Gweinidog Plant â chyfrifoldeb dros y blynyddoedd cynnar ac addysg yn dwyn dull addysg, datblygiad plant a chymorth teuluoedd ymlaen yn ymwneud â pholisi a chyflenwi'r blynyddoedd cynnar. Byddai hyn o gymorth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfuno'n effeithiol er mwyn cyrraedd plant a theuluoedd sydd angen cymorth fwyaf, yn arbennig y rheiny mewn tldi.

## CASGLIAD

Mae gormod o blant, yn arbennig y rheiny o deuluoedd incwm isel, ar eu hôl hi o ran eu gallu ieithyddol pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Mae'r adroddiad hwn wedi nodi'r heriau yr ydym yn eu hwynebu a pham y mae'n hanfodol i gyrraedd ein nod bod pob plentyn yn darllen yn dda yn 11 oed erbyn 2025. Gallu cyfathrebu ac iaith plant yw'r garreg gamu i allu dechrau'r ysgol yn barod i ddarllen. Mae'r dystiolaeth yma'n dweud wrthym y gall ymddygiad rhieni a gofalwyr gael effaith fawr ar ddatblygiad iaith cynnar plant. Ond gall tlodi fod yn rhwystr a'i wneud yn fwy anodd i rieni ddarparu'r amgylchedd sydd ei angen i blant ffynnu.

Dyma pam y mae angen cymorth gwasanaethau a rhaglenni o ansawdd ar bob rhiant, ond rhieni incwm isel yn arbennig, i'w helpu i gael mynediad i'r adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i helpu eu plant i ddatblygu gallu ieithyddol da. Mae plant yn dysgu iaith o'u genedigaeth, felly mae sicrhau bod gan rieni gymorth o'r dechrau ac adnabod problemau iaith posibl yn hanfodol. Mae angen i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gael eu harwain gan weithwyr proffesiynol cymwys a'u hintegreiddio o amgylch anghenion y teulu, nid yn dameidiog ar hyd

llinellau gwasanaeth. Gall addysg gynnar o ansawdd da wneud yn iawn am amgylchedd dysgu yn y cartref sydd yn wan, a dyma pam mae angen i ni sicrhau bod pob lleoliad a gweithiwr proffesiynol yn cynnig y cymorth iaith cynnar gorau, yn arbennig i'r rheiny mewn cymdogaethau tlawd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cryn gynnydd ym mholisi ac ymarfer y blynyddoedd cynnar, a dylid canmol eu ffocws ar ddatblygiad iaith cynnar a phwysigrwydd cefnogi rhieni. Ond gydag un ym mhob tri phlentyn yng Nghymru'n cael eu magu mewn tlodi, mae llawer o hyd heb gael y cymorth sydd ei angen arnynt ac mae'n rhaid i ni barhau â'n hymdrechion i sicrhau bod pob plentyn yn cael dechrau da mewn bywyd.

Mae sylfeini cadarn mewn darllen yn hanfodol i dorri'r cylch anghydraddoldeb addysg ac i wella cyfleoedd bywyd ehangach y plant tlotaf a mwyaf difreintiedig. Byddai sicrhau bod gan bob plentyn sgiliau iaith cynnar cryf yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i gyrraedd ein nod bod pob plentyn yn darllen yn dda erbyn eu bod yn cyrraedd 11 oed: cyfraniad tyngedfennol i wneud Cymru'n wlad gyfiawn a theg i gael eich magu ynddi.



# ATODIAD I – ASTUDIAETH CARFAN Y MILENIWM

Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCS) yw'r pedwerydd o astudiaethau carfan genedigaethau hydredol cenedlaethol byd-enwog Prydain. Mae'n rhoi gwybodaeth fanwl yn ymwneud â thua 19,000 o blant a anwyd ar ddechrau'r ganrif newydd a'u teuluoedd, ar draws y Deyrnas Unedig. Cafodd aelodau'r garfan eu geni yng Nghymru a Lloegr dros y cyfnod o 12 mis yn dechrau o fis Medi 2000; yn yr Alban a Gogledd Iwerddon cawsant eu geni dros 13½ mis o fis Tachwedd 2000. Roedd dyluniad y sampl yn caniatáu ar gyfer cynrychiolaeth anghymesur o deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd o dlodi plant, ac mewn ardaloedd o Loegr â phoblogaethau uchel o leiafrifoedd ethnig. Casglwyd gwybodaeth i ddechrau gan rieni, trwy arolwg yn y cartref, pan oedd aelodau'r garfan yn naw mis oed. Cofnododd yr arolwg cyntaf hwn, ymysg pethau eraill, amgylchiadau'r beichiogrwydd a'r enedigaeth, yn ogystal â'r misoedd cynaf hynny, a chefnidir cymdeithasol ac economaidd teuluoedd y plant.

Mae'r data gwaelodlin amlddisgyblaethol yma'n datgelu amrywiaeth mannau cychwyn 'Plant y Genhedlaeth Newydd'. Mae arolygon eraill wedi cael eu cynnal ers hynny yn 3, 5, 7, 11 a 14 oed (yn parhau ar yr adeg ysgrifennu). Mae'r arolygon hyn yn cyd-fynd ag adegau pwysig ym mywydau plant, yn cynnwys y cyfnod cyn ysgol (3 oed), a dechrau, canol a diwedd

yr ysgol gynradd (5, 7, 11 oed yn y drefn honno). O 3 oed ymlaen, mae asesiadau datblygiad corfforol ac asesiadau gwybyddol gwrthrychol wedi cael eu cynnal gyda phlant; mae'r arolygon hefyd yn cynnwys cyfweiliadau gyda'r ddau riant (os ydynt yn cyd-breswyllo), ac, yn gynyddol ar ôl 7 oed, gyda'r aelod o'r garfan.

Cryfder mawr yr astudiaeth yw mesuriad gwrthrychol agweddau gwahanol ar ddatblygiad gwybyddol trwy gydol plentyndod, trwy broffion a weinyddir gan gyfweiliadau gan bobl wedi eu hyfforddi ag aelodau'r garfan. O ddiddordeb arbennig ar gyfer yr adroddiad hwn y mae mesuriadau datblygiad iaith a llafar, a gasglwyd yn 3, 5, 7 ac 11 oed (a 14 oed, mewn maes), ac sy'n cael eu disgrifio nesaf.

Yn 3 a 5 oed yn yr MCS rydym yn mesur gallu llafar mynegol gan ddefnyddio is-raddfa "geirfa enwi" Cyfraddau Gallu Prydain BAS. Gofynnir i'r plentyn ddarllen cyfres o eiriau a gyflwynir ar gerdyn; mae'r asesiad yn cynnwys 90 o eiriau i gyd; caiff y geiriau eu trefnu yn naw bloc o 10 gair mewn trefn gynyddol anodd. Yn 11 oed, cafodd is-raddfa "tebygrwydd llafar" o'r BAS ei weinyddu i blant. Darllenwyd set o eiriau i'r plentyn a gofynnwyd sut roedd y geiriau'n gysylltiedig. Mae'r asesiad hwn yn mesur gwybodaeth am eiriau, ynghyd â sgiliau resymu a mynegi syniadau. Ceir mwy o fanylion am y profion yn Johnson (2012).

## MEINTIAU SAMPL MCS

<b>Cyfanswm amcangyfrif sampl prawf (tanbwysolwyd)</b>	<b>3 Oed</b>	<b>5 Oed</b>	<b>7 Oed</b>	<b>11 Oed</b>
Lloegr	9,440	9,708	8,846	8,461
Cymru	2,179	2,127	1,774	1,751
Yr Alban	1,745	1,798	1,614	1,452
G. Iwerddon	1,412	1,535	1,357	1,285
<b>Cyfanswm y sampl (tanbwysolwyd)</b>	<b>3 Oed</b>	<b>5 Oed</b>	<b>7 Oed</b>	<b>11 Oed</b>
Lloegr	10,086	9,760	8,887	8,675
Cymru	2,238	2,147	1,972	1,834
Yr Alban	1,803	1,804	1,622	1,472
G. Iwerddon	1,463	1,535	1,376	1,306
<b>Sampl cwintel incwm (tanbwysolwyd)</b>	<b>3 Oed</b>	<b>5 Oed</b>	<b>7 Oed</b>	<b>11 Oed</b>
Lloegr	1,888	1,942	1,769	1,692
Cymru	436	425	355	350
Yr Alban	349	360	323	290
G. Iwerddon	282	307	271	257



# ATODIAD 2 – TABLAU ATCHWELIAD LLAWN AR GYFER PENNOD 2

SGÔR SAFONEDIG DARLLEN GEIRIAU 7 OED

	<b>Model gwaelodlin</b>	<b>Model llawn</b>
< prawf canolrif 5 oed	<b>-0.571**</b> (0.0202)	<b>-0.449**</b> (0.0194)
Oed S4	<b>0.318**</b> (0.0447)	<b>0.347**</b> (0.0447)
Cymru		<b>-0.278**</b> (0.055)
Yr Alban		<b>-0.0916*</b> (0.0383)
Gogledd Iwerddon		<b>-0.287**</b> (0.0437)
Tlodi ysbeidiol		<b>-0.179**</b> (0.0278)
Tlodi parhaus		<b>-0.276**</b> (0.046)
Benywaidd		<b>0.114**</b> (0.0204)
Cyd-fyw		-0.0113 (0.0268)
Rhiant sengl		0.0162 (0.0406)
Tŷ rhent		<b>-0.0838**</b> (0.0257)
Siarad iaith arall		<b>0.217**</b> (0.0475)
Amgylchedd dysgu yn y cartref		<b>0.0118**</b> (0.00136)
Cymwysterau dramor		0.129 (0.104)
NVQI		<b>-0.0828</b> (0.0667)

parhad ar y dudalen nesaf

SGÔR SAFONEDIG DARLLEN GEIRIAU 7 OED *parhad*

	<b>Model gwaelodlin</b>	<b>Model llawn</b>
NVQ2		0.0735 (0.0541)
NVQ3		0.0942+ (0.0551)
NVQ4+ (Gradd)		0.296** (0.0519)
Pwysau ar enedigaeth		0.0557* (0.0215)
Ethnigrwydd arall		0.236** (0.0461)
Cyfnod beichiogrwydd		0.00125 (0.000902)
Salwch hirsefydlog		-0.00381 (0.0308)
Salwch hirsefydlog cyfyngol		-0.118+ (0.0634)
Arsylwadau		9,713
R-sgwâr		0.193
Canlyniad canolrif		108.5
Canlyniad SD		30.02

## Nodiadau:

- Nodir gwallau safonol o dan bob amcangyfrif cyfernod, fel ail rif bob newidyn, mewn parentheses
- Mae \*\*, \*, + yn dynodi arwyddocâd ystadegol ar lefelau 1%, 5%, 10% yn y drefn honno.
- Rheolyddion model ar gyfer amrywiaeth o nodweddion cefndir, fel y rhestrir yng ngholofn ochr chwith y tabl

TEBYGRWYDD LLAFAR SAFONEDIG II OED

	<b>Model gwaelodlin</b>	<b>Sig</b>
< canolrif 5 oed	<b>-0.570**</b> (0.0259)	<b>-0.440**</b> (0.0237)
S5 Oed	<b>0.0844*</b> (0.0361)	0.133** (0.0341)
Cymru		<b>0.138*</b> (0.0552)
Yr Alban		-0.0214 (0.055)
G Iwerddon		<b>0.180**</b> (0.0456)
Tlodi ysbeidiol		<b>-0.114**</b> (0.0274)
Tlodi parhaus		<b>-0.294**</b> (0.0523)
Benywaidd		-0.0995** (0.0197)
Cyd-fyw		0.0281 (0.0287)
Rhiant sengl		0.0906* (0.0385)
Tŷ rhent		-0.102** (0.0311)
Siarad iaith arall		0.0157 (0.0523)
Amgylchedd dysgu yn y cartref		0.00940** (0.00172)
Cymwysterau dramor		0.183* (0.088)
NVQ1		0.0209 (0.0757)
NVQ2		0.0893 (0.0596)
NVQ3		0.178** (0.0687)
NVQ4+ (Gradd)		0.302** (0.0644)
Pwysau ar enedigaeth		0.0440* (0.022)

parhad ar y dudalen nesaf

Tebygrwydd Llafar safonedig II Oed *parhad*

	<b>Model gwaelodlin</b>	<b>Sig</b>
Ethnigrwydd arall		0.245** (0.0461)
Cyfnod beichiogrwydd		-0.000634 (0.00104)
Salwch hirsefydlog		-0.0533+ (0.0317)
Salwch hirsefydlog cyfyngol		-0.0785 (0.0866)
Arsylwadau		9,713
R-sgwâr		0.159
Canlyniad Canolrif		121.7
Canlyniad SD		16.24

## Nodiadau:

- Nodir gwallau safonol o dan bob amcangyfrif cyfernod, fel ail rif bob newidyn, mewn parentheses
- Mae \*\*, \*, + yn dynodi arwyddocâd ystadegol ar lefelau 1%, 5%, 10% yn y drefn honno.
- Rheolyddion model ar gyfer amrywiaeth o nodweddion cefndir, fel y rhestrir yng ngholofn ochr chwith y tabl



## PENNOD 3

- Burnett, C., Daniels, K. & Bailey, C., (2014) The Contribution of Early Years Bookgifting Programmes to Literacy Attainment : A Literature Review Final, Sheffield. Ar gael yn: <http://booktrustadmin.artlogic.net/usr/resources/1124/final-bookgifting-lit-review.pdf>.
- Carneiro, P., Meghir, C., & Parey, M. (2012) 'Maternal Education, Home Environments and the Development of Children and Adolescents.' Journal of the European Economic Association, Cyf. 11, Atodiad y Rhifyn 1, tud. 123-160, Ion 2013.
- Clark, C. (2009) Why Fathers Matter to their Children's Literacy. Llundain: Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol.
- Centre for Education and Inclusion Research (2012) Evaluation of Bookstart England: Reviw of Resources, Sheffield. Ar gael yn: <http://files.server.booktrust.org.uk/usr/resources/1018/bookstart-review-resources-july-2012.pdf>.
- Cullis, A., & Hansen, K. (2008) Child Development in the First Three Sweeps of the Millennium Cohort Study. Llundain: IoE.
- Demack, S. & Stevens, A. (2013) Evaluation of Bookstart England : Bookstart Corner, Sheffield. Ar gael yn: <http://booktrustadmin.artlogic.net/usr/resources/1133/bookstart-corner-final-report-full-version-with-appendices.pdf>.
- Felfe, Christina & Lalive, Rafael, 2013. "Early Child Care and Child Development: For Whom it Works and Why," CEPR Discussion Papers 9274, C.E.P.R. Papurau Trafodaeth.
- Hart, B. & Risley, T. (1995) Meaningful differences in the everyday experiences of American children. Baltimore: Paul H. Brooks Publishing.
- Hartas, D. (2011) Families' social backgrounds matter: socio-economic factors, home learning and young children's language, literacy and social outcomes. British Educational Research Journal Cyf. 37, Rhif 6, Rhagfyr 2011, tud. 893-914.
- Heckman, J., J. (2011) The Economics of Inequality: The value of early childhood education. Researching Law, Cyf 22, Rhif 3. Ar gael: [http://www.americanbarfoundation.org/uploads/cms/documents/abf\\_researchinglaw\\_summer2011.pdf](http://www.americanbarfoundation.org/uploads/cms/documents/abf_researchinglaw_summer2011.pdf)
- Havnes, Tarjei & Mogstad, Magne, 2009. "Money for Nothing? Universal Child Care and Maternal Employment," IZA Discussion Papers 4504, Institute for the Study of Labor (IZA).
- Huttenlocher et.al. (1991) Vocabulary growth: relation to language input and gender. Developmental Psychology, 1991:27: 236-248
- Van Ijzendoorn, M. H., & Kroonenberg, P. M. (1988). Cross-cultural patterns of attachment: A meta-analysis of the strange situation. Child Development, 147-156.
- Levy, R. et al. (2014). Attitudes to Reading and Writing and their Links with Social Mobility 1914–2014: An Evidence Review, Sheffield. Ar gael yn: <http://files.server.booktrust.org.uk/usr/resources/1077/booktrust100-final-report-17-march-2014.pdf>.
- Maisey, R., Speight, S. & Marsh, V., with D Philo (2013) The Early Education Pilot for Two Year Old Children: Age five follow up, Llundain: Adran Addysg
- Mathers, S. & Smees, R. (2014) Quality and Inequality: Do three- and four-year-olds in deprived areas experience lower quality early years provision? Llundain: Sefydliad Nuffield
- Melhuish, E. (2010). Impact of the Home Learning Environment on Child Cognitive Development: Secondary Analysis of Data from 'Growing Up in Scotland'. Caeredin: Llywodraeth yr Alban.
- National Scientific Council on the Developing Child (2007) The Science of Early Childhood Development: Closing the gap between what we know and what we do. Centre on the Developing Child, Harvard University. Ar gael: [http://developingchild.harvard.edu/index.php/resources/reports\\_and\\_working\\_papers/science\\_of\\_early\\_childhood\\_development/](http://developingchild.harvard.edu/index.php/resources/reports_and_working_papers/science_of_early_childhood_development/)
- O'Brien, M. and Nagle, K. (1987) Parents' speech to toddlers: the effect of play context. Journal of Child Language / Cyfrol 14 / Rhifyn 02 / Mehefin 1987, (269-279).
- Poole, E., Speight, S., O'Brien, M., Connolly, S. & Aldrich, M. (2013) Fathers' involvement with children. Ar gael: <http://www.modernfatherhood.org/wp-content/uploads/2013/04/Fathers-involvement-with-children1.pdf>
- Rakic P (2006) 'No more cortical neurons for you' Science 313(5789): 928 – 929
- Roulstone, S., Law, J., Rush, R., Clegg, J., & Peters, T. (2010) Investigating the role of language in children's early educational outcomes. Llundain: Adran Addysg.
- Roseberry-McKibbin, C. (2001) 'Serving Children From the Culture of Poverty: Practical Strategies for Speech-Language Pathologists', The ASHA Leader.
- Sammons, P., Sylva, K., Melhuish, E.C., Siraj, I., Taggart, B. and Elliot, K. (2002). The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Technical Paper 8a - Measuring the Impact of Pre-School on Children's Cognitive Progress over the Pre-School Period. Llundain: DfES / Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain.
- Sénéchal, M., Thomas, E., & Monker, J.-A. (1995). Individual differences in 4-year-olds' ability to learn new vocabulary. Journal of Educational Psychology, 87, 218-229.
- Schoon, I., Parsons, S., Rush, R. & Law, J. (2010a). 'Childhood language skills and adult literacy: A twenty-nine year follow-up study'. Pediatrics, Cyfrol 125, Rhif 3, tud. e459-e466
- Son, S. & Morrison, J., F. (2010) The nature and impact of changes in home learning environment on development of language and academic skills in preschool children. Developmental Psychology, Cyf 46 (5), Medi 2010, 1103-1118.
- Sylva, K., Melhuish, E.C., Sammons, P., Siraj, I. and Taggart, B. (2004). The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Technical Paper 12 - The Final Report: Effective Pre-School Education. Llundain: DfES / Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain.
- Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I., & Taggart, B. (2010). Early Childhood Matters: Evidence from the Effective Pre-school and Primary Education Project. Oxford: Routledge.
- Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I., & Taggart, B. (2014) Students' educational and developmental outcomes at age 16. Llundain: DfES / Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain.
- Huskinson, T., Kostadintcheva, K., Greevy, H., Salmon, C., Dobbie, S. & Medien, K. (2014) Childcare and early years survey of parents 2012-2013. Llundain: Adran Addysg.
- Webster-Stratton, C. (1990) Stress: A Potential Disruptor of Parent Perceptions and Family Interactions, Journal of Clinical Child Psychology, 19(4).
- Llywodraeth Cymru, Adolygiad annibynnol o ofal plant a chofrestru, rheoleiddio ac arolygu addysg gynnar, Awst 2014. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140815-independent-review-of-childcare-and-early-education-registration-regulation-inspection-cy.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2009) Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cyntaf Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-childcare-early-years-survey/?lang=cy>
- Llywodraeth Cymru (2014c) Adolygiad o'r ymarferiad yng ngweithrediad yr elfen cymorth datblygiad iaith cynnar o fewn Dechrau'n Deg
- Llywodraeth Cymru (2014d), Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14 Education - parental involvement with child's learning (Sample 1,500) <https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/National-Survey-for-Wales/2013-14>
- Llywodraeth Cymru (2014e) Adroddiad y Farwnes Andrews Diwylliant a Thlodi – Ymateb gan Lywodraeth Cymru
- Wylie, P. (2014). Bookstart Corner programme evaluation 2013/2014. Llundain: Booktrust. Ar gael yn: [http://www.actionpointms.co.uk/downloads/BSCEExecSumm\\_Finalver\\_june16th14.pdf](http://www.actionpointms.co.uk/downloads/BSCEExecSumm_Finalver_june16th14.pdf)

## PENNOD 4

Blades, R et al (2014) Implementation study: Integrated Review at 2 – 2 ½ Years – Integrating the Early Years Foundation Stage Progress Check and the Healthy Child Programme health and development review, Research report, Llundain: Adran Addysg

Demack, S. & Stevens, A. (2013) Evaluation of Bookstart England : Bookstart Corner, Sheffield. Ar gael yn: <http://booktrustadmin.artlogic.net/usr/resources/1133/bookstart-corner-final-report-full-version-with-appendices.pdf>.

Goff, J., Hall, J., Sylva, K., Smith, T., Smith, G., Eisenstadt, N., Sammons, P., Evangelou, M., Smees, R., and Chu, K. (2013). Evaluation of Children's Centre's in England (ECCE) – Strand 3: Delivery of Family Services by Children's Centre's Research Report. [ar-lein] Adroddiad Ymchwil DfE Rhif DFE-RR297. Goff et al. (2013) adroddiad ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/224096/DFE-RR297.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/224096/DFE-RR297.pdf)

Gross, J (2011) Two Years On: final report of the Communication Champion for children, Llundain: Swyddfa'r Eiriolwr Cyfathrebu. Ar gael yn: [https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/9683/nwm\\_final\\_jean\\_gross\\_two\\_years\\_on\\_report.pdf](https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/9683/nwm_final_jean_gross_two_years_on_report.pdf)

Huskinson, T et al (2014) Childcare and early years survey of parents 2012-2013, Llundain: Adran Addysg. Ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/275992/SFR06-2014\\_Childcare\\_and\\_Early\\_Years\\_Survey\\_of\\_Parents\\_2012-13\\_final.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/275992/SFR06-2014_Childcare_and_Early_Years_Survey_of_Parents_2012-13_final.pdf)

Law, J. et al (2013) Early language delays in the UK, Llundain: Achub y Plant

Morrow, V. (1998) Understanding Families: Children's Perspectives. Llundain: Biwro Cenedlaethol y Plant

Neuman, S.B. (1999). "Books make a difference: A study of access to literacy." Reading Research Quarterly.

SCYA (2010) Gwerthuso Canolfannau Plant Integredig yng Nghymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2012) The first incomplete field guide to wellbeing in libraries

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Wellbeing%20in%20Libraries.pdf>

Roulstone, S et al (2011) Investigating the role of language in children's early educational outcomes. Llundain: Adran Addysg

Stewart, K & Obolenskaya, P (2015) The Coalition's Record on the Under Fives: Policy, Spending and Outcomes 2010 – 2015, Llundain: The London School of Economics and Political Science

The Bercow Report: A Review of Services for Children and Young People (0–19) with Speech, Language and Communication Needs

Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgelloedd a Gwybodaeth (2012) A changing landscape: A survey of public library authorities in England, Wales and Northern Ireland 2012-13, Summary Report. Llundain: Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgelloedd a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru (2008) Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru

Llywodraeth Cymru (2011) Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: fframwaith strategol ar gyfer datblygu llyfrgelloedd Cymru 2012-16. <http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/libraries/libraries-inspire/?lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2014) Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017

<http://gov.wales/docs/drah/publications/140425wpls5cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2013a), Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnydoedd Cynnar a Gofal Plant <http://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2013b) Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg

Llywodraeth Cymru (2014b) Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd yng Nghymru, Hawlfraint y Goron

Ar gael yn <http://gov.wales/docs/drah/publications/141021libraries-review-report-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2014c) Adolygiad o'r ymarferiad yng ngweithrediad yr elfen cymorth datblygiad iaith cynnar o fewn Dechrau'n Deg

Llywodraeth Cymru (2014e) Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru

Llywodraeth Cymru (2014f) Adroddiad cynnydd Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnydoedd Cynnar a Gofal Plant 2013–14 <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140710-building-a-brighter-future-progress-report-2013-2014-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2014g) Archwiliad annibynnol o ba mor effeithiol yw'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru: Adroddiad terfynol

Llywodraeth Cymru (2014h) Drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynnydoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru

## PENNOD 5

Allen, G (2011) Early Intervention: The Next Steps. An Independent Report to Her Majesty's Government. Llundain: Swyddfa'r Cabinet

Adran Addysg (2014) Statutory framework for the early years foundation stage: Setting the standards for learning, development and care for children from birth to five. Llundain: Adran Addysg

Gross, J (2011) Two Years On: final report of the Communication Champion for children, Llundain: Swyddfa'r Eiriolwr Cyfathrebu. Ar gael yn: [https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/9683/nwm\\_final\\_jean\\_gross\\_two\\_years\\_on\\_report.pdf](https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/9683/nwm_final_jean_gross_two_years_on_report.pdf)

Fforwm Llythrennedd Cenedlaethol (2014) Vision for Literacy 2025. Llundain: Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol

Darlenna. Datblyga. (2015) Grym Darllen. Llundain: Achub y Plant

Llywodraeth Cymru, Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar, Awst 2014. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140815-independent-review-of-childcare-and-early-education-registration-regulation-inspection-en.pdf>